



1872 PRIFYSGOL
ABERYSTWYTH
UNIVERSITY

1872
150
2022

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2021-2022





PRIFYSGOL


ABERYSTWYTH
UNIVERSITY



Cynnwys

Cyflwyniad gan Gadeirydd Cyngor Prifysgol Aberystwyth	4
Cyngor Prifysgol Aberystwyth	6
Cynllun Strategol Prifysgol Aberystwyth	12
Adolygiad gan yr Is-Ganghellor	14
Adolygiad Strategol	16
Graddio 2022	30
Datganiad Polisi Cyflog Blynyddol a Chydnabyddiaeth Ariannol Uwch Reolwyr	32
Cyd-adroddiad ar y flwyddyn ariannol gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid	33
Datganiad o'r Budd Cyhoeddus	42
Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol	44
Gweithrediaeth y Brifysgol	46
Adroddiadau Blynyddol Pwyllgorau'r Cyngor	48
Datganiad o gyfrifoldebau'r cyngor o ran y datganiadau ariannol cyfun	55
Ymgynghorwyr Proffesiynol	57
Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i Gyngor Prifysgol Aberystwyth	58
Y Datganiadau Ariannol a'r Nodiadau	62

Cyflwyniad gan Gadeirydd Cyngor Prifysgol Aberystwyth



Mae eleni wedi dangos yn glir pam bod Prifysgol Aberystwyth yn sefydliad mor uchel ei barch. Mae ein staff yn cael effaith a dylanwad ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan helpu i newid bywydau a chwarae rhan sylweddol yn addysgol, yn economaidd ac yn gymdeithasol.

Er bod heriau digynsail wedi ein hwynebu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, oherwydd COVID-19 yn bennaf, yn 2021/22 parhaodd y Brifysgol i ymateb yn rhagorol i'r amgylchiadau anodd ac, ar yr un pryd, gwnaed cynnydd tuag at ei hamcanion strategol a chryfhau ei sefyllfa ariannol sylfaenol.

Diweddarwyd y Cyngor yn rheolaidd ar y camau a gymerwyd gan y Brifysgol i ymateb wrth inni ddod allan o'r pandemig, ac i gefnogi ei staff, ei myfyrwyr a'r gymuned ehangach. Mae'r Is-Ganghellor, y staff, y myfyrwyr a'r rhanddeiliaid yn haeddu llawer o glod am eu hymateb yn ystod y cyfnod o ansicrwydd. Maent wedi cyflawni llawer mewn cyfnod anodd ac wedi gwneud argraff ar y Cyngor gyda'u penderfynoldeb.

Diolch o galon i bawb sydd wedi gweithio mor galed.

Cynhaliodd y Cyngor bum cyfarfod ffurfiol yn ystod 2021/22, yn ogystal â sesiwn strategaeth ddeuddydd, a pharhaodd yr is-bwyllgorau i gyfarfod yn rheolaidd. Yn ogystal â goruchwylio'r ymatebion gweithredol i amrywiol heriau, roedd aelodau'r Cyngor yn falch o dderbyn diweddariad canol tymor ar strategaeth bum-mllynedd y Brifysgol a chamau gweithredu newydd y mae'r Weithrediaeth wedi eu nodi er mwyn cyflawni ein hamcanion. Mae'r gwagedd gweithredu bach, ac eithrio'r newid yn y cynlluniau pensiwn, a gofnodir yn yr Adroddiad Blynyddol hwn yn enghraifft bwysig o'r cynnydd rydym ni fel sefydliad yn ei wneud tuag at gyflawni ein nodau strategol.

Swyddogaeth y Cyngor yn ei hanfod yw sicrhau bod y Brifysgol yn cael ei chynnal ar seiliau cadarn ar gyfer y blynyddoedd i ddod a'i bod yn gwneud y penderfyniadau gorau er mwyn adeiladu ar lwyddiant a diogelu'r sefydliad at y dyfodol. Rydym yn falch o adrodd ar lwyddiannau arwyddocaol yn ystod y flwyddyn. Y Ganolfan Addysg Gofal lechyd newydd, werth £1.7 miliwn, fydd cartref cyrsiau nyrsgo yn Aberystwyth o hydref 2022 ymlaen ac rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ar ffurf grant £500,000. Dechreuwyd hefyd ar y gwaith o osod ein paneli solar newydd, fel rhan o ymgyrch y Brifysgol tuag at garbon sero net. Mae'r agenda pwysig hwn, a gefnogir yn llawn gan y Cyngor, yn elfen bwysig yn y ffordd rydym ni'n dal i ymaddasu yn gynaliadwy ar gyfer y degawdau nesaf.

Uchafbwynt arall oedd agor ein Hysgol Filfeddygol, werth £2.4 miliwn; penllanw blynyddoedd o waith caled a rhywbeth y mae Prifysgol Aberystwyth ac, yn wir, Cymru gyfan, wedi dyheu amdano ers degawdau lawer. Roedd yn anrhydedd i ni fod Tywysog Cymru ar y pryd wedi ymweld ag Aberystwyth ym mis Rhagfyr i agor yr Ysgol a'i chyfleusterau gwych yn ffurfiol.

Gwnaeth y Cyngor benderfyniad yn ystod y flwyddyn hefyd i barhau â phrosiect cyffrous yr Hen Goleg a fydd yn rhoi bywyd newydd i'r

adeilad eiconig hwn. Mae hwn yn ymrwymiad sylweddol i'r Brifysgol na fyddai wedi bod yn bosib heb gymorth ariannol hael gan amrywiaeth o roddwyr. Gyda'r gwaith bellach yn mynd rhagddo, edrychwn ymlaen at weld budd y prosiect i'n cymuned gyfan.

Gwnaethom gynnydd pellach o ran cryfhau ein trefniadau llywodraethu yn unol â'r 'Adolygiad ar Lywodraethu Prifysgolion yng Nghymru' (Adolygiad Camm). Er bod effeithiau COVID-19 yn golygu bod yn rhaid gohirio rhai o'r camau y cytunwyd arnynt, rydym wedi gweithredu neu symud ymlaen ar y rhan fwyaf o'r argymhellion yn yr adroddiad.

Mae holl aelodau'r Cyngor yn ymddiriedolwyr yr elusen, sef y Brifysgol, a phob un yn chwarae rhan allweddol wrth wneud penderfyniadau yn y Brifysgol, ar gyfer ei phresennol a'i dyfodol. Mae'r Brifysgol a minnau'n hynod ddiolchgar am gyfraniad yr aelodau annibynnol, sy'n gwneud hynny'n wirfoddol ac rydym yn elwa'n fawr o gael eu barn a'u harbenigedd. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth Fiona Sharp, Owen Evans CBE a'r Athro Syr Robin Williams CBE ildio'r awenau fel aelodau o'r Cyngor. Roedd pob un ohonynt yn dod â'u profiad a'u dealltwriaeth i drafodaethau'r Cyngor ac roeddem yn gwerthfawrogi eu haelodaeth yn fawr.

Roedd blwyddyn academiaidd 2021/22 yn gyfnod o gynnydd mawr wrth i'n cymdeithas ddod allan o'r gwaethaf o'r pandemig. Edrychwn ymlaen at y 12 mis nesaf gydag egni a hyder o'r newydd, wrth i ni baratoi i ddathlu 150 mlynedd ers inni ymsefydlu fel Prifysgol gyntaf Cymru.

Dr Emyr Roberts
Cadeirydd y Cyngor



Cyngor Prifysgol Aberystwyth

Yn unol â Siarter Frenhinol Atodol Prifysgol Aberystwyth 2018, y Cyngor yw “corff llywodraethol goruchaf y Brifysgol”. Mae’n gyfrifol am “bennu cyfeiriad strategol y Brifysgol ac am faterion ariannol a gweinyddol y Brifysgol yn ogystal ag agweddau eraill, yn unol â’i hamcanion”.

Dyma aelodau’r corff llywodraethol i’r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022, a hyd at y cyfarfod lle y cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol a’r Datganiadau Ariannol yn ffurfiol gan y Cyngor:

AELODAU ANNIBYNNOL

Y Cyngor sy’n gyfrifol am benodi’n ffurfiol y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd ac Aelodau Annibynnol eraill y corff llywodraethu.

Mae’r Cyngor wedi gofyn i’r Pwyllgor Enwebu arwain ar y prosesau penodi perthnasol a gwneud argymhellion addas am bobl i’w cyflwyno i gael eu penodi gan y corff llywodraethu.

Yn rhan o’r cyfrifoldeb hwnnw, mae’n ofynnol i’r Pwyllgor Enwebu sicrhau bod yr unigolion sy’n cael eu penodi’n addas o annibynnol (gweler isod).



Dr Emyr Roberts - Cadeirydd y Cyngor

Cyfnod penodiad: 01 Awst 2015 – 31 Rhagfyr 2023
(Cadeirydd 01 Ionawr 2018 – 31 Rhagfyr 2023)

Emyr Roberts oedd Prif Weithredwr cyntaf Cyfoeth Naturiol Cymru, gan arwain ar uno’r tri chorff blaenorol yn un sefydliad a chanddo gyfrifoldebau eang dros reoli adnoddau naturiol ac amgylchedd Cymru mewn modd cynaliadwy. Cyn hynny, bu’n uwch gwas sifil i Lywodraeth Cymru, yn rheoli nifer o bortffolios; ei swyddi diwethaf yno oedd Cyfarwyddwr Cyffredinol adran Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol, a Chyfarwyddwr Cyffredinol adran Addysg a Sgiliau.



Meri Huws – Dirprwy Gadeirydd y Cyngor

Cyfnod penodiad: 01 Mai 2019 – 30 Ebrill 2026
(Dirprwy Gadeirydd 01 Awst 2021 – 30 Ebrill 2026)

Meri Huws oedd Comisiynydd y Gymraeg tan fis Ebrill 2019, swydd y bu ynddi ers Ebrill 2012. Roedd yn Gadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ers 2004 tan y diddymwyd y Bwrdd ym mis Mawrth 2012. Graddiodd o Brifysgol Aberystwyth yn y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, mae hi hefyd wedi bod yn Ddirprwy Is-Ganghellor ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Bangor.

Kate Eden

Cyfnod penodiad: 01 Awst 2020 – 31 Gorffennaf 2024

Cyfarwyddwr anweithredol yw Kate Eden, ac mae ganddi dros 15 mlynedd o brofiad ar lefel rheoli uwch ym Mhrydain ac yn rhyngwladol. Cafodd ei geni a'i magu yn y gogledd, ac fe astudiodd y gwyddorau cymdeithasol a gwleidyddol yng Ngholeg y Brenin, Caergrawnt. Yn y sector fferyllol yn bennaf y bu iddi feithrin ei harbenigedd mewn materion cyhoeddus, polisi a chyfathrebu strategol. Mae hi hefyd wedi gweithio ar bolisi ynni a gwyddoniaeth.



Owen Evans CBE

Cyfnod penodiad: 01 Awst 2021 – 12 Mai 2022

Graddiodd Owen Evans mewn Economeg o Brifysgol Abertawe, cyn ymuno ag Ysgol Rheolaeth Prifysgol Aberystwyth yn 1994, cyn cael ei benodi'n Bennaeth Polisi BT Cymru yn 1998. Ar ôl bron i 10 mlynedd yn BT, ymunodd â Busnes yn y Gymuned - Cymru, cyn dod yn Gyfarwyddwr Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes yn Llywodraeth Cymru. Ymunodd ag S4C i fod yn Brif Weithredwr yn 2017 lle y mae wedi arwain ar y gwaith o weddnewid ei helfennau digidol a marchnata.



Yr Athro Simon Green

Cyfnod penodiad: 01 Medi 2021 – 31 Medi 2025

Mae'r Athro Simon Green yn Ddirprwy Is-ganghellor (Ymchwil) ym Mhrifysgol Aston, lle mae'n gyfrifol am strategaeth y Brifysgol o ran ymchwil effeithiol, cydweithredol, rhagorol a chynaliadwy. Fe'i haddysgwyd ym mhrifysgolion Manceinion, Heidelberg a Birmingham. Yn 2011, fe'i hetholwyd yn Gymrawd i Academi'r Gwyddorau Cymdeithasol. Ynghyd â'i weithgareddau academiaidd, mae'r Athro Green yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o feithrin cysylltiadau rhwng Prydain a'r Almaen.



Sharron Lusher MBE DL

Cyfnod penodiad: 01 Awst 2021 – 31 Gorffennaf 2025

Dechreuodd Sharron Lusher ei gyrfa gynnar gyda Marks & Spencer lle cyrhaeddodd swydd Rheolwr Logisteg Ewrop y cwmni cyn symud i'r sector addysg. Gyda chyfanswm o 22 mlynedd yng Ngholeg Sir Benfro, bu'n Bennaeth am chwe blynedd tan iddi ymddeol yn 2018. Ym mis Mehefin 2002 daeth Sharron yn Gadeirydd y Bwrdd Adolygu Cymwysterau Galwedigaethol.



Rhuanedd Richards

Cyfnod penodiad: 01 Awst 2020 – 31 Gorffennaf 2024

Astudiodd Rhuanedd Richards ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn Ysgol Newyddiaduraeth Prifysgol Caerdydd. Cychwynnodd ar ei gyrfa mewn newyddiaduraeth gyda BBC Cymru, cyn symud ymlaen i fod yn gyflwynydd ar rai o'u prif raglenni newyddion a gwleidyddol. Gadawodd y BBC yn 2007 a gweithiodd fel cynghorydd arbennig i Lywodraeth Cymru, Prif Weithredwr Plaid Cymru ac fel cynghorydd polisi i Lywydd Senedd Cymru. Dychwelodd i'r BBC yn 2018 lle mae hi'n Gyfarwyddwr Cynnwys a Gwasanaethau ar hyn o bryd.





Fiona Sharp

Cyfnod penodiad: 01 Mai 2019 – 30 Ebrill 2022

Mae Fiona Sharp yn gyfrifydd cymwysedig ac mae wedi gweithio mewn uwch swyddi cyllid yn y diwydiant cysylltiadau cyhoeddus a hysbysebu, gan gynnwys Cyfarwyddwr Cyllid Grŵp Chime Communications. Mae hi'n Gymrawd i Gymdeithas Siartredig y Cyfrifwyr Ardystiedig. Ar hyn o bryd mae Fiona yn gweithio fel Rheolwr Cyllid Grŵp Midatech Pharma, sef cwmni technoleg darparu cyffuriau sy'n canolbwyntio ar wella bioddarpariaeth a bioddosbarthu moddion.



Marc Tweed

Cyfnod penodiad: 01 Ionawr 2020 – 31 Rhagfyr 2022

Ar hyn o bryd mae Mark Tweed yn Brif Swyddog Ariannol, yn Gyfarwyddwr ac yn Bennaeth ar faterion cyfreithiol yn Propel Finance. Cyn hynny, bu'n Ddirprwy Brif Swyddog Ariannol ac yn Bennaeth Dros Dro ar faterion cyfreithiol i Opel Vauxhall Finance (OVF). Graddiodd mewn Cemeg Ddiwydiannol o Brifysgol Caerdydd; mae Mark hefyd yn aelod annibynnol o Fwrdd Cymdeithas Chwaraeon Cymru. Cyn dod yn aelod o Gyngor y Brifysgol, bu'n gwasanaethu fel aelod annibynnol ar y pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, a'r pwyllgor Buddsoddiadau.



Yr Athro Syr Robin Williams CBE

Cyfnod penodiad: 01 Awst 2018 – 31 Gorffennaf 2022

Roedd Robin Williams yn Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe. Yn fwy diweddar bu'n aelod o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o fis Awst 2009 tan fis Gorffennaf 2018 a bu'n gadeirydd ei Bwyllgor Ymchwil, Arloesi a Meithrin Cyswllt. Bu'n Gadeirydd y Cyngor Cyngori ar Wyddoniaeth i Gymru ac mae'n Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol.



Dr William Williams

Cyfnod penodiad: 01 Awst 2020 – 31 Gorffennaf 2024

Graddiodd William Williams o Aberystwyth ac mae'n Brif Swyddog Gweithredol ar Alacrity Foundation. Ymunodd â Rothschild ym 1990 a threuliodd bum mlynedd yn gweithio ym maes cyllid corfforaethol cyn dychwelyd i'r byd academiaidd. Roedd yn Ddeon yr Ysgol Fusnes ym Mhrifysgol Sohar yn Oman yn 2013 ac yn Gyfarwyddwr Materion Academiaidd mewn prifysgol yn Abu Dhabi. Cyn ymuno ag Alacrity, roedd William yn Gyfarwyddwr yng Nghyngor Addysg Abu Dhabi lle bu'n arwain yr Adran Gwella Ansawdd Addysg Uwch.

AELODAU ETHOLEDIG Y STAFF

Etholir dau aelod o blith y Senedd a chan y Senedd i fod yn aelodau staff academaidd o'r Cyngor, a'r staff anacademaidd sy'n ethol yr aelod anacademaidd o'r cyngor.



Dr Louise Marshall – Aelod o Senedd y Brifysgol

Cyfnod penodiad: 01 Awst 2020 – 31 Gorffennaf 2024

Mae Louise Marshall yn Ddarllenyydd Llenyddiaeth yr Adferiad a'r Ddeunawfed Ganrif ac yn Bennaeth yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys y theatr, teuluoedd theatraidd, a'r ffordd y caiff hunaniaeth genedlaethol ei phortreadu.



Kath Williams – Aelod y Staff Anacademaidd

Cyfnod penodiad: 01 Awst 2020 – 31 Ionawr 2022

Wedi graddio o'r Brifysgol Agored, ymunodd Kath Williams â'r Brifysgol yn 1999 ar ôl bod yn Weinyddwr y Gwasanaethau Tiwtora yn y Brifysgol Agored yng Nghymru. Fe'i penodwyd yn Weinyddwr Adrannol yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu yn 1999, ac fe aeth hi ymlaen i fod yn Rheolwr Adrannol arni. Penodwyd Kath yn Rheolwr ar Gyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol yn 2018, ac wedi hynny daeth yn Ysgrifennydd Interim y Brifysgol ar 10 Ionawr 2022.



Kylie Evans – Aelod y Staff Anacademaidd

Mynychodd Kylie, a aned yn Aberystwyth, Ysgol Gyfun Penglais. Ymunodd â'r Brifysgol ym 1994 a gweithiodd ym maes derbyn, recriwtio a marchnata. Ei swydd ar hyn o bryd yw Rheolwr Ysgoloriaethau yn yr adran Marchnata a Denu Myfyrwyr. Mae hi wedi cofrestru'n ddiweddar ar Gwrs Tystysgrif Uwchraddedig mewn Gweinyddu, Rheoli ac Arwain Addysg Uwch, a redir gan y Gymdeithas Gweinyddwyr Prifysgolion a Phrifysgol Nottingham Trent, ac mae'n aelod o bwyllgor Fforwm Gweinyddol Prifysgol Aberystwyth.



Yr Athro Reyer Zwiggelaar – Aelod o Senedd y Brifysgol

Cyfnod penodiad: 01 Awst 2020 – 31 Gorffennaf 2024

Ganed Reyer Zwiggelaar yn yr Iseldiroedd a symudodd i Brydain i astudio ar gyfer Doethuriaeth yn UCL yn 1993. Ers hynny, mae'n canolbwyntio ar ymchwil ac ar ddarparu addysg uwchraddedig. Mae ei ymchwil yn canolbwyntio ar fiometrïgau a dadansoddi canser mewn delweddau meddygol, yn enwedig canser y fron a'r brostad. Ar y cychwyn roedd yn canolbwyntio ar uwchraddedigion ymchwil, ond yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth Ysgol y Graddedigion mae hefyd yn gyfrifol am yr uwchraddedigion a ddysgir drwy gyrsiau.

AELODAU'R MYFYRWYR

Penodir dau aelod gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn aelodau'r myfyrwyr o'r Cyngor.



Dafydd Jones – Llywydd UMCA

Cyfnod penodiad: 01 Gorffennaf 2022 – 30 Mehefin 2023

Yn wreiddiol o Bontsiân yng Ngheredigion, magwyd Dafydd ar fferm y teulu mewn cymuned wledig. Enillodd radd mewn Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid o Brifysgol Aberystwyth, a ddisgrifir ganddo fel allwedd i ddatblygu sgiliau am weddill ei oes. Mae Dafydd yn dweud ei fod yn awyddus ac yn barod i wneud pob ymdrech fel Llywydd UMCA i sicrhau bod pob myfyriwr Cymraeg yn cael y profiad gorau posib ym Mhrifysgol Aberystwyth.



Mared Edwards – Llywydd UMCA

Cyfnod penodiad: 01 Gorffennaf 2021 – 30 Mehefin 2022

Yn wreiddiol o Borth Swtan, Ynys Môn, astudiodd Mared y Gymraeg, Drama a Theatr yn y Brifysgol. Fe wasanaethodd fel Llywydd yr Urdd yn ogystal â Llywydd UMCA a Swyddog Diwylliant Cymraeg yma yn Aberystwyth.



Aisleen (Ash) Sturrock Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

Cyfnod penodiad: 01 Gorffennaf 2022 – 30 Mehefin 2023

Aisleen yw Llywydd Undeb y Myfyrwyr, yn llais i fyfyrwyr ac yn gweithio ar bolisiau sydd o bwys i'r myfyrwyr a'u cymuned. Cyn hynny, astudiodd am radd israddedig mewn Llenyddiaeth ac Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Aberystwyth, cyn mynd ymlaen i astudio am radd Meistr mewn Ysgrifennu Creadigol. Mae Mared yn dweud ei bod yn awyddus i bob myfyriwr gael yr un profiad a chyfleoedd ym mhrifysgol Aberystwyth a gafodd hi.



Sabina O'Donoghue Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

Cyfnod penodiad: 01 Gorffennaf 2021 – 30 Mehefin 2022

Mae Sabina yn dod o arfordir de-orllewin Iwerddon a mynychodd ysgol breswyl Cyfrwng Gwyddeleg cyn dod i Brifysgol Aberystwyth i astudio am radd Gydanrhydedd mewn Ysgrifennu Creadigol a Drama a Theatr. Bu'n gwasanaethu ar bwyllgor cadwraeth gwenyn am ddwy flynedd fel Ysgrifennydd Cymdeithasol, yn ogystal â bod yn gynrychiolydd y gymdeithas ar y Senedd yn ystod y cyfnod hwnnw.

AELODAU O WEITHREDIAETH Y BRIFYSGOL

Mae'r Is-Ganghellor, yr Athro Elizabeth Treasure, yn gwasanaethu ar y Cyngor yn rhinwedd ei swydd, ynghyd â Dirprwy Is-Ganghellor a enwebir gan yr Is-Ganghellor, sef yr Athro Tim Woods. Gweler Grŵp Gweithredol y Brifysgol ar dudalen 46.

PRESENOLDEB

Ar gyfer y cyfnod 01 Awst 2021 – 31 Gorffennaf 2022, cyfarfu'r Cyngor bum gwaith. Dyma ffigurau presenoldeb aelodau'r Cyngor yn ystod y cyfnod hwnnw:

Aelod	Presenoldeb
Dr Emyr Roberts - Cadeirydd	5/5
Meri Huws	5/5
Kate Eden	5/5
Owen Evans	1/2
Yr Athro Simon Green	4/5
Sharron Lusher	3/5
Rhuanedd Richards	5/5
Fiona Sharp	1/3
Mark Tweed	4/5
Yr Athro Sir Robin Williams	5/5
Dr William Williams	3/5
Yr Athro Elizabeth Treasure	5/5
Yr Athro Tim Woods	5/5
Dr Louise Marshall	4/5
Kath Williams	2/2
Yr Athro Reyer Zwiggelaar	5/5
Kylie Evans	3/3
Mared Edwards	3/5
Sabina O'Donoghue	3/5
Aisleen (Ash) Sturrock	0/1
Dafi Jones	1/1

ANNIBYNIAETH AELODAU'R CYNGOR

Disgwylir i bob aelod o'r Cyngor gynnig cyfraniad creadigol i'r corff llywodraethol trwy ddarparu goruchwyliaeth annibynnol, arweiniad strategol ac adborth adeiladol i'r rheolwyr gweithredol.

Rhaid i aelodau'r Cyngor beidio â chaniatáu iddynt hwy eu hunain gael eu dal neu eu dylanwadu'n ormodol gan fuddiannau pobl eraill sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol megis staff, myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr nac undebau llafur. Mae angen i aelodau'r cyngor allu herio'n effeithiol ac yn adeiladol ac ni allant wneud hynny os oes ganddynt fuddiant mewn mater sy'n cael ei drafod.

Mae aelodau'r Cyngor yn cynnwys rhai sydd ar staff y Brifysgol neu'n gynrychiolwyr y myfyrwyr, ac mae'r egwyddorion uchod yr un mor berthnasol i'w cyfraniadau hwythau i'r corff llywodraethol. Serch hynny, mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor fod yn Aelodau Annibynnol. Mae'r rhain yn unigolion sydd wedi eu penodi i'r corff llywodraethu ond nad ydynt yn fyfyrwr cofrestredig, yn swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr, nac yn aelodau o staff y Brifysgol.

Wrth ystyried ceisiadau ac wrth gyfnewid â darpar Aelodau Annibynnol i'w penodi i'r Cyngor, mae'r Pwyllgor Penodiadau'n chwilio am dystiolaeth bod yr unigolion dan sylw:

- yn dangos anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.
- yn gallu herio'n effeithiol ac yn adeiladol;
- yn gallu osgoi dylanwad amhriodol ac aros yn rhydd rhag cael eu 'cipio' gan reolwyr;
- yn rhydd rhag unrhyw fandadau ac unrhyw gyfyngiadau a fyddai'n atal y camau cywir rhag cael eu cymryd; a
- heb fod yn perthyn i unrhyw un o weithwyr cyflogedig y Brifysgol, nac unrhyw gorff sy'n cael budd ariannol gan y Brifysgol.

GWRTHDARO BUDDIANNAU

Gofynnir i holl aelodau'r Cyngor ddatgan unrhyw fuddiannau a fo ganddynt pan fyddant yn derbyn eu penodiad. Gofynnir hefyd i'r holl aelodau adolygu eu datganiadau bob blwyddyn.

Mae pob datganiad o fuddiant a wneir gan aelodau'r Cyngor ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Cyhoeddir fersiwn gryno o'r Gofrestr Buddiannau ar gyfer unigolion o'r fath ar wefan Llywodraethu'r Brifysgol.

Rhaid i'r Aelodau Annibynnol sy'n gwasanaethu ar y Cyngor ofyn am gymeradwyaeth ysgrifenedig gan Gadeirydd y Cyngor cyn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch neu waith datblygu busnes allanol a allai fod yn gysylltiedig, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, â gwaith y Brifysgol.

Cynllun Strategol ac Amcanion Prifysgol Aberystwyth

Cenhadaeth Prifysgol Aberystwyth yw darparu addysg ac ymchwil sy'n ysbrydoli mewn amgylchedd cefnogol, creadigol, dwyieithog ac eithriadol yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw y byddwn ni, drwy adeiladu ar ein cryfderau hanesyddol a'n harbenigedd, yn cyfrannu at y gymdeithas yng Nghymru a'r byd ehangach trwy gymhwyso ein gwybodaeth i heriau lleol a byd-eang. Gan weithio mewn cymuned groesawgar, byddwn yn defnyddio ein harbenigedd i feithrin meddwl beirniadol, cwestiynu annibynnol a sgiliau sy'n rhoi modd i'n dysgwyr fyw bywydau llwyddiannus.



EIN GWERTHOEDD

- **Trawsnewidiol:** Rydym yn ymdrechu i ddatgloi potensial unigol drwy ddatblygu cryfderau personol parhaol fydd yn galluogi pobl i lwyddo yn y dyfodol. Mae ein staff a'n myfyrwyr yn ysgogi newid cadarnhaol drwy fynd i'r afael â heriau lleol a byd-eang. Rydym yn annog dyfeisgarwch trwy syniadau a gweithredoedd newydd o fewn cyd-destun mentergar.
- **Creadigol ac Arloesol:** Rydym yn annog meddwl rhydd, beirniadol a llawn dychymyg drwy elwa ar ein diwylliant Cymreig penodol, a'n hanes, ein hamgylchedd a'n hadnoddau eithriadol. Rydym yn meithrin dyfeisgarwch y staff a'r myfyrwyr yn eu sgiliau datrys problemau, addasu a hyblygrwydd.
- **Cynhwysol:** Rydym yn hyrwyddo natur agored ac ysbryd hael a'r ymdeimlad cryf o gymuned sydd i'w deimlo ledled y Brifysgol, tref Aberystwyth, a'r byd ehangach. Gwrandawn ar safbwyntiau gonest pobl eraill ac ymateb iddynt gyda pharch. Ymfalchiwn yng nghyfoeth yr amrywiaeth o ddiwylliannau, safbwyntiau a chefnidiroedd sydd i'w cael ymhlith ein staff a'n myfyrwyr.
- **Uchelgeisiol:** Ymdrechwn i ddatblygu ymhellach yr enw da sydd gennym ar draws y byd am ddarganfyddiadau, ansawdd yr addysg, ac arloesi. Rydym wedi ymrwymo i ragoriaeth mewn ymchwil, dysgu, a meithrin cysylltiadau. Dathlwn lwyddiannau a chyfraniadau ein staff, ein myfyrwyr, a'n cyn-fyfyrwyr.
- **Cydweithredol:** Rydym yn meithrin a chynnal cysylltiadau allanol, gan gyfrannu at y ddadl gyhoeddus, at hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru, ac at yr economi'n lleol ac yn ehangach. Rydym yn gweithio gyda'n myfyrwyr i sicrhau bod profiad y myfyrwyr a'r amgylchedd dysgu yn cael eu gwella drwy'r amser. Rydym yn cyfleu gwaith a gwerth y Brifysgol i'r byd ehangach.

EIN HAMCANION CRAIDD

- **Addysg a phrofiad y myfyrwyr:** Byddwn yn rhoi'r hyder i'n myfyrwyr wireddu eu potensial eu hunain fel dysgwyr annibynnol mewn cymuned ddwyieithog gefnogol, gynhwysol a chreadigol. Bydd ein myfyrwyr yn graddio yn feddylwyr beirniadol annibynnol gyda'r sgiliau sy'n benodol i'w pynciau yn ogystal â sgiliau trosglwyddadwy.
- **Ymchwil ac arloesi sy'n creu effaith:** Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ymchwilwyr er mwyn gwneud gwaith ymchwil sy'n creu effaith ac sydd o ansawdd sy'n arwain y byd. Gwneir hyn drwy adeiladu ar sylfaen ein cryfderau hanesyddol er mwyn mynd i'r afael â heriau cyfoes sy'n wynebu Cymru a'r byd yn yr 21ain Ganrif.
- **Cyfraniad i'r gymdeithas:** Rydym wedi gwneud cyfraniad pwysig i Gymru a'r tu hwnt erioed, gan ddod â manteision i'n cymunedau a'n gymdeithas trwy effaith ein hymchwil, ein haddysg, a chyflawniadau ein staff, ein myfyrwyr, a'n cyn-fyfyrwyr.
- **Meithrin cysylltiadau rhyngwladol:** Mae Aberystwyth yn brifysgol flaenllaw yng Nghymru ac mae ganddi enw rhagorol ledled y byd. Byddwn yn gyrchfan boblogaidd yn rhyngwladol i'r rhai sydd yn awyddus i astudio yma a rhoddir anogaeth i'n myfyrwyr dreulio amser yn astudio dramor.
- **Iaith a diwylliant Cymru:** Mae gennym hanes cryf a balch o ddarparu addysg ac ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn ymroi i hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru, yn ogystal â hwyluso gwell dealltwriaeth am ei hanghenion economaidd-gymdeithasol.

Mae'r fersiwn lawn o'r Cynllun Strategol a Chenhadaeth Prifysgol Aberystwyth ar gael ar-lein yma.

Adolygiad gan yr Is-Ganghellor



Pleser a balchder o'r mwyaf yw adrodd ar y flwyddyn academiaidd 2021/22 fel y cyfnod yn ein hanes pan lwyddasom i ymryddhau o effeithiau gwaethaf pandemig COVID-19. Daethom drwy'r heriau a wynebwyd diolch i ymdrechion amrywiaeth eang o bobl – ein rhanddeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ein staff a'n myfyrwyr ein hunain, a chyd-aelodau o'n cymuned yma yn Aberystwyth. Yn brawf o'r ymdrechion hyn, fe barhaodd yr addysgu a'r ymchwil rhagorol rydym yn adnbyddus am eu darparu, ac fe lwyddodd y Brifysgol i wneud hyn oll tra'n cynnal y cynaliadwyedd ariannol rydym wedi gweithio mor galed amdano.

Roedd ein seremonïau Graddio ym mis Gorffennaf 2022 yn gyfnod o lawenydd mawr i mi yn bersonol, i'm cydweithwyr a'u myfyrwyr, ac i'r gymuned ehangach. Roedd yn ysbrydoliaeth wirioneddol gweld tair carfan o fyfyrwyr a'u teuluoedd yn dod ynghyd i ddathlu eu llwyddiannau gyda ni ar ôl llywio drwy heriau COVID-19 mor llwyddiannus. Roedd y tywydd yn ogoneddus ar gyfer y seremoni, gan roi pelydryn llythrennol o heulwen i ni ar ôl cyfnod o frwydro a newidiodd ein bywydau.

Wrth inni gychwyn ar y flwyddyn academiaidd 2021/22 roedd gennym ymdeimlad mwy optimistaidd ac roeddem yn falch o gynnig ein cyfleusterau i fod yn ganolfan frechu ar gyfer ein cymuned.

Fel sefydliad, roeddem yn teimlo ei bod yn hanfodol i ni gyflwyno lefelau o addysg wyneb yn wyneb oedd ymysg yr uchaf ym mhrifysgolion y Deyrnas Unedig pan oedd rheoliadau'r Llywodraeth yn caniatáu hynny, a blaenoriaethu diogelwch y myfyrwyr, y staff a'r gymuned ehangach ar yr un pryd. Rwy'n falch o ddweud ein bod wedi gwneud hynny, diolch i ymdrech enfawr gan ein staff a ymatebodd yn rhagorol i amgylchiadau ansicr ac i'n myfyrwyr a ymaddasodd mor dda i ddysgu mewn gwahanol ffyrdd. Rydym ni eisoes wedi cymryd camau i ymgorffori'r arfer da a ddatblygwyd yn ystod y pandemig yn ein gweithrediadau rheolaidd.

Hefyd, mae'r cyfan o'r hyn a ddysgwyd o gyfnod anodd iawn, bellach yn cael ei ddefnyddio i lywio gwaith cynllunio ar gyfer heriau'r dyfodol – boed hynny'n COVID yn ailymddangos neu'n amgylchiadau cwbl wahanol.

Croesawyd y myfyrwyr meddygaeth filfeddygol cyntaf erioed ar radd sy'n cael ei chynnig ar y cyd â'r Coleg Milfeddygol Brenhinol. Mae ein cyfleusterau o'r radd flaenaf sy'n werth £2.4 miliwn – yr unig Ysgol Filfeddygaeth yng Nghymru – yn benllanw dros 100 mlynedd o addysgu ym maes iechyd anifeiliaid ac uchelgais genedlaethol hirsefydlog i ddod ag addysg filfeddygol i Gymru. Roedd yn anrhydedd cael croesawu Tywysog Cymru ar y pryd, cyn-fyfyriwr Prifysgol Aberystwyth, i agor y cyfleuster yn swyddogol ym mis Rhagfyr a threuliodd amser yn sgwrsio gyda'r myfyrwyr a'r staff.

Mewn manau eraill parhaodd y gwaith o fireinio ein portffolio er mwyn adlewyrchu anghenion myfyrwyr a'r gymdeithas ehangach. Rydym wedi paratoi ac yn barod am y garfan gyntaf o fyfyrwyr ar ein cwrs nyrsio, sy'n dechrau yn yr hydref 2022, a fydd yn paratoi staff gofal medrus i Gymru a thu hwnt. Dim ond un enghraifft yw hon o'r ffordd y mae gwaith Prifysgol yn ddiddiwedd. Mae'n hollbwysig ein bod yn gwithio ein hunain i roi'r profiad academiaidd gorau posib i'n myfyrwyr – gan gynnig cyrsiau newydd a mireinio'r rhai presennol, a fydd yn rhoi'r sgiliau iddynt sy'n angenrheidiol yn y gweithle. Rwy'n falch o ddweud ein bod yn gwneud hynny ac y byddwn yn parhau i wneud hynny.

Cynhaliwyd pedwar asesiad allanol pwysig o'n gwaith yn y Brifysgol. Canfu canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr mai Aberystwyth yw'r brifysgol orau ar draws Cymru a Lloegr. Dyma'r seithfed flwyddyn yn olynol inni fod yn y 10 uchaf am foddhad myfyrwyr. Mae'r rhain yn ganlyniadau ardderchog ac yn adlewyrchu ymrwymiad diwro ein staff i roi'r profiad dysgu gorau posib.

Mae helpu ein myfyrwyr i oresgyn ystod eang o heriau cysylltiedig â'u lles hefyd yn allweddol. Rydym yn parhau i geisio gwella'r maes cryfder hwn – gan ymateb i anghenion ein myfyrwyr drwy ddatblygu a mabwysiadu'r arferion gorau.

Roedd asesiad yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn tanlinellu safon fyd-enwog ein darpariaeth academaidd ac yn adlewyrchu'r ymdrech a roddwn i addysg ein myfyrwyr mewn partneriaeth ag Undeb Myfyrwyr Aberystwyth. Mewn maes arall, graddiodd Estyn ddarpariaeth Dysgu Cymraeg y Brifysgol yn ystod y flwyddyn academaidd yn "rhagorol". Rydym yn cynnal cyrsiau ar gyfer mwy na 1,500 o ddysgwyr ar draws Ceredigion, Powys a Sir Gaerfyrddin.

Yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, gwelwyd cynnydd yng nghyfran y Brifysgol o raddfeydd tair a phedair seren. Roedd pum adran - Daearyddiaeth a Gwyddorau Daearydd, Cyfrifiadureg, Gwleidyddiaeth Ryngwladol, IBERS a Mathemateg - yn cyrraedd neu'n well na chyfartaledd y Deyrnas Unedig ar gyfer ymchwil sy'n arwain y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol. Rydym yn ymfalchïo yn ein hymchwil trawsnewidiol mewn ystod eang o ddisgyblaethau - boed hwnnw'n ymchwil i'r newid yn yr hinsawdd, brwydro yn erbyn afiechyd, tyfu economi Cymru, neu Ddeallusrwydd Artiffisial. Rydym yn dal i dyfu ein cymuned ymchwil ac yn anelu at lwyddiant pellach yng ngwerthusiadau'r dyfodol.

Bydd y flwyddyn academaidd sydd ar ddod yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau i ddathlu 150 o flynyddoedd ers sefydlu'r brifysgol, ond dathlwyd cerrig milltir pwysig eraill yn ein hanes yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae 120 mlynedd ers sefydlu adran y gyfraith, y gyntaf mewn prifysgol yng Nghymru. Ers 1902, mae mwy na 9,000 o raddedigion o fwy na 100 o wledydd wedi cychwyn ar eu gyrfaoedd o Brifysgol Aberystwyth. Cynhaliwyd dathliadau yn yr Hen Feili yn Llundain ac yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd.

Ym mlwyddyn canmlwyddiant yr Urdd, dewiswyd Prifysgol Aberystwyth yn bartner i baratoi ei Neges Heddwch ac Ewyllys Da flynyddol. Argyfwng y newid yn yr hinsawdd oedd y thema a bu myfyrwyr Cymraeg y Brifysgol yn gweithio ar y cyd â Phrifysgol Gwyddorau Bywyd Norwy mewn gweithdy i baratoi'r neges yng Nghanolfan Heddwch Nobel Oslo. Dim ond un agwedd ar ein gwaith yw hon, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, sy'n adlewyrchu Cymru fel cenedl ddwyieithog. Parhaodd y gwaith hefyd ar strategaeth newydd ar gyfer darpariaeth academaidd Gymraeg gyda chyfraniad gan Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, a'n cangen ni o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae'n bwysig i unrhyw Brifysgol gynnig cyfle i'w myfyrwyr feithrin cysylltiadau dramor ac roedd yn anrhydedd cael lansio Cronfa Cyfleoedd Ewropeaidd

newydd, diolch i haelioni'r cyn-fyfyriwr, William Parker. Caiff myfyrwyr grantiau o hyd at £3,000 i astudio, gweithio neu fynychu cynadleddau ar draws yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Cymerwyd camau sylweddol ymlaen yn ein cyfraniad at y frwydr yn erbyn y newid yn yr hinsawdd, wrth i ni gyrraedd yn nes at ein targed o gampws carbon niwtral erbyn 2030/31. Dechreuodd y gwaith ar baneli solar newydd gwerth £2.9 miliwn a fydd yn darparu hyd at chwarter y trydan blyneddol sydd ei angen ar Gampws Penglais ac yn lleihau allyriadau carbon o fwy na 500 tunnell bob blwyddyn. Mae ein gweithgareddau cynhyrchu ein hunain a'n gwaith ar y cyd â phartneriaid eraill yn crynhoi rhai o'r camau rydym yn eu cymryd i leihau, ar fyrder, ein heffaith ar yr amgylchedd.

Yn arwyddocaol iawn, mae gwaith adeiladu wedi dechrau ar adnewyddu'r Hen Goleg, adeilad sy'n dirnod eiconig, sy'n ysbrydoliaeth ac sy'n nodwedd annatod o'r dref ei hun. Ym mis Ionawr, cyhoeddwyd y prif gontractwr adeiladu ar gyfer y prosiect hynod uchelgeisiol hwn a fydd yn cynrychioli buddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd yn Aberystwyth ac yn sefydlu canolfan greadigol ddiwylliannol fawr i Gymru.

Bum mlynedd i mewn i'm cyfnod ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae'n hynod foddhaus gweld y cynnydd mawr sydd wedi'i wneud i sicrhau bod y Brifysgol yn gynaliadwy yn ariannol ac rwy'n falch ein bod wedi cyflawni'r gwarged gweithredu cyntaf, ac eithrio symud y cynlluniau pensiwn, ers 2013/14. Er bod y Deyrnas Unedig yn wynebu rhai o'r cyfnodau economaidd anoddaf ers y 1970au, mae'r cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn dangos sefyllfa sy'n gwella, a gwelir twf yn nifer y myfyrwyr ar draws ein portffolio cyfan.

Yn sicr bydd dylanwadau ehangach ar y rhagolygon economaidd yn creu heriau newydd dros y blynyddoedd i ddod, ond mae iechyd ariannol y brifysgol yn rhoi gobaith i ni wrth symud ymlaen i flwyddyn sy'n garreg filltir i'r Brifysgol. Bydd dathliadau ein 150 yn thema gyffredin drwy'r flwyddyn – gan ddechrau ym mis Awst pan fydd Ceredigion yn cynnal ei heisteddfod genedlaethol gyntaf ers 1992. Byddwn yn dathlu cyfraniad a threftadaeth gyfoethog ein Prifysgol dros y degawdau lawer ers ei sefydlu gan ein sylfaenywyr gweledigaethol; byddwn yn falch o gyhoeddi llywyddiannau myfyrwyr brwdfrydig heddiw a'n staff hynod fedrus ac ymroddedig; a gwnawn hyn oll gydag uchelgais a'r sicrwydd y caiff Prifysgol Aberystwyth adeiladu 150 mlynedd nesaf ein hanes ar seiliau ariannol cadarn.

**Yr Athro Elizabeth Treasure
Is-Ganghellor**

1 | Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymfalchïo yng nghryfder ei haddysg, sydd o'r radd flaenaf, ei harloesedd, a boddhad ei myfyrwyr ac roedd yn galonogol gweld y rhinweddau hyn yn parhau i gael eu cydnabod.

Ni yw'r brifysgol orau yng Nghymru o hyd am foddhad myfyrwyr yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfrwyr ar gyfer 2021 a'r ail ar draws y Deyrnas Unedig. Fe'n gosodwyd yn safle 38 o blith 135 o brifysgolion ledled y Deyrnas Unedig, yn seiliedig ar fodlonrwydd ag ansawdd ein haddysgu, profiad myfyrwyr, a chyfraddau cwblhau gradd.

Mae pob un o'n hacademyddion yn cymryd y gwaith o gynllunio cyrsiau, rhyngweithio a chydweithio, asesu a chynorthwyo dysgwyr o ddifrif. Mae ehangder yr adrannau y cafodd eu hacademyddion ganmoliaeth yng Ngwobrau Cwrs Nodedig y Brifysgol am arloesi ym myd addysg - Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, Seicoleg, Ffiseg a'r Ysgol i Raddedigion, Dysgu Gydol Oes, yr Ysgol Addysg, Ysgol Fusnes Aberystwyth, yr Uned Dysgu ac Addysgu, ac Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd - yn adlewyrchiad clir o'n cryfder.

Mae Ysgol Gwyddor Filfeddygol newydd y Brifysgol yn ddatblygiad arwyddocaol yn ein darpariaeth israddedig ac yn rhywbeth fydd

o fudd i orllewin Cymru a thu hwnt. Mae ein cyfleusterau newydd gwerth £2.4 miliwn, ynghyd â'n buddsoddiad i gefnogi ein cyrsiau nyrsio, yn dangos ein parodrwydd i addasu i ofynion myfyrwyr a'r economi ehangach. Lansiodd y Brifysgol gyrsiau Meistr newydd hefyd, gan gynnwys MBA Byd-eang Gweithredol mewn Rheolaeth; Peirianeg Sbectrwm Radio, a Rhyfel, Strategaeth a Chudd-wybodaeth. Rydym hefyd wedi ehangu cylch derbyn ein cyrsiau DProf i gynnwys myfyrwyr o'r Deyrnas Unedig.

Enghraifft arall o awdurdod Prifysgol Aberystwyth yn y sector addysg uwch oedd estyn gwahoddiad i dri o'n huwch academyddion ymuno â grwpiau cynghori'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, y corff sy'n sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal. Ym mis Gorffennaf 2022, rhoddodd yr Asiantaeth ganmoliaeth i'r Brifysgol am ei chyflawniadau mewn meysydd megis addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg, ei hymateb i anghenion cyflogadwyedd cenedlaethol a rhanbarthol, a'i gwaith yn meithrin perthynas â phartneriaid lleol a rhanbarthol.

Mae sicrhau bod myfyrwyr a staff yn ddiogel ac yn hapus yn hanfodol er mwyn sicrhau addysg o safon. Parhawyd i gynnig cefnogaeth iddynt trwy Hwb Aber ar wefan y Brifysgol a sicrhau sgwrs ddwy ffordd trwy borth Dy Lais ar Waith. Trwy gynnig y cyfle i roi adborth yn ddienw, byddwn yn gwella ac yn parhau i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig.





“Mae’r canlyniadau hyn yn rhagorol ac yn adlewyrchu ymroddiad ein staff i ddarparu’r profiad dysgu gorau posib o dan amgylchiadau anodd a heriol sydd wedi ymestyn dros gyfran helaethaf y ddwy flynedd ddiwethaf.”

Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth

Cymerwyd cam sylweddol hefyd i sicrhau bod myfyrwyr yn teimlo’n ddiogel drwy ddatblygu gwasanaethau ac arbenigedd a gynlluniwyd i fynd i’r afael â thrais a chamymddwyn rhywiol. Mae tîm newydd wedi’i sefydlu yn ogystal â system adrodd newydd ac rydym hefyd wedi hyfforddi Ymatebwyr Cyntaf.

Un o swyddogaethau hanfodol prifysgol yw paratoi myfyrwyr ar gyfer eu dyfodol ac rydym wedi gweithio’n galed ym mhob un o’n cyfadranau i ymgorffori cymaint o addysg gyrfaoedd â phosib yn y cyrsiau. Bu 22% o gynnydd o’r naill flwyddyn i’r llall yn nifer y myfyrwyr a’r graddedigion a gymerodd ran mewn gweithgareddau unigol gyda Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol, y ddegfed flwyddyn o dwf yn olynol.

I gydnabod bod Prifysgol Aberystwyth yn meithrin ac yn cefnogi nifer cynyddol o fyfyrwyr o gefndiroedd amrywiol, yn ogystal

â’r rhai sy’n wynebu rhwystrau ychwanegol i lwyddiant wrth gychwyn yn y farchnad lafur i raddedigion, ein rhaglen GO Wales ni oedd y fwyaf llwyddiannus eto o blith yr holl dimau ar draws sefydliadau Addysg Uwch Cymru. Ni yw’r Brifysgol gyntaf, a’r unig un hyd yn hyn, i gyflawni’r holl dargedau a osodwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer y prosiect dros y chwe blynedd diwethaf.

Yn olaf, mae dod â’r dechnoleg ddiweddaraf i staff a myfyrwyr wedi bod yn allweddol yn y flwyddyn academiaidd hon a chafodd man astudio 24 awr newydd sbon o’r enw Y Weithfan ei hagar yng nghanol y dref. Mae yno gyfrifiaduron, peiriannau argraffu, Wi-Fi, ac ystafell astudio grŵp y gellir ei harchebu, ar gael i fyfyrwyr a staff y Brifysgol. Digwyddodd hyn ar ôl i waith adnewyddu helaeth gael ei wneud i fannau addysgu ar draws y Brifysgol, gan sicrhau bod yr offer diweddaraf ar gael i fyfyrwyr a staff ar y campws ac oddi arno.

2 | Ymchwil ac Arloesi sy'n Creu Effaith

Ers ei sefydlu 150 mlynedd yn ôl, mae ymchwil a wnaed gan Brifysgol Aberystwyth wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i gymdeithas, yng Nghymru a thu hwnt. Caiff ein staff academaidd eu hysgogi gan yr awydd i arloesi mewn ystod eang o feysydd ac fel Prifysgol rydym yn canolbwyntio ar greu'r amgylchedd sy'n gwneud hynny'n bosib. Yn dilyn yr amharu a achoswyd gan COVID-19 dros y blynyddoedd diwethaf, bu'r Brifysgol yn gweithio gyda'i chymuned ymchwil i greu momentwm ac ysgogiad ychwanegol yn y maes hwn.

Roedd canlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY) 2021 yn dangos effaith ac ansawdd ein hymchwil. Mae canran y gweithgaredd ymchwil o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol neu'n uwch wedi codi i 98%. Mae mwy na thri chwarter yr ymchwil wedi'i gategoreiddio fel ymchwil sy'n arwain y byd (4*) neu sy'n rhagorol yn rhyngwladol (3*), cynnydd o naw pwynt canran o'i gymharu â'r asesiad diwethaf.

Roedd gwaith yr adrannau Cyfrifiadureg, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, IBERS, Gwleidyddiaeth Ryngwladol, a Mathemateg yn cyfateb i neu'n uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig ar gyfer ymchwil sy'n arwain y byd neu sy'n rhyngwladol rhagorol. Canmolwyd Adran y Gyfraith a Throsedd a'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu am effaith eu hymchwil y tu hwnt i'r byd academaidd a'u hamgylchedd ymchwil yn y drefn honno.

Cynyddodd llwyddiant grantiau ymchwil 23% (o ran gwerth) o'u proffilio yn erbyn cyfartaledd

tair blynedd. Ymysg uchafbwyntiau eraill y flwyddyn roedd llwyddiant IBERS yn derbyn Dyfarniad Cyflymu Effaith gan y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol. Bydd y dyfarniad yn ymgorffori cyfnewid gwybodaeth a masnacheiddio ym meysydd y newid yn yr hinsawdd, diet ac iechyd dynol, iechyd anifeiliaid, a bioeconomi. Lansiodd yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol y rhwydwaith Creu Mannau Mwy Diogel, sy'n cefnogi ymchwil a chyfnewid gwybodaeth yn fyd-eang ac sy'n edrych ar ffyrdd diogel o atal trais.

Yn y cyfamser, dechreuodd yr Adran Ieithoedd Modern weithio ar y llythrennau olaf yn y Geiriadur Eingl-Normanidd diwygiedig, prosiect a fydd yn rhoi goleuni pellach ar iaith sy'n gyfrifol am fwy na hanner y geiriau a ddefnyddir mewn Saesneg modern. Yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau, noddwyd deg o fentrau cyfnewid gwybodaeth gan y Rhwydwaith Cyfnewid Creadigol, sydd wedi helpu i ddatblygu naw prosiect ymchwil. Mae'r gwaith yn cynnwys ymarferwyr creadigol a phartneriaid allanol eraill a chedwir llygad am gydweithredwyr ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Mae cyllid Ewropeaidd, maes o gryfder i Aberystwyth yn hanesyddol, wedi parhau'n heriol eleni oherwydd penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd. Un o nodweddion yr amgylchedd ymchwil newidiol yw'r pwyslais cynyddol ar gyfnewid gwybodaeth ac arloesi drwy weithio gyda phartneriaid lleol a chenedlaethol er budd cymdeithas, yr amgylchedd a'r economi. Cefnogodd Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru weithgareddau oedd yn amrywio o sbarduno 29 o brosiectau ymgysylltu â'r cyhoedd ac allgymorth, i hyfforddiant a gweithdai i wella sgiliau rhwydweithio a chydweithio.

Yng Nghymru, cynyddwyd ein cyfraniad at yr economi leol a'r economi ehangach drwy gynyddu a datblygu cysylltiadau â phartneriaid diwydiannol, masnachol a diwylliannol. Rydym wedi bod yn aelod gweithgar o Rwydwaith Arloesedd Cymru ac wedi lansio prosiectau Cymru gyfan gan gynnwys arsyllfa i gasglu



tystiolaeth a chefnogi cyfnewid gwybodaeth yng nghefn gwlad Cymru; arbenigedd ar arsylwi'r Ddaear o ran heriau newid hinsawdd, colledion bioamrywiaeth a chynaliadwyedd; cymhwysio Deallusrwydd Artiffisial i broblemau ym maes y gwyddorau biolegol, gwledig a bywyd; ac atebion eco-beirianyddol i heriau addasiadau arfordirol yn sgîl y newid yn yr hinsawdd.

Trwy Rwydwaith Arloesi Cymru, mae'r Brifysgol hefyd yn gweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru ar ymchwil fydd yn effeithio ar bolisi plismona ac mae'n gweithio gyda phartneriaid eraill i ddatblygu cyfleoedd ymchwil ac arloesi yn y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd.

Cwblhawyd y gwaith o adnewyddu adeilad yr Arglwydd Milford ar Gampws Gogerddan, a fydd yn dod yn gartref i'r Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol. Bydd yn darparu hyfforddiant ac ymchwil gyda phartneriaid diwydiannol mewn technolegau sbectrwm radio.

Ym mis Hydref 2021, roedd yn bleser cael croesawu'r Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru (yn y llun), a agorodd gyfleusterau ArloesiAber yn swyddogol. Mae tri deg o brosiectau ymchwil a datblygu wedi eu dechrau yn y Canolfannau Bioburo, Bwyd



y Dyfodol a Dadansoddi Uwch ers lansio ei weithgareddau. Mae prosiectau sy'n dal i fynd rhagddynt gyda phartneriaid diwydiannol yn cynnwys archwilio gwelliannau o'r fferm i'r fforc o ran oes silff a maeth bwyd, cynhwysion a fformwleiddiadau arloesol mewn bwyd a diod, ac adennill mân gemegau a chemegau arbenigol gwerthfawr o sgil-gynhyrchion. Mae Deorfa Fusnes ArloesiAber yn llwyddiant mawr. Mae'r rhaglen, sy'n llawn, yn darparu ar gyfer 14 o fusnesau technoleg yn eu cyfnodau cynnar, ac yn cynnig amrywiaeth o raglenni cymorth busnes.

3 | Cyfraniad at Gymdeithas a Chynaliadwyedd

Gan adeiladu ar gryfderau hanesyddol Prifysgol Aberystwyth a'i henw da am ragoriaeth, un o'n prif gyfraniadau i gymdeithas yng Nghymru a'r byd ehangach yw defnyddio ein gwybodaeth i fynd i'r afael â heriau lleol a heriau byd-eang. Fodd bynnag, yn ystod gaeaf o gyfyngiadau COVID-19, gweithiodd y Brifysgol yn agosach at adref, gan ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau i gymuned gefnogol, groesawgar, ddwyieithog.

Roedd chwaraeon a'r celfyddydau yn amlwg iawn oherwydd ymgysylltiad parhaus y Brifysgol â'r gymuned leol a rhanbarthol trwy bartneriaethau â chlybiau a gwyliau. Yn sgil y bartneriaeth sydd wedi'i hen sefydlu gyda Chlwb Pêl-droed Tref Aberystwyth, gyda'r Brifysgol yn brif noddwr y clwb ac yn darparu tocynnau tymor am ddim i'w myfyrwyr, mae'r Brifysgol hefyd wedi ffurfioli partneriaeth gyda Chlwb Rygbi'r dref.

Parhaodd y Brifysgol hefyd â'i chysylltiadau hirsefydlog eraill fel noddwr cymunedol Clwb Rygbi'r Scarlets a chefnogwr Gŵyl Gomedî Aberystwyth.

Wrth edrych yn ôl ar ddigwyddiadau cymunedol, gyda chyfyngiadau COVID-19 yn dal mewn grym, parhaodd y rhaglen o weithgareddau ymgysylltu gyda chyn-fyfyrwyr ar-lein eleni ond cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau wyneb yn wyneb pan oedd modd. Denodd y cyfarfodydd rhithwir a'r gweminarau i gyn-fyfyrwyr ymhell dros 1,000 o gyfranogwyr. Roedd y gweminarau'n cynnwys straeon am wreiddiau'r Brifysgol, symud i Gampws Penglais, prosiect Cronfa

Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol Lleisiau'r Bobl 'Rhyfel y Bobl: Aberystwyth 1929-45'. a sgwrs ar hanes 120 mlynedd Adran y Gyfraith. Dathlwyd Diwrnod y Sylfaenwyr hefyd gyda thaith gerdded ar y promenâd i gicio'r bar ac yna brecwast gyda'r cyn-fyfyrwr gwadd arbennig, y Gwir Anrhydeddus Liz Saville-Roberts AS.

Cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig arall eleni hefyd gyda gwaith aildatblygu'r Hen Goleg. Yn gynnar yn 2022, cyhoeddodd y Brifysgol benodiad Andrew Scott Cyf fel prif gontractwyr y prosiect. Ym mis Mehefin, dyfarnwyd Cydsyniad Adeilad Rhestredig i'r prosiect, cam rhagflaenol angenrheidiol i unrhyw waith sy'n dechrau ar y safle a sicrhau bod rhestr fanwl o ofynion yn eu lle er mwyn diogelu a gwella amryfal nodweddion treftadaeth yr adeiladau rhestredig Gradd I a Gradd II.

Dechreuodd y gwaith cychwynnol ar y safle ddiwedd mis Gorffennaf drwy glirio hen adeiladau'r Adran Ystadau ar Stryd y Brenin, er mwyn paratoi ar gyfer yr atriwm newydd a fydd yn fynedfa newydd drawiadol ac yn sicrhau mynediad ehangach o lawer i bob lefel o'r Hen Goleg.

Pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau, disgwylir i'r Hen Goleg ddenu 200,000 o ymwelwyr a chyfrannu hyd at £14.5 miliwn y flwyddyn i'r economi leol, gan ei roi ar yr un lefel ag atyniadau pwysig megis cestyll Caernarfon a Chonwy. Caiff hyd at 130 o swyddi eu creu yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol a bydd dros 400 o gyfleoedd gwirfoddoli hefyd. Bydd gwesty 4* a lle i gynnal gweithgareddau a digwyddiadau ar draws saith llawr a 143 o ystafelloedd, gan gynnwys 10 ystafell sydd â lle i rhwng 60 a 200 o bobl.

Mae'r cynlluniau ar gyfer yr Hen Goleg wedi'u datblygu mewn partneriaeth a chydweithrediad ac yn hyn o beth mae'r Brifysgol yn parhau i ymwneud â mentrau lleol a rhanbarthol. Cyfrannodd y Brifysgol at y gwaith o greu Arolwg Cynllun Lle (2040) dan arweiniad Cyngor Tref Aberystwyth.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion yn parhau i ddarparu llwyfan gwerthfawr i waith partneriaeth a chefnogi'r Cynllun Llesiant ar gyfer trigolion y sir. Mae'r Brifysgol hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o arwain datblygiad un o brosiectau peilot y BGC, Strategaeth Carbon Niwtral a Datgarboneiddio Aberystwyth.

O ran datblygiad economaidd a sgiliau rhanbarthol mae'r Brifysgol yn dal i chwarae rhan sylweddol drwy gefnogi partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru, a Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru.

Mae'r Brifysgol yn anelu at gyflawni targed Sero Net erbyn 2030 ac yng ngwanwyn 2023, byddwn yn cyhoeddi ein strategaeth ar gyfer cyflawni hynny. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Brifysgol wedi buddsoddi £2.9m mewn gosod bron i 4,500 o baneli solar i gyflenwi trydan adnewyddadwy i gampws Penglais. Pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau, rhagwelir y bydd y prosiect yn darparu 25% o'r trydan blyneddol sydd ei angen ar y campws a lleihau allyriadau CO2 blyneddol o fwy na 500 tonnell bob blwyddyn.



4 | Meithrin Cysylltiadau Rhyngwladol

Mae symudedd dysgu yn gyfle i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau gwerthfawr ac ehangu eu gorwelion trwy fynd dramor i astudio neu i ddilyn hyfforddiant. Ni ellir gwadu bod manteision difesur i fyfyrwyr o ran profiad bywyd yn ogystal â'u cyflogadwyedd yn y dyfodol.

Diolch i rodd hael gan gyn-fyfyriwr, sefydlwyd cronfa newydd bwysig i gefnogi cyfleoedd i fyfyrwyr astudio yn Ewrop. Cyflwynodd William Parker, a raddiodd gyda gradd mewn Hanes o Aberystwyth yn 1981, rodd o dros hanner miliwn o bunnau i sefydlu Cronfa Cyfleoedd Ewropeaidd newydd y Brifysgol. Darperir grantiau o rhwng £500 a £3,000 i roi modd i fyfyrwyr israddedig ac uwchraddedig astudio, gweithio neu fynychu cynadleddau yn yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Wrth i'r byd agor ar ôl dwy flynedd o gyfyngiadau teithio COVID-19, roedd modd i ni groesawu myfyrwyr o dramor eto, sy'n gwneud y Brifysgol yn lle mwy bywiog ac amrywiol ac yn helpu myfyrwyr o gefndiroedd gwahanol i feithrin cyfeillgarwch a dysgu gan ei gilydd. Roeddem yn falch o weld nifer y ceisiadau rhyngwladol newydd yn cynyddu 60% o'r naill flwyddyn i'r llall.

Roedd cynnydd sylweddol, sef 250%, yn y ceisiadau a ddaeth drwy rwydweithiau asiant sy'n cysylltu addysgwyr, ymgynghorwyr a myfyrwyr. Dyblodd y ceisiadau o India, diolch i'r gwaith a wnaed i ehangu ein swyddfa yn y wlad. Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu partneriaethau cadarn mewn marchnadoedd recriwtio myfyrwyr rhyngwladol allweddol.

Rhoddyd cefnogaeth i fyfyrwyr dreulio semester neu flwyddyn dramor mewn prifysgolion ar draws Ewrop, Gogledd a De America, ac Affrica. Talwyd am hyn gyda chyfuniad o weddill cronfeydd Erasmus, Cymru Fyd-eang: Darganfod, Cronfa Prifysgolion Ewropeaidd y Brifysgol ei hun, neu arian o flwyddyn gyntaf Cynllun Turing Llywodraeth y Deyrnas Unedig, rhaglen fyd-eang ar gyfer astudio, gweithio a byw dramor sy'n cynnig cyfleoedd datblygu personol a phroffesiynol i fyfyrwyr.

Yn ystod y flwyddyn academiaidd, lansiwyd ein Hysgoloriaeth Noddfa, rhaglen a gynlluniwyd i helpu'r rhai o gefndiroedd ymfudo gorfodol sy'n wynebu rhwystrau i addysg mewn prifysgol. Bydd y myfyrwyr cyntaf a dderbynnir ar y rhaglen yn ymuno ar ddechrau blwyddyn academiaidd 22/23. Cyflwynwyd Ysgoloriaethau Cyn-sesiynol hefyd, sy'n rhoi modd i geiswyr lloches ddatblygu'r sgiliau iaith Saesneg ac astudio sydd eu hangen er mwyn dilyn cwrs gradd. Cofrestrodd y myfyriwr cyntaf ar y rhaglen ym mis Mehefin 2022.

Roedd niferoedd y myfyrwyr yn dod i'r wlad ar gyfer astudiaethau tymor byr hefyd yn iach, gyda nifer y myfyrwyr 'semester tramor' sy'n talu ffioedd a nifer y partneriaid sy'n anfon talwyr ffioedd yn cynyddu'n gyson. Byddwn yn gweld twf pellach yn y niferoedd symudedd yn y flwyddyn academiaidd nesaf 2022-23. Bydd cynllun symudedd newydd Llywodraeth Cymru, Taith, yn helpu i ariannu teithiau myfyrwyr unigol yn ogystal â rhaglenni a arweinir gan gyfadranau. Mae ail gais wedi'i gymeradwyo'n llwyddiannus gan Gynllun Turing Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gefnogi astudiaeth tymor a blwyddyn, gan gadarnhau ymhellach ein hymrwymiad i ehangu cyfleoedd.



5 | Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymfalchïo erioed yn ehangder a chryfder ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer myfyrwyr israddedig ac uwchraddedig.

Roedd yn anrhydedd i ni gael ein dewis ar gyfer cydweithrediad nodedig gydag Urdd Gobaith Cymru ym mlwyddyn canmlwyddiant y mudiad. Bob blwyddyn ers ei sefydlu yn 1922, mae'r Urdd wedi paratoi Neges Heddwch ac Ewyllys Da. Eleni cawsom ein dewis yn bartner i'r Urdd i baratoi ei 100fed Neges Heddwch. Gwirfoddolodd grŵp o fyfyrwyr Cymraeg i gymryd rhan mewn gweithdai i baratoi'r neges gan ganolbwyntio ar yr argyfwng hinsawdd.

Roedd y prosiect hwn yn dangos ein hymrwymiad i ehangu cyrhaeddiad diwylliant Cymreig yn rhyngwladol hefyd, a gadarnheir gan ein partneriaeth â myfyrwyr o Brifysgol Gwyddorau Bywyd Norwy (NMBU). Ffilmwyd fideo oedd yn cynnwys myfyrwyr a rhai o ffigurau cyhoeddus adnabyddus Cymru – dan arweiniad Gareth Bale – gyda'r testun wedi'i gyfieithu a'i rannu mewn 100 o ieithoedd. Lanswyd y Neges Heddwch a'r fideo yn swyddogol ym mis Mai yng Nghanolfan Heddwch Nobel, Oslo, yng nghwmni Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford AS, yr Is-Ganghellor a'r myfyrwyr a gymerodd ran.

Mewn enghraifft arall o'n hawdurdod diwylliannol, ffurfiodd y Brifysgol bartneriaeth â Llywodraeth Cymru i ddylunio a chyflwyno MA cenedlaethol newydd mewn Addysg sy'n cynnig cyfleoedd uwchsgilio i athrawon. Mae'n datblygu'n allweddol ar y ddarpariaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon (dwyieithog) a gynigir eisoes gan Ysgol Addysg y Brifysgol.

Mewn meysydd eraill, cynhaliwyd ymgynghoriad eang ar yr is-strategaeth ddrafft ar Ddarpariaeth Academaidd a gweithgaredd ysgolheigaidd Cymraeg yn y Brifysgol. Cyfrannwyd sylwadau gan randdeiliaid allweddol gan gynnwys Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth (UMCA) a changen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn Aberystwyth.


Mae'r strategaeth yn ymateb i gynlluniau'r Coleg ei hun a adnewyddwyd yn ddiweddar, yn ogystal

ag anghenion staff a myfyrwyr iaith Gymraeg a Chymru'r 21ain ganrif.

Am y chweched flwyddyn yn olynol, gwnaed cyfraniad allweddol i dwf economi Cymru a datblygiad sgiliau'r gweithlu trwy ein gradd Meistr mewn Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol, a gyflwynir ar y cyd â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Carreg filltir arwyddocaol arall oedd ateb anghenion addysg a hyfforddiant y Gymru gyfoes, gyda 16% o'n myfyrwyr israddedig yn astudio ein darpariaeth filfeddygol flaenllaw drwy gyfrwng y Gymraeg a nifer o staff dwyieithog yn barod i gyflwyno darpariaeth nyrso newydd yn Gymraeg.

Cynhaliwyd Gwobrau Hybu'r Gymraeg Prifysgol Aberystwyth 2021 yn rhithiol, gyda staff a myfyrwyr y Brifysgol yn enwebu dau weithiwr a dau fyfyrwr ar sail eu cyfraniadau i'r iaith.



Cynhaliodd y Brifysgol hefyd ei phedwerydd Arolwg o'r Defnydd Mewnol o'r Gymraeg. Bydd y canfyddiadau'n dylanwadu ar y cynlluniau i gefnogi ac annog dysgu'r iaith a'i defnyddio'n ehangach yn y gwaith.

Bu'n flwyddyn brysur arall i dîm Dysgu Cymraeg y Brifysgol, sy'n cyflwyno darpariaeth ar-lein. Treialwyd Cwrs Blasu newydd i fyfyrwyr mewn partneriaeth ag UMCA cyn cychwyn menter gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2022, a fydd yn cynnig cyfle i bob person ifanc 16-25 oed ddilyn cwrs Dysgu Cymraeg am ddim. Yn ogystal â darpariaeth gymunedol, roedd y tîm Dysgu Cymraeg yn cynnal dosbarthiadau Cymraeg Gwaith ar wahanol lefelau wedi eu hariannu gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Yn olaf, rydym yn falch iawn o weld Pantycelyn unwaith eto yn dod yn ganolfan fywiog i'r gymuned o fyfyrwyr Cymraeg, ar ôl ei hailagor ym mis Medi 2020. Am fod cyfyngiadau COVID-19 wedi eu llacio'n raddol, cafodd y myfyrwyr fanteisio i'r eithaf ar ardaloedd cymdeithasol ac astudio hael Pantycelyn. Daeth unwaith eto yn fan lle cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd myfyrwyr yn ymwneud ag UMCA, yn ogystal â chlybiau a chymdeithasau eraill. Cafodd Aelwyd Pantycelyn flwyddyn brysur yn defnyddio'r neuadd fel lle ymarfer ar gyfer cystadlaethau yr Eisteddfod Ryng-golegol a'r Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst, y bu cryn edrych ymlaen ati ers dechrau'r flwyddyn academaidd.



6 | Ein Pobl



Am flwyddyn arall, mae'r pandemig wedi profi gwytnwch y Brifysgol a'i staff. Mae'r ddwy garfan wedi dod drwyddi'n orchestol. Nid oes gwell prawf o Brifysgol na'r ffordd y mae'n cefnogi ei myfyrwyr. Mae canlyniadau diweddaraf yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfrwyr wedi profi eto bod ein staff wedi mynd gam ymhellach a thu hwnt.

Mae cyfathrebu rheolaidd ac aml gyda chydweithwyr wedi bod yn nodwedd bwysig o'r 12 mis diwethaf - ac mae'r adborth yn dangos bod hyn wedi ei werthfawrogi. Ond byddwn yn manteisio i'r eithaf ar yr hyn rydym ni wedi'i ddysgu yn ystod y pandemig. Er bod canlyniadau'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY) wedi bod yn gadarnhaol, mae cymaint o amser ein cydweithwyr academiaidd wedi mynd ar addysgu a chefnogi myfyrwyr nes bod amser ar gyfer ymchwil wedi bod yn brin. Rydym wedi ymrwmo i fynd i'r afael â'r cydbwysedd hwnnw ym mlwyddyn academiaidd 2022/23 drwy edrych ar sut y gallwn ddiogelu mwy o amser ar gyfer ymchwil a hybu gweithgarwch ymchwil.

O ran hyfforddiant, datblygiad a chyfleoedd dilyniant gyrfa yn ystod y 12 mis diwethaf, ailgyflwynwyd y cynllun dyrchafiadau academiaidd, rhywfaint o gyfleoedd secondiad mewnol newydd, a chynllun cydnabyddiaeth diwygiedig. Mae'r Brifysgol yn awyddus i sicrhau bod pob aelod o staff yn cymryd rhan yn y Cynllun Cyfraniad Effeithiol blynyddol ac yn cynorthwyo pob aelod o staff i ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau.

Rydym hefyd wedi cyflwyno cynnig sylweddol o hyfforddiant newydd, gan gynnwys arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r adborth wedi bod yn galonogol iawn ac mae'r galw am leoedd wedi bod mor uchel nes y cytunwyd i ddyblu'r ddarpariaeth hyfforddiant ym mlwyddyn academiaidd 2022/23. Rydym hefyd yn cefnogi gweithio hybrid lle mae natur y swyddi'n caniatáu hynny. Mae llawer o'n cydweithwyr wedi gwerthfawrogi'r hyblygrwydd hwn yn eu ffordd o weithio.

Er gwaethaf heriau'r llynedd, rydym yn parhau i ffynnu mewn ffyrdd eraill. Rydym yn recriwtio nifer sylweddol o staff newydd ac mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn lle poblogaidd i weithio ac astudio. Fodd bynnag, mae'r farchnad lafur yn wahanol eleni. Mae llawer mwy o gystadleuaeth am staff dawnus mewn swyddi ar bob lefel. Mae angen i ni addasu ein harferion gwaith i sicrhau bod y Brifysgol yn gyflogwr a ddewisir. Bydd hon yn flaenoriaeth bwysig ar gyfer y flwyddyn i ddod - yn enwedig y ffordd yr awn ati i ymgorffori egwyddorion gweithio hybrid.

Rhaid inni beidio â cholli golwg ar ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywioldeb yn y gweithle. Mae lleoliad gwledig y Brifysgol a data'r cyfrifiad yn dangos ein bod yn wahanol iawn i ardaloedd metropolitan - ond gallwn droi hyn yn fantais. Bydd mwy fyth o ymdrech yn cael ei rhoi i fentrau cydraddoldeb a chynhwysiant eleni er mwyn cyflawni ein dyhead i sicrhau bod ein staff a'n myfyrwyr yn fwy amrywiol.

7 | Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant



Mae datblygu a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywioldeb ar draws arferion a gweithgareddau prifysgol yn allweddol i'w llwyddiant. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn dangos ein hymrwymiad i feithrin cymuned ddysgu a gweithio gynhwysol, lle nad oes gwahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth, lle caiff staff a dysgwyr eu cefnogi, lle maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu parchu, ac yn gallu gwireddu eu potensial.

Cyflwynwyd ystod o fesurau ymarferol i ddangos ymrwymiad y Brifysgol i gydraddoldeb ac amrywioldeb yn llwyddiannus eleni ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wella cydraddoldeb rhywiol ein huwch academyddion ac amrywioldeb hiliol ein myfyrwyr a'n staff. Mae dau aelod o Weithrediaeth y Brifysgol yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros Ryw ac Ethnigrwydd a hwy fydd yn arwain ar y gwaith hwn.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i eglurder yn y meysydd hyn drwy barhau i gyhoeddi ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol a'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau. Er ein bod yn falch bod ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn is na chyfartaledd y Deyrnas Unedig gyfan, rydym yn cydnabod bod gwaith i'w wneud o hyd. Bydd cyflawni hyn yn ymwneud llai â bylchau cyflog o fewn lefelau a mwy â'r gyfran o fenywod mewn swyddi uwch. Bydd yn cymryd amser i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar lefelau uwch, ond dyna'r nod rydym ni'n gweithio tuag ato.

Mae'r mentrau diweddar o gynllun gweithredu'r Brifysgol i fynd i'r afael â chynrychiolaeth gyfartal a'r bwlch cyflog yn cynnwys: ailgynllunio methodoleg a phroses y Brifysgol ar gyfer dyrchafiadau academaidd; sefydlu Tîm Hunan-asesu Athena Swan i edrych ar gydraddoldeb rhywiol; ceisiadau

dienw wrth recriwtio yn fewnol ac allanol; a chynnal cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer Rhwydwaith Menywod mewn Ymchwil.

Datblygwyd Cynllun Gweithredu Hiliol fel rhan o Brosiect Cydweithredol *Race Access and Success AdvanceHE* a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a daeth y Brifysgol yn aelod o Siarter Cydraddoldeb Hiliol AdvanceHE. Mae'r ddau gam yn dangos ymrwymiad i gydraddoldeb hiliol drwy weithio gyda staff a myfyrwyr ar draws y Brifysgol a gwneud ein hunain yn destun hunanasesiad llym. Ein cynllun yn y pen draw yw gwneud cais am Wobr Efydd Siarter Cydraddoldeb Hiliol AdvanceHE.


Mae Stonewall wedi cydnabod ein hymrwymiad parhaus i ddarparu amgylchedd croesawgar a chynhwysol i staff a myfyrwyr LGBTQ+. Dyfarnwyd Gwobr Efydd i ni fel rhan o'u hymgyrch Dewch â'ch Hun i Weithio, a gwelwyd y Brifysgol yn dringo 25 o safleoedd ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle yr elusen.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd statws achrediad y Brifysgol fel Cyflogwr Hyderus ag Anabledd ei adnewyddu, a nodwyd digwyddiadau pwysig hefyd, megis Mis Hanes Pobl Ddu, Mis Hanes LGBTQ+, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ymysg eraill.



Graddio 2022

Ym mis Gorffennaf roedd yn bleser cael croesawu myfyrwyr graddedig yn ôl o 2020, 2021 yn ogystal â 2022 ar gyfer eu seremonïau graddio.





Datganiad Polisi Cyflog Blynyddol a Chydnabyddiaeth Ariannol Uwch Reolwyr

Mae pob aelod o staff y Brifysgol, waeth beth yw eu cyflog, bob blwyddyn yn mynd trwy'r Cynllun Cyfraniad Effeithiol, sef trefn adolygu perfformiad, ac mae hynny yn ei dro yn cael ei ddefnyddio i fwydo i gynlluniau datblygu gyrfa ac anghenion hyfforddi. Ar ben hyn, rydym yn cynnig amrywiaeth o rwydweithiau a chynlluniau datblygu arweinyddiaeth a mentora i gefnogi datblygiad a chynnydd gyrfaol.

Mae gan y Brifysgol gynllun cyflog cysylltiedig â pherfformiad, Gwobr Cyfraniad Unigol (ICA) ar gyfer Graddau 1-9 a Gwobr Cyfraniad Unigol (Cynyddran Symud Ymlaen) ar gyfer Gradd 10. Cyflwynwyd hyn ym mis Hydref 2021 ac mae'n disodli'r cynllun Cynyddrannau Cyflymedig a Phwyntiau Cyfrannu (AICP).

Y pwynt tâl uchaf yw Pwynt 9 ar Raddfa Gradd 10, sy'n cyfateb i £102,491 (ar 31 Gorffennaf 2022). Mae 10 swydd uwch sydd â phecon taliadau dros £100,000, yn seiliedig ar dâl sylfaenol ynghyd ag unrhyw lwfans am gyfrifoldeb ychwanegol ar 31 Gorffennaf 2022. Pennir y cyflogau hyn wedi ystyried data meincnodi perthnasol o'r tu mewn a'r tu allan i'r sector Addysg Uwch.

Y pwynt tâl isaf yw Pwynt 3 ar y Golofn Dâl Unigol, sy'n cyfateb i £17,338 (ar 31 Gorffennaf 2022). Ond, yn ymarferol, mae'r unigolion ar y pwynt hwn ar y golofn yn derbyn y Gwir Gyflog Byw cyfredol, sef £18,790 (dechreuodd y Brifysgol dalu'r Gwir Gyflog

Byw ym mis Ebrill 2018 a chafodd ei hachredu'n gyflogwr y Gwir Gyflog Byw ym mis Hydref 2018).

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod yn gweithredu mewn amgylchiadau cystadleuol ac mae'n awyddus i ddenu a chadw'r staff gorau posib. Serch hynny, wrth wneud unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â thâl y staff uwch, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Taliadau ystyried i ba raddau y gellir fforddio unrhyw benderfyniadau o'r fath, gan gyfeirio at y data meincnodi i brifysgolion tebyg.

Mae canlyniadau arfarniadau'r staff uwch o dan Gynllun Cyfraniad Effeithiol y sefydliad yn cael eu cyflwyno wedyn i'r Pwyllgor Taliadau ac maent yn darparu sylfaen i unrhyw argymhellion i'r Pwyllgor Taliadau o ran unrhyw newidiadau i gyflogau'r uwch staff dan sylw. Mae pob aelod o'r staff uwch yn y Brifysgol yn derbyn yn awtomatig unrhyw ddyfarniadau tâl 'costau byw' sy'n cael eu darparu gan y Brifysgol i'w staff ar y golofn dâl sengl y cytunwyd arni'n genedlaethol.

Mae'r Corff Llywodraethol wedi cymeradwyo Fframwaith Cydnabyddiaeth Uwch Staff i'r Brifysgol, sy'n pennu ymagwedd y sefydliad tuag at dâl ei staff uwch. Yn unol â'r hyn a bennwyd yn y Fframwaith Cydnabyddiaeth Uwch Staff, mae'r Cyngor wedi dirprwyo i'r Pwyllgor Taliadau yr awdurdod i gytuno ar faterion sy'n ymwneud â thalu'r Is-Ganghellor; y Dirprwy Is-Gangellorion; a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.

Cyd-adroddiad ar y flwyddyn ariannol gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid

Yn ystod 2021-22, mae'r Brifysgol wedi rheoli'n effeithiol y broses o ddychwelyd i weithredu yn y modd arferol yn sgil effaith COVID-19. Mae'r £0.2 o warged yn sefyllfa weithredu waelodol y grŵp yn cyd-fynd â'r disgwyliadau cyllidebol a'r monitro a wnaed trwy gydol y flwyddyn.

Y sefyllfa weithredol waelodol yw £0.2 miliwn o warged (heb gynnwys newidiadau yn y cynlluniau pensiwn) yn y grŵp pan hepgorir yr eitemau hyn ac mae'r rhain wedi'u gosod yn y tabl isod. Mae mwy o fyfyrwyr yn y Brifysgol ac mae'r incwm wedi cynyddu. Mae grantiau'r corff cyllido wedi gostwng yn ôl y disgwyl, o ystyried lefel y gefnogaeth uwch a gafwyd yn 2020-21 wrth i'r Brifysgol ymdrin ag effaith ariannol y pandemig. Mae gwariant wedi aros yn gyson i raddau helaeth â blynyddoedd blaenorol, gyda'r incwm uwch yn cyd-fynd â'r meysydd sydd â gwell perfformiad. O ganlyniad i fuddsoddiadau cysylltiedig â COVID-19 yn 2020-21 a 2021-22, mae'r Brifysgol wedi dychwelyd i gynnal dysgu wyneb-yn-wyneb ar y campws yn 2022-23.

Yn bennaf mae'r canlyniad yn adlewyrchu'r dychwelyd i'r sefyllfa arferol yn sgil cyfyngiadau COVID-19 yn y blynyddoedd ariannol blaenorol. Mae'r incwm wedi cynyddu, yn bennaf oherwydd bod yr incwm o ffioedd dysgu a llety myfyrwyr

wedi cynyddu, ond hefyd oherwydd y cynnydd mewn incwm o'r safleoedd masnachu gan gynnwys Arlwy, y Ganolfan Chwaraeon, Canolfan y Celfyddydau, a chynadleddau wrth i weithgareddau ddychwelyd yn nes at y lefelau a gafwyd cyn y pandemig. Mae manteision ariannol yr aildrefnu strategol a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf yn dal i helpu i sicrhau sefydlogrwydd, yn enwedig o ran cynnal sylfaen costau'r Brifysgol yng nghyd-destun cyfanswm yr incwm.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn dal ati i fuddsoddi er mwyn gwireddu ei hamcanion strategol, sef yn benodol darparu dysgu ac ymchwil ardderchog yn y tymor hir, gan gynnwys y buddsoddiadau cyfalaf cysylltiedig er mwyn darparu sylfaen i'r amcanion hynny. Parhawyd â'r buddsoddiadau cyfalaf parhaus ar ailddatblygu'r adeiladau, yn unol â'r Strategaeth Ystadau a ddatblygwyd yn ddiweddar, ac â'r buddsoddiad mewn systemau TG allweddol i gyflawni'r Strategaeth Ddigidol yn ystod y flwyddyn.

Gan edrych at y dyfodol, ac yn unol â'r sector ehangach, bydd y materion allweddol a fydd yn wynebu'r Brifysgol yn ymwneud â'r amgylchiadau cystadleuol o ran denu myfyrwyr, a'r sefyllfa facro-economiaidd. Mae'r Brifysgol wedi gweld twf yn nifer y myfyrwyr i'r flwyddyn academiaidd 2022/23. serch hynny, roedd y niferoedd hyn yn llai na'r targedau a bydd angen gwneud arbedion pellach er mwyn sicrhau gwarged gweithredol. Bydd y Brifysgol yn dal i ddyrannu adnoddau yn ofalus er mwyn cefnogi ei hamcanion twf strategol a sicrhau bod ei gweithrediadau parhaol yn cael eu cynnal yn effeithlon.

Cwmpas y datganiadau ariannol

Mae'r datganiadau ariannol i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022 yn ymgorffori canlyniadau'r Brifysgol, Campws Arloesi a Menter Aberystwyth Cyf (CAMA), Aber Trading Cyf ac Aber - Consultancy Cyf, sydd i gyd yn is-gwmnïau.

Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o ganlyniadau'r Grŵp. Mae cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn yn cynnwys nifer o gofnodion cyfrifon nad ydynt yn arian parod. Roedd y Brifysgol yn cofnodi £27.8 miliwn o golled drwy gynnwys yn narpariaeth Cynllun Pensiwn y Brifysgol (USS) yn 2021-22 (2020-21 £0.6 miliwn o enillion). Mae'r Brifysgol hefyd wedi cofnodi £17.0 miliwn o enillion actiwaraidd yn 2021-22, (2020-21: £2.3 miliwn o golled) ar ôl prisiad o asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiynau (prisiad actiwaraidd) a gynhaliwyd gan ein cynghorwyr annibynnol, Mercers. Rhoddir rhagor o fanylion am gynlluniau pensiwn y Brifysgol o dudalen 90 ymlaen.

Mae cysoniad crynhoi rhwng y Datganiadau Ariannol a'r Cyfrifon Rheoli (y sefyllfa weithredu waelodol) wedi'i ddangos isod er cyflawnder. Mae'r Safonau Cyfrifon yn mynnu bod y Brifysgol yn cynnwys nifer o eitemau nad ydynt yn arian parod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Y sefyllfa weithredol waelodol yw £0.2 miliwn o warged yn y grŵp pan hepgorir yr eitemau hyn, ac mae'r rhain wedi'u gosod yn y tabl isod.

	2021-22 £m	2020-21 £m
Cyfanswm incwm cynhwysfawr	(11.0)	1.9
Cost colli gwerth	0.0	(0.9)
Elw ar ôl gwerthu asedau sefydlog	(0.1)	(0.2)
Colledion / (enillion) o fuddsoddiadau	0.9	(6.0)
Gwaddolion newydd	(0.5)	(0.3)
Symudiadau yn y pensiwn USS yn ystod y flwyddyn	27.8	(0.6)
Costau pensiwn	1.3	0.6
Enillion eraill a gofnodir	(1.2)	0.0
Symudiadau ym mhensiynau CPAPA a'r ALL yn ystod y flwyddyn	(17.0)	2.3
Sefyllfa weithredol waelodol	0.2	(3.2)

Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o ganlyniadau'r grŵp i'r flwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth a manylion ar gael yn y Datganiadau Ariannol.

	2021-22 £m	2020-21 £m
Incwm	123.5	118.8
Gwariant	(150.7)	(120.8)
Diffyg cyn enillion a cholledion eraill	(27.2)	(2.0)
Elw ar ôl gwerthu asedau sefydlog	0.1	0.2
(Colledion) / enillion o fuddsoddiadau	(0.9)	6.0
Diffyg cyn treth	(28.0)	4.2
Gweddill / (diffyg) ar ôl treth	(28.0)	4.2
(Colledion) / enillion actiwaraid ar y cynlluniau pensiwn	17.0	(2.3)
Cyfanswm incwm cynhwysfawr	(11.0)	1.9

Mae gwerth buddsoddiadau'r Brifysgol ei hun hefyd yn anodd ei ragweld gan ei fod yn dibynnu ar werthoedd y farchnad. Yn 2021-22, gwnaeth y Brifysgol £0.9 miliwn o golled heb ei gwireddi ar sail gwerth buddsoddiadau yn ôl y farchnad (2020-21 £6.0 miliwn o enillion).

Mesuriadau iechyd ariannol

Mae'r Brifysgol yn defnyddio sawl Dangosydd Ariannol Allweddol i fonitro ei hiechyd ariannol. Mae'r Dangosyddion a ddefnyddiwyd wedi cael eu hadolygu yn 2021-22 a'u diweddarau yn unol â Strategaeth Ariannol y Brifysgol a hefyd er mwyn helpu i gymharu ein sefyllfa â gweddill y sector. Rhoddir crynodeb ohonynt yn y tabl isod:

MESURIADAU IECHYD ARIANNOL	2021-22	2020-21	Targed
Proffidioldeb			
Canlyniad a gedwir (% o'r incwm)	0.20%	-2.70%	5.00%
Hylifedd			
Dyddiau hylifedd net	36 diwrnod	34 diwrnod	120 diwrnod
Asedau cyfredol: Rhwymedigaethau cyfredol	0.8	0.7	1.3
Gerio			
Benthyciadau allanol fel % o'r incwm	46.40%	46.30%	50.00%
Effeithlonrwydd			
Costau staff fel % o'r incwm	56.30%	56.20%	58.00%

Ar hyn o bryd, dim ond dau o'r Dangosyddion sydd wedi'u bodloni, sef y rhai ar gyfer gerio a'r costau staffio fel canran o'r incwm. Mae llwyddiant o ran Dangosydd y costau staffio yn ganlyniad i'r rheolaeth dynn ar wariant yn ystod rhaglen y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd, ac sy'n dal i gael ei chynnal ers cwblhau'r rhaglen honno. Mae'r gostyngiad yn y Dangosydd gerio yn adlewyrchu gwelliannau yn yr incwm, yn hytrach na gostyngiad yn lefel y benthycia. Mae'r gyllideb a rhagolygon ariannol pum-mllynedd o 2022/23 yn dangos y bydd gweddill y Dangosyddion yn gwella. Serch hynny, os bydd y mesuriadau hyn yn mynd i gael eu cyflawni, bydd angen dal ati i gyrraedd y targedau o ran denu myfyrwyr a chynyddu'r incwm o ffoedd yn ogystal â llwyddiant wrth gael grantiau ymchwil newydd.

Proffidioldeb

Mae gwaith parhaus i resymoli costau a'r ffaith bod COVID-19 yn cael llai o effaith ar ein gwaith wedi arwain at warged gweithredol i'r Brifysgol. Yn amlwg mae hyn yn newyddion da yng nghyd-destun y pwysau gweithredol parhaus, yn bennaf oll chwyddiant costau, ac mae'n dangos bod y Brifysgol ar sail weithredol fwy cynaliadwy.

Mesuriad y canlyniad a gedwir fel canran o'r incwm yw 0.2% ac mae hynny'n adlewyrchu sefyllfa weithredu waelodol sydd wedi symud i warged ar ôl y colledion gweithredu a gofnodwyd drwy gydol y cyfnod roedd COVID-19 yn effeithio arno. Mae'r sefyllfa weithredu waelodol ar gyfer 2021-22 yn dangos sefyllfa gynaliadwy a sylfaen o gostau a resymolwyd, er gwaethaf yr heriau economaidd cenedlaethol a rhyngwladol sydd ohoni.

Hylifedd

Er gwaethaf y canlyniad gweithredol gwell a'r arian parod gweithredol a gafwyd yn ystod y flwyddyn, mae daliadau arian parod y Brifysgol yn parhau i fod yn is na'r thargedau oherwydd effaith andwyol ddiweddar COVID-19 ar y gweithrediadau, ynghyd â'r ffaith bod sawl buddsoddiad cyfalaf strategol sylweddol wedi'u cyflawni'n llwyddiannus dros yr un cyfnod.

Mae'r cynnydd yn yr arian parod a ddelir gan y Brifysgol, sef £8.1 miliwn ym mis Gorffennaf 2022 (2020-21 £7.3 miliwn), a'r cynnydd yn yr asedau cyfredol net, sef £3.7 miliwn ym mis Gorffennaf 2022, wedi arwain at welliant yn y mesuriadau hylifedd, ond maent yn dal i fod yn is na'r targedau. Mae Diwrnodau Hylifedd Net wedi cynyddu i 36 diwrnod (2020-21 34 diwrnod). Mae'r ffigur hwn yn dangos yr amcangyfrif am sawl diwrnod y byddai'r arian parod a gweddillion y buddsoddiadau byrdymor oedd gan y Brifysgol ym mis Gorffennaf 2022 yn gallu cynnal ei gweithgareddau creiddiol. Mae gweithgareddau craidd yn cael eu cyfrifo fel gwariant wedi tynnu dibrisiant, llog, amorteiddio, addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod, a chostau nad ydynt yn rhai cyson. Er gwaethaf y gwelliant hwn, mae'r ffigur yn dal i fod yn is na thargedau'r Brifysgol ac mae hyn yn dal i fod yn ystyriaeth allweddol yn y tymor byr a'r tymor canolig. Mae'r ffigur arian parod a gofnodwyd yn cynnwys £3 miliwn o gronfeydd a ddefnyddiwyd o Adnodd Credyd Cylchdroi'r ym mis Gorffennaf 2022, sy'n golygu bod mwy ar gael (£12 miliwn) o fewn yr adnodd hwnnw ar gyfer cronfeydd hygyrch byrdymor ar ddyddiad yr adroddiad. Mae cynnydd yn yr asedau cyfredol net, sef £3.7 miliwn ar draws 2021-22 wedi arwain at Gymhareb Gyfredol y Brifysgol (asedau cyfredol : rhwymedigaethau cyfredol) yn cynyddu o 0.7 i 0.8. Mae'r gwelliant hwn yn tynnu sylw at y gwaith y mae'r Brifysgol yn ei wneud i ganolbwyntio ar ei hylifedd gwaelodol wrth i'w weithgarwch gweithredol agosáu at yr un lefelau a gafwyd cyn y pandemig, ond mae hefyd yn ymwybodol bod y gymhareb hon yn dal i fod yn is na'i thargedau mewnol. Bydd mesuriadau hylifedd yn cael eu monitro'n agos trwy'r mecanweithiau adrodd presennol.

Gerio

Er bod y Brifysgol wedi nodi gwell incwm gweithredol yn 2021-22, sef £123.5 miliwn (2020-21 £118.8 miliwn), ni chafwyd llawer o newid yn y benthycia allanol fel canran o'r incwm hwn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae cynnydd y benthycia allanol, sef £2.4 miliwn yn 2021-22 yn ymwneud â'r ffaith bod mwy o fenthyciadau Salix di-log diwarant wedi'u defnyddio i ariannu prosiectau effeithlonrwydd ynni. Mae'r benthyciadau allanol sy'n weddill yn y metrig yn cynnwys rhwymedigaethau wedi'u sicrhau a'r elfen a ddefnyddiwyd o Adnodd Credyd Cylchdroi'r Brifysgol (RCF) erbyn mis Gorffennaf 2022. Mae'r Brifysgol yn montiro'n drylwyr ei rhwymedigaethau dyled a sut mae'n cydymffurfio â chyfamodau er mwyn sicrhau bod y cwbl yn cael eu bodloni drwy gydol cyfnod yr adroddiad a'r tu hwnt. Mae'r benthycia allanol ar 46.4% o'r incwm o fewn targedau'r Brifysgol ond bydd y mesur hwn yn cael ei fonitro'n barhaus trwy'r mecanweithiau adrodd presennol.

Mae'r Brifysgol wedi lleihau ei gwariant cyfalaf i £11.5 miliwn yn 2021-22 (2020-21 £20.9 miliwn). Er hynny, cychwynwyd ar brosiect cyfalaf sylweddol i adnewyddu ac ailwampio'r Hen Goleg, ac mae disgwyl y bydd y gweithgarwch hwn yn cynyddu yn 2022-23 a'r tu hwnt. Yn weithredol, mae sefyllfa'r arian parod yn dal i

gael ei lliniaru drwy ddefnyddio, yn unol â'r cynlluniau, yr Adnodd Credyd Cylchdroi yn ystod y cyfnod dan sylw. Cynyddwyd y cyfanswm sydd ar gael o'r adnodd hwnnw i £15 miliwn yn Nhachwedd 2020. Erbyn mis Gorffennaf 2022 defnyddiwyd £3.0 miliwn ohono. Roedd y Brifysgol wedi cydymffurfio â chyfamodau'r adnodd ym mhob un o'r pedwar chwarter 2021-22 a rhagwelir y bydd yn dal i gydymffurfio dros y ddwy flynedd ariannol nesaf.


Effeithlonrwydd

Costau staff yw'r elfen unigol fwyaf o gostau'r grŵp o bell ffordd. Yn 2021-22, £70.4 miliwn oedd costau staff y grŵp a gofnodwyd (ac eithrio addasiadau costau staff yr USS) (2020-21 £66.8 miliwn). Mae amgylchedd gweithredu prifysgolion yn dal i fod yn heriol ac mae'r farchnad o ran denu myfyrwyr yn ansicr ac yn hynod gystadleuol. Cynyddodd nifer y myfyrwyr yn 2021-22 ond roedd yn is na'n targedau. Yn y flwyddyn academaidd 2022/23, rydym yn disgwyl i nifer y myfyrwyr dyfu eto, ond bod y tyfiant hwnnw ar gyfradd is na'r hyn a ragwelwyd, a fydd yn lleihau'r incwm y cyllidebir ar ei gyfer am y flwyddyn £3.0 miliwn. Mae cyfres o gamau rheoli a chamau cyfyngu ar gostau yn cael eu cymryd i sicrhau bod y Brifysgol yn cyflawni ei gwarged cyllidebol am y flwyddyn.


Yn Adran 2 uchod, rydym wedi tynnu sylw at y gwelliant yng nghanran yr ymchwil sydd o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol. Er bod hynny'n wych, disgwylir y bydd cyfran y Brifysgol o gyfanswm yr incwm o grantiau ymchwil yn gostwng yn sylweddol yn y dyfodol. Mae cyllid y grantiau ymchwil ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023/24 wedi'i ddiogelu i raddau helaeth trwy gyllid lliniaru, ond bydd angen cymryd camau i liniaru'r effaith yn y tymor hwy wrth i'r Brifysgol fynd ati i gynyddu ei gweithgareddau ymchwil. Mae'r cynnydd bychan disgwylidig i gostau staff, ochr yn ochr â chynnydd arfaethedig i'r incwm gweithredol, yn golygu bod costau staff fel canran o incwm yn aros yn fras heb newid yn 2021-22 ar 57.0%. Mae'r ffigur hwn yn faromedr o effeithlonrwydd a chynaliadwyedd y sefydliad ac mae o fewn targedau'r Brifysgol ar hyn o bryd.

Incwm

Fe ddenodd y Brifysgol fwy o fyfyrwyr yn 2021-22 nag yn 2020-21 a arweiniodd hynny at gynydd yn y ffioedd dysgu ac, yn bennaf oll, yn yr incwm arall, a gynyddodd £9.6 miliwn (44.2%). Roedd y cynnydd hwnnw yn yr incwm arall yn deillio o'r ffaith bod y gweithgareddau wedi dychwelyd bron i'r un lefelau a fu cyn y pandemig ar draws gweithrediadau'r myfyrwyr a'r gweithgareddau masnachol. Cynyddodd yr incwm o lety'r myfyrwyr a'r safleoedd masnachu £2.9 miliwn, yn bennaf oherwydd bod y ffioedd llety bron â dychwelyd i'r un lefel â'r rhai cyn y pandemig, ynghyd â mwy o weithgarwch yn y meysydd masnachol eraill. Fe wnaeth Canolfan y Celfyddydau a ffermydd y Brifysgol hefyd gynhyrchu £1.4 miliwn ychwanegol o'i gymharu â 2020-21 o ganlyniad i'r cynnydd yn y gweithgarwch a'r rhaglennu. Mae'r incwm a gafwyd oddi wrth gyrff cyllido wedi lleihau'n sylweddol er 2020-21, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod y lefel wedi dychwelyd i'r lefel ddisgwylidig arferol ar ôl cael cymorth ariannol ychwanegol y flwyddyn gynt. Oherwydd newid yn y modd yr ymdrinnir â chydweithwyr ymchwil mewn cyfrifon, mae incwm o grantiau ymchwil yn is na 2020-21 ond nid yw hyn yn effeithio ar gyfraniad y Brifysgol. Yn rhan o'r broses gyllido, roedd y Brifysgol wedi llunio cynlluniau ariannol ar gyfer y rhan fwyaf o symudiadau mewn incwm ac felly mae'r rhain yn fras yn unol â disgwyliadau'r gyllideb, gan gydnabod bod y Brifysgol yn sefydliad mawr a chymhleth ac fe fydd y sefyllfa wrth reswm yn amrywio i raddau. Mae ein gweithgareddau wedi'u cynllunio fel y bydd newidiadau yn yr incwm yn dal i gyfateb â gostyngiadau angenrheidiol yn y costau, gyda'r nod o sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn unol â'r Cynllun Strategol cyffredinol.



NEWID YN YR INCWM £MILIWN (2021-22 CYM. Â 2019-20)



Gwariant


Roedd y Brifysgol wedi dal ati i reoli ei sylfaen o gostau yn ofalus yn 2021-22, yn gyfrannol â'r incwm a gynhyrchwyd, gan adeiladu ar sylfaen cynnydd y blynyddoedd diweddar a mireinio rhai elfennau allweddol. Mae proses gadarn a heriol er mwyn gosod y gyllideb, sy'n gysylltiedig â phwyslais ar weithgareddau datblygu, yn cefnogi'r amcan hwnnw o hyd. Yn 2021-22 mae'r Brifysgol wedi llwyddo i fantoli'r sylfaen costau yn gyfrannol â'r incwm a gynhyrchwyd, er bod angen gwneud rhai gwelliannau busnes o hyd. Mae'r costau staffio wedi cynyddu tua £3.7 miliwn (5.2%) o'u cymharu â'r flwyddyn gynt, sy'n deillio o ddyrchafiadau yn ystod y flwyddyn, codiadau cyflog a chyfraniadau yswiriant gwladol uwch, yn ogystal â'r ffaith bod costau staffio llety'r Brifysgol a'r safleoedd masnachu wedi cynyddu wrth i'r meysydd hynny ddychwelyd i'w gweithgarwch arferol. Ymgwymerwyd â rhai newidiadau hefyd i wella effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r portffolio academaidd cytbwys, gyda chefnogaeth y gwasanaethau proffesiynol, yn galluogi sefydlogrwydd o ran gwariant. Drwy ddefnyddio sefydliad y staff yn ystod 2021-22, mae'r amgylchedd rheoli hwnnw wedi ymsefydlu.


Fe fu rhai costau bychain yn ystod 2021-22 wrth i'r aildrefnu arfaethedig yn y Brifysgol gael ei gwblhau, ond nid ydynt yn rhan o sylfaen y costau gwaelodol ac felly nid ydynt yn rhan o'n gwaith cynllunio i'r tymor hir.

Mae gwariant ymchwil wedi lleihau £2.7 miliwn o'i gymharu â 2020-21, sy'n adlewyrchu'r gostyngiad uchod yn yr incwm. Mae'r cyfraniad at ymchwil at ei gilydd wedi aros yn gyson, er gwaethaf heriau cyllid yr Undeb Ewropeaidd.

Mae rheolaeth lem hefyd ar y gwariant ar nwyddau treuliadwy, sydd wedi'i hwyluso gan adolygiadau trylwyr ar gyllidebau, yn ogystal â defnyddio gwybodaeth rheoli 'amser go iawn' i ddeiliaid cyllidebau, sy'n deillio o'r system adrodd ariannol. Mae'r ffaith bod effaith ariannol COVID-19 wedi parhau ar ddechrau 2021-22 hefyd wedi lleihau'r gwariant gweithredol amrywiol yn y flwyddyn, wrth i'r arlwy a gweithgareddau eraill ar y campws ddychwelyd ar ôl y pandemig. Mae'r Brifysgol wedi cydnabod bod heriau o hyd wrth reoli sylfaen costau gweithrediadau penodol ac mae wedi datblygu cynlluniau gweithredu strategol i dargedu'r meysydd hynny. Bydd hyn, ynghyd â'r strategaeth gorfforaethol i gynyddu poblogaeth y myfyrwyr mewn modd cynaliadwy, yn sbarduno'r gwelliant yn y perfformiad ariannol yn y dyfodol.



NEWID YN Y GWARIANT £MILIWN (2021-22 CYM. Â 2020-21)



Sylwer: nid yw'r costau staffio yn cynnwys colledion yn narpariaeth costau gwasanaethau'r pensiynau, gweler nodyn 7.

Y Fantolen

Mae asedau net cyfunol y Brifysgol wedi gostwng £11.0 miliwn o'r hyn a gofnodwyd yn 2020-21. Mae cyfanswm yr asedau anghyfredol wedi gostwng £7.8 miliwn oherwydd tâl dibrisiant sydd wedi mynd y tu hwnt i'r buddsoddiad yn y flwyddyn ac mae cam cyntaf strategaeth ddadfuiddsoddi gymeradwy i ariannu dadfuiddsoddi'r Hen Goleg yn cael ei roi ar waith. Mae cyfanswm yr asedau net wedi'i ostwng ymhellach gan gynydd net £9.3 miliwn i'r Ddarpariaeth Bensiwn - mae hyn yn gyfuniad o gynydd yn rhwymedigaeth yr USS ar sail y rhagdybiaethau presennol a'r enillion actiwaraidd ynghylch CPAPA a chynlluniau'r awdurdod lleol. Mae credydwyr hirdymor wedi gostwng £1.5 miliwn ers 2020-21 sy'n deillio o gost amorteiddio grant cyfalaf gohriedig sy'n uwch na'r grantiau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

£ miliwn	Asedau Sefydlog	Buddsoddiadau	Banc ac Arian Parod	Credydwyr Hirdymor	Rhwymedigaeth Pensiynau
2021-22	250.2	34.4	8.1	131.6	61.7
2020-21	252.1	40.3	7.3	133.1	52.4
	↓	↓	↑	↓	↑

Buddsoddiadau Cyfalaf

Gostyngodd buddsoddiadau'r Brifysgol yn ei hystadau, ei hadnoddau a llety'r myfyrwyr yn 2021-22 ar ôl i sawl prosiect cyfalaf mawr gael eu cwblhau yn 2020-21. Er hynny, yng ngwanwyn 2022, cychwynnwyd ar adnewyddu'r Hen Goleg. Bydd hyn yn rhaglen gyfalaf bwysig i'r Brifysgol dros y tair blynedd nesaf. Rhagwelir mai £40miliwn fydd cyfanswm cost yr ailddatblygu a bydd y prosiect yn rhoi bywyd newydd i bresenoldeb hanesyddol y Brifysgol ar lan y môr. Sicrhawyd cyllid eisoes oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Llywodraeth Cymru, mentrau codi arian, a buddsoddiadau a glustnodwyd gan y Brifysgol ei hun.

Yn ystod y flwyddyn gwariwyd £11.4 miliwn (2020-21 £20.9 miliwn) ar fuddsoddi yn yr isadeiledd ac mewn offer ar draws y grŵp. Yn ogystal â chostau adeiladu cychwynnol yn ymwneud â phrosiect yr Hen Goleg, sef £1.7 miliwn yn 2021-22, buddsoddodd y Brifysgol £0.3 miliwn yn ei heiddo presennol i greu cyfleusterau ar gyfer y Ganolfan Addysg Gofal lechyd newydd a groesawodd ei myfyrwyr cyntaf ym mis Medi 2022. Mae dirfawr angen y ddarpariaeth hon ac fe gafodd groeso gan y rhanbarth. Llywodraeth Cymru a ariannodd y buddsoddiad yn yr adeilad a gwaith y ffitiadau. Mae'r Brifysgol wedi parhau â'i buddsoddiadau mewn prosiectau sy'n anelu at leihau ôl- troed carbon ei gwaith ac at gyrraedd ei tharged gwirfoddol o fod yn garbon-niwtral erbyn 2030. Gwnaed cam sylweddol tuag at y nod hwn drwy fuddsoddi mewn arae paneli solar ar dir y Brifysgol. Yn 2021-22, £2.5 miliwn oedd cyfanswm y costau cyfalaf, ac mae disgwyl i'r gwaith ymarferol gael ei gwblhau yn hydref 2022. Ariannwyd y rhan fwyaf o gostau'r prosiect trwy gyllid Salix di-log.

O gyfanswm y gwariant cyfalaf, mae £2.2 miliwn (2020-21 £1.7 miliwn) yn ymwneud ag offer ymchwil newydd y talwyd amdanynt drwy grantiau. Mae gweddill y gwariant yn ymwneud â buddsoddiadau strategol yn y campws a'i adnoddau, yn adlewyrchu gwelliannau yn yr adeiladau a'r isadeiledd cyffredinol.

Buddsoddiadau

Dros gyfnod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022, gwnaeth buddsoddiadau'r gwaddolion a buddsoddiadau'r Brifysgol ddychwelyd golled, sef 1.8% (enillion 15.3% 2020-21) o'u cymharu â'r meincnod polisi a roes 3.1% o golled (14% 2020-21). Y rhan o'r portffolio a berfformiodd orau oedd yr Adenillion Absoliwt (twf 3%) ac Eiddo (7.5%).

Arian parod ac adneuron byrdymor

Roedd hylifedd y Brifysgol (asedau / (rhwymedigaethau) cyfredol net) erbyn mis Gorffennaf 2022 yn dal i fod yn negyddol ar (£6.1) miliwn. Serch hynny, cynnydd yw hwnnw o'r (£9.7) miliwn a gofnodwyd ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r gwelliant hwnnw yn ymwneud yn bennaf â'r cynnydd mewn Masnach a Symiau Eraill sy'n Dderbyniadwy (£6.4 miliwn), er bod cynnydd yn yr arian parod a ddelir, sef £0.8 miliwn o'i gymharu â sefyllfa mis Gorffennaf 2021 hefyd wedi cyfrannu. Ar ôl gwireddi gwarged gweithredol gwaelodol yn 2021-22 mae'r gweithrediadau gwaelodol yn dal i fod yn sefydlog. Mae'r gallu i gadw arian parod a gwella'r mesuriadau hylifedd, ynghyd â sicrhau'r twf a ragwelwyd yn nifer y myfyrwyr a gwella ein canlyniadau gweithredol, yn dal i fod ymhlith ein prif flaenoriaethau i 2022-23 a'r tu hwnt.

Mae Adnodd Credyd Cylchdroi'r Brifysgol wedi galluogi'r Brifysgol i ymdrin ag ansicrwydd wedi'i gynllunio a byrdymor ym mhroffil ei llif arian parod. Ym mis Tachwedd 2020, cynyddodd y Brifysgol gyfanswm y cyllid sydd ar gael trwy'r Adnodd Credyd Cylchdroi o £10 miliwn i £15 miliwn. Yn unol â'r rhagolygon llif arian, roedd y Brifysgol wedi defnyddio £3 miliwn o'r adnodd erbyn mis Gorffennaf 2022, sef yr un swm â'r hyn a ddefnyddiwyd erbyn mis Gorffennaf 2021. Mae'r adnodd hwn yn cynorthwyo â gwahaniaethau amseru arian parod byrdymor yn unig ac nid yw'n gyllid benthyg sicredig hirdymor. Mae'r Brifysgol yn rhagweld y bydd yn cynnal gwargedion gweithredol, a gwella'r sefyllfa o ran arian parod wrth gefn yn ei chynlluniau ariannol o 2022-23 ymlaen, ar amod bod targedau'r incwm o ffioedd dysgu yn cael eu gwireddu. Bydd yr Adnodd Credyd Cylchdroi yn dal i gael ei ddefnyddio i esmwytho llif arian wrth fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf sylweddol, yn enwedig lle y ceir gwahaniaethau amseru rhwng taliadau arian parod a derbyn cyllid.

Mae'r Brifysgol yn cadw llygad manwl ar ei balansau a'i hymrwymiaadau arian parod drwy adroddiadau a rhagolygon misol a chwarterol. Yn y modd hwn mae risgiau'n cael eu hamlygu a'u rheoli. Yn ystod 2021-22 roedd effaith COVID-19 ar weithrediadau'r Brifysgol wedi lleihau, ond mae pwysau economaidd sylweddol fel costau ynni, chwyddiant ehangach a chyfraddau llog uwch yn dal i fod yn her i'r Brifysgol ac i'r sector at ei gilydd. Mae'r Brifysgol wedi cynllunio'n ariannol yn unol â hynny ac mae'n hyderus o hyd y bydd ei gweithrediadau'n cael eu rheoli fel y bydd yn gallu cyflawni'r rhagolygon am gynhyrchu a chadw arian parod yn 2022-23 a'r tu hwnt.

Mae'r Brifysgol yn dal i adolygu a chrynhoi'r asedau sydd ganddi er mwyn gweld lle y gellir gwaredu rhai asedau nad oes mo'u hangen i'r gofynion gweithredu na'r cynlluniau strategol. Ar draws 2021-22, daeth y strategaeth hon â £0.2 miliwn o enillion arian parod (2020-21 £0.9 miliwn) o werthu asedau. Ym mis Mai 2022, lluniodd y Brifysgol restr wedi'i diweddarau o dir ac adeiladau y mae'n cynnig eu gwaredu er mwyn cynorthwyo â gwelliannau a datblygiadau cyfalaf sy'n asio â chyfeiriad strategol y Brifysgol, sef gwaith ailddatblygu'r Hen Goleg yn anad dim.

Prif faterion risg ac ansicrwydd

Mae proses rheoli risg y Brifysgol yn cydnabod nifer o feysydd risg, gan gynnwys: risgiau strategol corfforaethol, sef nodi'r risgiau mwyaf arwyddocaol o ran cyflawni amcanion y Brifysgol; y risgiau gweithredol, a allai effeithio ar waith y sefydliad o ddydd i ddydd; a'r risgiau cysylltiedig â'r prosiectau datblygu mawr, sy'n nodi'r risgiau sy'n effeithio ar raglen buddsoddi cyfalaf y Brifysgol.

Cofnodir pob cofrestr risg mewn adnodd ar-lein er mwyn hwyluso'r gwaith y rheolwr wrth oruchwylio a nodi'r risgiau cysylltiedig, Mae risgiau corfforaethol yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ac yn cael eu hadolygu gan y Corff Llywodraethu. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cael adroddiad manwl ar reoli risg ym mhob un o'i gyfarfodydd. Cofnodir cofrestrau risg ar gyfer pob adran academaidd a'r gwasanaethau proffesiynol yn yr un adnodd ar-lein ac maent yn cael eu monitro ar lefel y cyfadrannau. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2021/22, mae'r Brifysgol wedi cyflwyno targedau sgoriau risg er mwyn canolbwyntio ar gofnodion risg lle y gall fod angen gwaith lliniaru pellach.

Erys rhai materion o ansicrwydd i'r sector cyfan a fydd yn effeithio ar bob prifysgol, yn enwedig rhai sy'n

deillio o berthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r effeithiau posib hyn wedi'u cynnwys yn y cofnodion risg fel y bo'n briodol. Mae denu myfyrwyr yn fater allweddol o hyd, yn enwedig yn rhyngwladol, lle mae digwyddiadau byd-eang wedi peri mwy o ansicrwydd ynghylch niferoedd myfyrwyr ac incwm o ffioedd. Mae mwy o sylw yn cael ei roi i'r bygythiad i seiberddiogelwch ac mae materion sy'n ymwneud â lles meddyliol a phrofiad y myfyrwyr yn destun cryn weithgaredd a sylw.

Mae'r prif risgiau i'r Brifysgol, a sut maent yn cael eu lliniaru, i'w gweld yn y tabl isod:

Maes y Risg	Disgrifiad y Risg	Lliniaru'r risg
Denu Myfyrwyr	Mae'r Brifysgol yn methu â denu a chadw digon o fyfyrwyr.	Mae'r Brifysgol yn cynllunio'n realistig ar gyfer y galw ac mae ganddi strategaethau ar waith i ddenu myfyrwyr, gan ganolbwyntio ar ardaloedd allweddol yng Nghymru a gweddill Prydain, gan ddatblygu rhwydweithiau rhyngwladol yn ogystal â chysylltiadau cryfion ag ysgolion lleol. Mae'r Brifysgol yn adolygu ei phortffolio'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn dal i ddiwallu gofynion myfyrwyr a chyflogwyr
Cynaliadwyedd a Chyllid	Mae newidiadau i'r drefn ariannu prifysgolion o ffynonellau cyhoeddus, gan gynnwys effeithiau unrhyw newidiadau i ffioedd myfyrwyr ac ariannu ymchwil, yn peri cryn ansicrwydd i'r cynlluniau a'r rhagolygon ariannol. Mae costau uwch yn y gadwyn gyflenwi ehangach ac ym mhrisiau ynni yn creu mwy o bwysau o ran costau.	Mae'r Brifysgol yn cynllunio'n ddoeth ac mae wedi ymgorffori dadansoddiadau sensitifrwydd manwl o'r tybiaethau incwm yn ei rhagolygon ariannol, ynghyd â chamau rheoli effeithiol ar ei chostau. Mae'r cynlluniau ariannol y tu hwnt i'r flwyddyn academaidd 2021-22 yn dangos bod y sefyllfa weithredu yn gwella.
Seiberddiogelwch	Methu ag atal ymgais i amharu ar ein seiberddiogelwch.	Mae gan y Brifysgol drefniadau seiberddiogelwch achrededig, gan gynnwys rheolaethau technegol canolog, polisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant gorfodol i'r staff. Mae'r cyfan yn cael eu diweddarau a'u hadolygu'n rheolaidd.
Addysg a phrofiad y myfyrwyr	Lefelau uchel o fyfyrwyr yn ymadael oherwydd cynnydd yn y galw am wasanaethau cymorth sy'n deillio o broblemau iechyd meddwl, lles a phwysau ariannol wrth i gostau byw gynyddu	Mae adolygiad allanol ar gamau i ddarparu cymorth i fyfyrwyr wedi'i gynnal gyda chynllun gweithredu ac argymhellion yn cael sylw, gan gynnwys camau i ymgorffori lles yn y cwricwlwm. Mae cyfres o gamau yn cael eu cymryd i gynorthwyo myfyrwyr a staff sydd â phryderon ynghylch costau byw.
Enw da	Mae'r Brifysgol yn methu â chynnal ei henw da rhyngwladol am ansawdd ei dysgu a'i hymchwil.	Mae'r Brifysgol yn gwneud buddsoddiadau sylweddol ym mhrofiad y myfyrwyr ac mewn ymchwil o safon fyd-eang. Mae'r llwyddiant yn y tablau, y Fframwaith Rhagoriaeth Dysgu a'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, gan gynnwys y FfRhY diweddaraf yn 2021, yn dyst i effeithiolrwydd strategaethau'r Brifysgol.
Gadael yr Undeb Ewropeaidd	Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod nifer o risgiau sy'n gysylltiedig â gadael yr Undeb Ewropeaidd, a hynny yn nhermau'r effaith bosib ar: ddenu myfyrwyr o wledydd yr UE; colli'r hawl i fanteisio ar raglenni ymchwil ac incwm i ymchwil; colli staff o wledydd yr UE; costau nwyddau a gwasanaethau yn cynyddu; colli ERASMUS a chynlluniau cyfnewid.	Mae cofrestrau risg y Brifysgol yn adlewyrchu goblygiadau ymadael â'r UE yn llawn o ran yr effaith ar ddenu myfyrwyr, denu a chadw staff a'r goblygiadau i'r cadwyni cyflenwi. Mae'r Brifysgol yn monitro'r llif gweithgarwch yn ymwneud â grantiau ymchwil ac mae wrthi'n meithrin cysylltiadau ymchwil â phartneriaid ym myd diwydiant.
Pandemig COVID-19	Mae lefelau uchel o achosion COVID-19 yn yr ardal yn amharu ar y Brifysgol, y myfyrwyr, y staff a'r gymuned leol.	Mae'r Brifysgol yn dal i gymryd camau i liniaru'r peryg posib bod achosion COVID-19 yn codi drachefn drwy wella'r awyru a monitro ansawdd yr aer mewn mannau dysgu a swyddfeydd a rennir. Mae patrymau gweithio staff wedi'u newid i adlewyrchu trefniadau gweithio mwy hyblyg lle bo hynny'n ymarferol.

Cynaliadwyedd

Mae cynllunio ariannol hirdymor y Brifysgol at y blynyddoedd hyd at 2026-27 wedi'i seilio ar ddarparu rhagoriaeth i fyfyrwyr.

Mae Aberystwyth yn dal ati i fireinio ei gwaith marchnata a denu myfyrwyr, sef myfyrwyr o Brydain a rhai rhyngwladol fel ei gilydd. Mae ein strategaethau wedi'u seilio ar ddatblygu portffolio o raglenni o ansawdd uchel a chanddynt hunaniaethau clir; ar feithrin perthynas dda â'n hysgolion bwydo; ac ar gyswllt unigol a chefnogol â'n hymgeiswyr. Y blaenoriaethau sy'n darparu'r sylfaen i'r elfen o dyfiant yn ein cynlluniau yw sefydlu darpariaeth dysgu sy'n gyson ragorol ac adran flaenllaw ar gyfer marchnata a denu myfyrwyr. Mae'r ddwy flaenoriaeth hyn wedi'u hymgorffori yn ein Strategaeth Gorfforaethol at y dyfodol, ac rydym yn dal ati i adolygu gweithgareddau dysgu a denu myfyrwyr ym mhob un o adrannau'r Brifysgol.

Roedd nifer y myfyrwyr a dderbyniwyd ym Medi 2021 ychydig yn is na'r disgwyl yn y gyllideb, ond mae'n gynydd ar 2020-21. Mae nifer y myfyrwyr wedi tyfu. Disgwylir y bydd hyn yn parhau yn 2022-23 ond ar raddfa is na'r hyn a ragwelwyd. Ein hamcanion strategol yw sicrhau bod Prifysgol Aberystwyth yn gyrchfan i fwyfwy o fyfyrwyr lle y gallant fyw a dysgu mewn amgylchedd eithriadol; mae ein dealltwriaeth a'n modelu busnes yn cefnogi'r rhagdybiaeth honno, a ddangosir gan y cynnydd yn nifer y ceisiadau, o'i gymharu â chylchoedd cofrestru blaenorol.

Mae'r Brifysgol yn dal i wneud buddsoddiad mawr yn ei hystadau, a fydd yn cael effaith ar ei sefyllfa ariannol yn y dyfodol. Cynhelir yr hylifedd o hyd, ac mae'r Brifysgol wedi cynyddu'r balansau arian parod yn 2021-22. Serch hynny, mae'n amlwg o hyd fod angen cyflawni'r twf a ragwelir a'r perfformiad ariannol cysylltiedig dros y cyfnod cynllunio er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

Bydd ein Strategaeth Gorfforaethol i'r blynyddoedd nesaf yn gweld rhaglen gyfalaf sylweddol yn mynd yn ei blaen, gan adeiladu ymhellach ar ein cryfderau creiddiol. Mae ein rhagolygon ariannol yn dangos sefyllfa gyllidebol dynn, ac mae'r Brifysgol yn rhagweld cynnal gwarged gweithredol yn 2022-23, os llwyddir i gyflawni effeithlonrwydd costau a thargedau'r incwm o ffoedd. Yn ogystal â'r eitemau hyn, mae'r Brifysgol wedi cynnwys yn ei rhagolygon gyflogau uwch, y gwir gyflog byw a chyfraniadau pensiwn ychwanegol gan y cyflogwyr, gan gynnwys y costau o leihau'r diffyg sy'n deillio o'r prisiad diweddaraf.

Mae'r Brifysgol yn aelod o nifer o gynlluniau pensiwn (gweler nodyn 29) ac mae rhywfaint o risg yn gysylltiedig â chanlyniadau'r prosesau priso. O gofio'r elfennau sylweddol hyn o ansicrwydd, mae'n dal i fod yn bwysig bod y Brifysgol yn gwella ei pherfformiad ariannol yn ystod 2022-23 a'r tu hwnt. Bydd yn dal ati i reoli'r gwariant yn ofalus, yn enwedig y gwario a wneir er mwyn cael asedau sefydlog, gan sicrhau eu bod yn cydfynd â'r rhagamcanion cynllunio cyfalaf. Bydd y pwyslais parhaus ar gyflawni amcanion y Cynllun Strategol yn parhau i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor trwy ddenu myfyrwyr i astudio ar bob lefel yn y Brifysgol. Yn y cyd-destun economaidd ehangach, fe gawn amseroedd heriol yn y dyfodol. Serch hynny, gyda'n rheolaeth gadarn barhaol, mae'r Brifysgol yn hyderus y bydd yn llwyddo i wneud cynnydd yn ei chynlluniau strategol, ac yn cyflawni ei hamcanion.

Yn rhan o'r modd y mae'n ymdrin â chynaliadwyedd ariannol, mae'r Brifysgol yn cynnal adolygiadau gwariant manwl ac mae ganddi gyfundrefn gadarn ar waith i fonitro'r gyllideb. Mae ymrwymadau ariannol ychwanegol wedi'u hadolygu a'u lleihau yn ôl yr angen, megis gwneud rhywfaint o'r gwariant cyfalaf mewn camau. Yn ystod 2021-22, parhaodd y Brifysgol ag adolygiad strategol cynhwysfawr o'i gweithgareddau caffael, a allai drawsnewid sut mae'r Brifysgol yn prynu nwyddau a gwasanaethau, ynghyd â gwireddu arbedion cynaliadwy hirdymor. Mae Gweithrediaeth a Chorff Llywodraethu'r Brifysgol yn cynnal goruchwyliaeth fanwl ar y sefyllfa ariannol a'r llifoedd arian parod, ac yn ystyried unrhyw gamau lliniaru. Ystyrir cyfleoedd ychwanegol i gynhyrchu refeniw, rheolaethau angenrheidiol ar gostau, rheolaeth ar arian parod ac opsiynau ariannu. Mae proses gynllunio integredig yn cael ei hadolygu a'i diweddarau er mwyn modelu'r incwm o ffoedd, y twf yn nifer y myfyrwyr a'r gweithgarwch ymchwil, ynghyd â'r gofynion cysylltiedig o ran y seilwaith dros y gorwel cynllunio hirdymor.

Mae'r rhagolygon ariannol yn ansicr o hyd a bydd 2022-23 yn heriol, wrth i ni ddychwelyd i ddysgu ar y campws ac yn rheoli'r costau a'r heriau ychwanegol a ddaw yn sgil pwysau chwyddiant a'r argyfwng costau byw. Fel y rhan fwyaf o brifysgolion, mae incwm Aberystwyth yn agored i'r risg hon, yn enwedig o ran denu myfyrwyr a gweithgareddau masnachu. Serch hynny, mae ein modelu rheoli ariannol ac arian parod yn dangos bod y Brifysgol yn dal i allu bodloni ei hymrwymadau ariannol, gan gynnwys sefyllfaoedd posib sy'n ymgorffori risgiau o fwy o golledion.

Stephen Forster,
Cyfarwyddwr Cyllid a'r Gwasanaethau Corfforaethol

Dr Emyr Roberts,
Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Adnoddau
a Pherfformiad

Datganiad o'r Budd Cyhoeddus

Mae Prifysgol Aberystwyth yn elusen gofrestredig (Rhif 1145141) yn unol â thelerau Deddf Elusennau 2011. Wrth bennu ac adolygu nodau ac amcanion y Brifysgol, mae Cyngor y Brifysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i ganllawiau cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar y budd cyhoeddus a'r canllawiau ategol i elusennau a sefydlwyd at ddibenion addysgiadol.

Ers 1872 mae'r Brifysgol yn hybu rhagoriaeth mewn ymchwil a dysgu o dan ei harwyddair, 'Nid byd, byd heb wybodaeth'. Anelwn at helpu'r myfyrwyr i allu datblygu eu hawch am ymholi academaidd, dysg a datblygu personol sy'n para gydol oes ac sy'n trawsnewid bywydau. Rydym yn rhoi gwerth ar arloesedd a rhagoriaeth mewn ymchwil ym mhob maes a disgyblaeth, ac yn annog gwaith ar draws y disgyblaethau er mwyn ymdrin â heriau byd-eang. Anelwn at chwalu'r meini tramgwydd sy'n rhwystro pobl rhag gallu manteisio ar addysg ac rydym yn cydweithio'n agos â'r gymuned er mwyn sicrhau bod y drysau i'n darpariaeth yn cael eu hagar yn lletach.

Dysgu

Ein cenhadaeth greiddiol yw cynhyrchu graddedigion hyddysg, medrus a hyderus sydd wedi'u paratoi'n drylwyr i fyd gwaith ac i waith y byd. Rydym yn gwneud hynny drwy ddarparu dysgu rhagorol ar draws 19 adran academaidd greiddio a thrwy ymgorffori cyflogadwyedd, sgiliau trosglwyddadwy a materion dinasyddiaeth fyd-eang yn ein cwricwlwm. Rydym yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau ar gyfer dysgu yn y gymuned, sy'n cynnwys darpariaeth eang o gyrsiau dysgu gydol-oes mewn ieithoedd, yn y gwyddorau, y celfyddydau a'r dyniaethau, ar gampws y Brifysgol ac mewn lleoliadau cymunedol ar draws Cymru, yn ogystal â phortffolio o gyrsiau rhan-amser a chyrsiau undydd. Cydnabyddwn ein dyletswydd arbennig i annog pobl i fanteisio ar ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg ac i hybu'r Gymraeg ac rydym yn chwarae rhan weithredol wrth annog myfyrwyr Cymraeg i ddilyn eu hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym wedi sefydlu'r Ysgol Gwyddor Filfeddygol gyntaf yng Nghymru yn ddiweddar ac fe fyddwn yn chwarae rhan allweddol yn hyfforddi nyrsys y dyfodol yn sgil ein tendr llwyddiannus i gynnig cymwysterau nyrsio am y tro cyntaf.

Ymchwil

Mae gennym hanes hir ac anrhydeddus o ymgymryd â gwaith ymchwil blaenllaw sydd o bwysigrwydd rhyngwladol, gan ymchwilio i'r prif heriau sy'n wynebu'r gymdeithas, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd, anghydraddoldeb byd-eang, ymchwil i'r gofod, economeg ryngwladol, deallusrwydd artiffisial a hunaniaethau diwylliannol. Rydym wrthi'n ymsefydlu fel canolfan ar gyfer ymchwil gydweithredol â busnesau drwy ein campws newydd sydd bellach ar agor, y Campws Arloesi a Menter, AberArloesi. Mae ein gwaith i feithrin cyswllt y gymuned â'n gwaith ymchwil yn cynnwys rhaglenni iechyd a lles, gweithdai roboteg, a darlithoedd cyhoeddus.

Ehangu Cyfranogiad

Mae ein dull o ehangu'r drysau i addysg uwch yn cynnwys prosiectau i godi uchelgais ymhlith y rhai sy'n gadael ysgol, ac rydym yn cydweithio'n agos ag ysgolion a'r gymuned leol i wella sgiliau, yn enwedig yn y pynciau 'STEM' (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg). Darparwn ystod gynhwysfawr o fwrsariaethau, ysgoloriaethau a gwobrau, gan gynnwys bwrsariaethau i fyfyrwyr ar raglenni ymchwil uwchraddedig, a ariennir drwy waddolion a ariannwyd gan gyn-fyfyrwyr a'r Brifysgol. Rydym hefyd yn darparu ystod o gymorth academaidd a phersonol a dargedir at fyfyrwyr i'w helpu i aros yn y Brifysgol ac i hybu eu llwyddiant.

Estyn yn Rhyngwladol

Rydym yn gymuned ryngwladol ffyniannus, yn croesawu staff a myfyrwyr o dros 90 o wledydd o bob cwr o'r byd, ac yn cydweithio â sefydliadau, busnesau a chyrrff ledled y byd. Mae ein Canolfan Saesneg Ryngwladol yn helpu myfyrwyr o dramor i feithrin ei sgiliau Saesneg fel y gallant fod yn aelodau hyderus o'n gymuned ddiogel a chynhwysol.

Cynaliadwyedd

Rydym yn llwyr ymroddedig i wella, hybu a datblygu arferion cynaliadwy, a'r nod yw annog tyfiant ac arferion cynaliadwy, o safbwynt yr unigolyn a'r sefydliad fel ei gilydd. Rydym wedi cymryd sawl cam i gael gwared â phlastigau untro, gan gynnwys cyflwyno treth cwpan coffi, darparu ffynhonnau dŵr am ddim i staff, myfyrwyr ac ymwelwyr a chyflwyno cynwysyddion compostadwy ar gyfer cludfwyd. Mae'r newidiadau hyn yn eu tro wedi lleihau allyriannau carbon y Brifysgol o safbwynt prynu plastigion untro a sicrhau gwell cyfraddau ailgylchu ac ailddefnyddio. Ar ddiwedd haf 2022 gorffennwyd gwaith gosod paneli solar o'r radd flaenaf ar safle gerllaw Fferm Penglais, sydd yn gynllun ynni adnewyddadwy a fyddai'n cynhyrchu tua 25% o anghenion trydan blyneddol Campws Penglais.

Rydym yn ymroddedig i gyrraedd sefyllfa garbon-niwtral erbyn 2030 ac yn blaenoriaethu ein cyfrifoldeb i ddiogelu'r amgylchedd rhag effeithiau ei gweithrediadau a'i gweithgareddau. Mae Datganiad Polisi'r Brifysgol ar Gynaliadwyedd yn rhoi braslun o'i hymrwymiad i gynnal ei gweithgareddau mewn modd sy'n gyfrifol o ran yr amgylchedd.

Cyswllt â'r Gymuned

Mae gennym gyswllt cryf â'n gymuned leol trwy ein Canolfan y Celfyddydau a'i rhaglenni diwylliannol bywiog sy'n cynnwys theatr, cerddoriaeth, sinema, arddangosfeydd yn yr orielau, gwyliau ffilm a llenyddiaeth, dosbarthiadau dawnsio, prosiectau'r haf i blant a dosbarthiadau nos a gweithdai i oedolion. Rydym yn ymfalchïo hefyd yn ein gwaith partneriaethol

â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac ag ysgolion lleol a grwpiau cymunedol, ac elusennau, gan gynnwys Elusen y Flwyddyn, a ddewisir gan ein staff a'n myfyrwyr. Rydym yn annog ein staff a'n myfyrwyr i wirfoddoli ac rydym yn falch o'r rhan y maen nhw ei chwarae mewn gweithgareddau megis cadwraeth ar lan y môr a'r gwaith gyda Brigâd Ambiwlans Sant Ioan. Rydym yn cynnig gwasanaethau i fusnesau rhanbarthol. Rydym yn cefnogi'r ysbyty lleol a rhaglenni ieuchyd cymunedol, ac yn darparu adnoddau chwaraeon a dosbarthiadau o safon uchel i'r gymuned leol (gan gynnwys dosbarthiadau chwaraeon, clybiau chwaraeon yn ystod y gwyliau, gweithgareddau i hybu ieuchyd a lles pobl dros eu 50 oed).

COVID-19

O waith ymchwil i gymorth cymunedol, mae ein staff a'n myfyrwyr wedi gwneud cyfraniadau hanfodol yn ystod y frwydr yn erbyn COVID-19. Rydyn ni'n ymroddedig i gydweithio â'n partneriaid, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i leihau effeithiau COVID-19 ar ein cymunedau ac i roi cymorth wrth gynllunio at y dyfodol. Yn ogystal â'n gwaith academiaidd sy'n gysylltiedig â COVID-19, mae'r Brifysgol wedi parhau i weithio'n gyson gyda'n myfyrwyr a'n staff i godi ymwybyddiaeth am y cyfyngiadau a'r cyngor diweddaraf ar ymddwyn a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi darparu cymorth unswydd yng ngoleuni'r pandemig ac wedi hwyluso profion wrth inni flaenoriaethu diogelwch ein myfyrwyr, ein staff a'r gymuned yn ehangach. Darparwyd adnoddau'r Brifysgol i helpu i gynnal y rhaglen frechu gymunedol, sy'n golygu bod miloedd o bobl wedi ymweld â'n campws i gael eu brechu gan staff lleol y gwasanaeth ieuchyd.

Llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol

Yn unol â Siarter Frenhinol Ategol Prifysgol Aberystwyth, fel y'i diwygiwyd yn 2018, Cyngor y Brifysgol yw "corff llywodraethol goruchaf y Brifysgol" ac mae'n gyfrifol am "benderfynu ar gyfeiriad strategol y Brifysgol, am y modd y gweithredir materion ariannol a gweinyddol, ac am faterion eraill y Brifysgol, yn unol â'i hamcanion".

Yn unol â dogfennau llywodraethol y Brifysgol, mae'r Cyngor yn cynnwys: Aelodau Annibynnol (rhai ohonynt yn gwasanaethu *ex-officio*); aelodau staff *ex-officio*; ac aelodau a etholir gan y Senedd, y staff anacademaidd a'r myfyrwyr. Ni fydd cyfanswm aelodaeth y Cyngor sydd â'r hawl i bleidleisio yn fwy na 18 aelod. Caiff y Cyngor hefyd gyfethol aelodau ychwanegol os dymuna wneud hynny, ar yr amod bod cyfanswm nifer yr aelodau yn cyd-fynd â'r Statud, er nad yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd.

Aelodau annibynnol anweithredol yw'r rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor, nad ydynt yn aelodau o'r staff nac yn fyfyrwyr yn y Brifysgol. Ar ben hynny, mae swyddogaeth Cadeirydd y Cyngor - sydd ar gael i Aelod Annibynnol yn unig - wedi'i gwahanu oddi ar swyddogaeth Prif Weithredwr y Brifysgol, sef yr Is-Ganghellor.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i hybu cydraddoldeb ac amrywioldeb, ac mae'n ymdrechu i fod yn gynhwysol ac i werthfawrogi natur amrywiol ei staff, ei myfyrwyr a'i chymuned. Hysbysebwr pob swydd wag am Aelodau Annibynnol y Cyngor yn allanol, ac mae croeso enwedig pan geir diddordeb o blith grwpiau a dangynrychiolir. Pan fynegir diddordeb yn un o'r swyddi hyn fe'u hystyrir gan Bwyllgor Enwebiadau a'u pwysu a'u mesur yn ôl aelodaeth bresennol y Cyngor i sicrhau bod gan ei aelodau ystod o sgiliau sy'n bodloni gofynion y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn anelu at ymgymryd â'i gwaith mewn modd moesegol yn unol â'r saith egwyddor a osodwyd yn Adroddiad Pwyllgor Nolan ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth. Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymrwymo i arddel yr arfer gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol, gan roi ar waith yr egwyddorion craidd a'r saith elfen

sylfaenol o lywodraethu fel y'u gosodwyd yng Nghod Llywodraethu Addysg Uwch (Medi 2020) Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion yn ogystal â'r egwyddorion perthnasol a roddir yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol.

Comisiynwyd adolygiad o effeithiolrwydd y llywodraethu gan y Cyngor yn ystod gwanwyn 2019. Fe'i cynhaliwyd gan AdvanceHE, ac fe gyflwynwyd yr adroddiad terfynol i'r Cyngor ar 28 Mehefin 2019. Mae'r Cyngor yn anelu at wella llywodraethu a pherfformiad y sefydliad yn barhaus. Mae'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad diweddaraf ar effeithiolrwydd y llywodraethu yn cael eu gweithredu o dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio. Bwriedir cynnal yr adolygiad nesaf ar effeithiolrwydd y llywodraethu yn ystod y flwyddyn academaidd 2022-23.

Ar 19 Chwefror 2020, cyhoeddwyd adolygiad annibynnol Gillian Camm ar Lywodraethu yng Nghymru ('*A review of Governance of the Universities in Wales*') ynghyd ag ymateb unfrydol y sector, ar ffurf Siarter Llywodraethu Prifysgolion yng Nghymru a chynllun Ymrwymiad i Weithredu. Mae'r Brifysgol wedi datblygu ei chynllun gweithredu ei hun mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Camm, ar ben y Siarter a'r cynllun Ymrwymiad i Weithredu a luniwyd gan y sector. Cytunodd y Cyngor ar gynllun gweithredu'r Brifysgol ei hun ar 27 Ebrill 2020, a bydd adroddiadau am y cynnydd a wnaed tuag at weithredu'r cynllun hwnnw yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio ddwywaith y flwyddyn. Ers Ebrill 2020 gwnaed cynnydd da tuag at weithredu llawer o'r camau y cytunwyd arnynt. Er bod pandemig COVID-19 wedi arwain at ohirio rhai camau mae'r rhan fwyaf ohonynt naill ai wedi'u rhoi ar waith neu wedi'u symud ymlaen yn sylweddol.

Disgrifir prif gyfrifoldebau'r Cyngor yn Ystatudau ac Ordinadau'r Brifysgol. Yn ôl yr arfer ac yn unol â'r Cod Rheoli Ariannol y cytunwyd arno â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, mae'r Cyngor yn dal iddo'i hun, ymysg pethau eraill, y cyfrifoldeb am gymeradwyo datblygiadau a gwariant sylweddol, ac am sefydlu unrhyw is-gwmnïau ac am weithgareddau'r is-gwmnïau hynny.

Cyfarfu'r Cyngor chwe gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd 2021-22. Ymdrinnir â llawer o'r gwaith manwl cychwynnol gan sawl is-bwyllgor. Mae prif is-bwyllgorau llywodraethu'r Brifysgol yn cynnwys: Pwyllgor Archwilio, Rîsg a Sicrwydd; Pwyllgor

Llywodraethu a Chydymffurfio; Pwyllgor Taliadau; a Phwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

Mae pob un o'r is-bwyllgorau hyn yn cyflwyno eu hadroddiadau i'r Cyngor, ac mae pob un wedi'i sefydlu'n ffurfiol â'i gylch gorchwyl ei hun a chyfran o'i aelodau yn dod o blith Aelodaeth Annibynnol y Cyngor. Mae gwybodaeth fanwl am aelodaeth a chyfrifoldebau'r is-bwyllgorau hyn i'w chael ar ein gwefan.

Sefydlwyd y Pwyllgor Taliadau i ystyried a phennu materion sy'n ymwneud â thalu Staff Uwch yn y Brifysgol, o fewn fframwaith cyffredinol a gymeradwywyd gan y Cyngor. Wrth gytuno i unrhyw newidiadau i'r tâl a roddir i'r Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Gangellorion ac aelodau eraill a ddiffinnir o'r Staff Uwch, mae'r Pwyllgor Taliadau yn ystyried i ba raddau y gellir fforddio unrhyw benderfyniadau o'r fath. Mae'r Pwyllgor Taliadau yn rhoi adroddiadau i'r Cyngor ar ei holl benderfyniadau.

Yn y pen draw, Cyngor y Brifysgol sy'n gyfrifol am drefniadau rheoli mewnol y Brifysgol ac am arolygu effeithiolrwydd y trefniadau hynny. Bwriad trefniadaeth o'r fath yw rheoli'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes yn hytrach na chael gwared ar y risg honno, a bydd yn cynnig sicrwydd rhesymol yn unig – nid sicrwydd absoliwt – yn erbyn camdatgan neu golled sylweddol.

Mae'r Cyngor yn ymgymryd â phroses barhaus ar gyfer canfod, cloriannu a rheoli risgiau arwyddocaol i'r Brifysgol; ac roedd y broses honno ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol. Mae wedi ei hadolygu gan y corff llywodraethol yn rheolaidd; ac mae'n cydymffurfio â'r canllawiau rheoli mewnol i Gyfarwyddwyr yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU, fel y'i diwygiwyd gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain.

Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd sy'n gyfrifol am y cyfarfod â'r Archwilwyr Allanol i drafod canfyddiadau'r archwiliadau, ac am gwrdd â'r Archwilwyr Mewnol i ystyried adroddiadau manwl ar archwiliadau mewnol ac argymhellion i wella trefniadau rheoli mewnol y Brifysgol, ynghyd ag ymateb y rheolwyr a'u cynlluniau gweithredu. Mae'r is-bwyllgor hwn hefyd yn monitro i ba raddau y cedwir at y gofynion rheoliadol, ac yn arolygu datganiadau ariannol blynyddol y Brifysgol ynghyd

â'r polisiâu cyfrifo. Ar ben hynny, gellid gofyn iddynt archwilio i enghreifftiau lle na chydymffurfiwyd â deddfwriaeth a rheoliadau eraill. Er bod uwchswyddogion gweithredol yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn ôl yr angen, nid ydynt yn aelodau o'r is-bwyllgor hwnnw, a gall aelodau'r is-bwyllgor gwrdd â'r Archwilwyr ar eu pen eu hunain er mwyn cael trafodaethau annibynnol.

Mae gan Weithrediaeth y Brifysgol brosesau ffurfiol sydd ar waith i gloriannu a rheoli risgiau sylweddol a wynebdir. Mae'r gwaith hwnnw'n cynnwys nodi'r mathau o risgiau y mae'r Brifysgol yn eu hwynebu, gan eu hystyried drwy broses sy'n edrych o'r pen i'r gwaelod ac o'r gwaelod i'r pen, a hynny ar y lefel gorfforaethol ac yn adrannol. Mae'r risgiau yn cael eu blaenoriaethu o ran eu heffaith ddichonol ac o ran pa mor debygol ydynt o ddigwydd yn unol â pholisi rheoli risg a gymeradwywyd. Edrychir ar y risgiau hyn yng ngoleuni Amcanion Strategol y sefydliad, a'u monitro, ynghyd â'r dulliau rheoli cysylltiedig, a'r camau lliniaru risg, ar sail barhaus gan Weithrediaeth y Brifysgol. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cael adroddiad am y sefyllfa ddiweddaraf o ran risg ym mhob un o'i gyfarfodydd, ac mae'r adroddiadau a'r argymhellion priodol yn cael eu cyflwyno i Gyngor y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol broses ar waith i ymdrin â materion rheoli o bwys sy'n golygu bod Cadeirydd y Cyngor a Chadeiryddion y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cael gwybod am faterion o'r fath yn syth; ac fe roddir gwybod hefyd i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Comisiwn Elusennau fel y bo'n briodol.

Mae gan y Brifysgol Gynllun Cyhoeddi y cytunwyd arno sy'n pennu'r wybodaeth a fydd yn cael ei darparu gan y sefydliad i'r cyhoedd. Ceir mwy o wybodaeth ar ein gwefan. Ar ôl i'r ddogfen hon gael ei chymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor, fe'i cyhoeddir ar wefan y Brifysgol gyda'r dogfennau sy'n ymwneud â blynyddoedd academiaidd ac ariannol blaenorol.

Gweithrediaeth y Brifysgol

Y Weithrediaeth yw uwch dîm rheoli'r Brifysgol ac mae'n gyfrifol am reolaeth a gweinyddiaeth gyffredinol y Brifysgol.



Yr Athro Elizabeth Treasure

Is-Ganghellor

Daeth yr Athro Elizabeth Treasure i Brifysgol Aberystwyth yn Is-Ganghellor ym mis Ebrill 2017. Cyn hynny, roedd hi'n Ddirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd. A hithau'n un o Is-Lywyddion (Cymru) UUK, mae hi'n aelod o Fwrdd Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau (UCEA). Graddiodd o Brifysgol Birmingham, ac mae hi wedi gweithio i'r GIG mewn swyddogaethau clinigol a rheolaethol, yn ogystal â gweithio ym Mhrifysgol Otago, Seland Newydd. Mae Elizabeth yn Gymrawd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru.



Yr Athro Colin McInnes

Dirprwy Is-Ganghellor: Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi

Mae Colin yn gymrawd o Academi'r Gwyddorau Cymdeithasol, Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau a Chymdeithas Ddysgedig Cymru. Yn ddiweddar, bu'n gweithio gyda Sefydliad Iechyd y Byd i ddatblygu ei fframwaith ymgynghorol ar gyfer cydweithredu rhwng cyrff sifiliaidd a milwrol mewn argyfyngau iechyd, ac mae ar hyn o bryd yn aelod o banel FfRhY2021 ym maes Gwleidyddiaeth ac Astudiaethau Rhyngwladol, ac roedd hefyd yn aelod o banel ymgynghorol rhyngddisgyblaethol FfRhY2021.



Yr Athro Tim Woods

Dirprwy Is-Ganghellor: Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr

Ar hyn o bryd, yr Athro Tim Woods sy'n arolygu materion sicrhau ansawdd a materion yn gysylltiedig â myfyrwyr ledled y Brifysgol. Mae'n adolygydd i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, ac fe'i penodwyd gan 'Advance HE' i gadeirio ei Grŵp Cynghori Arbenigol ar Gymrodoriaethau ac Achredu yn 2021. Mae'n cynrychioli Prifysgol Aberystwyth ar nifer o rwydweithiau Prifysgolion Cymru. Mae wedi cymryd rhan ym mhaneli'r Fframweithiau Rhagoriaeth Ymchwil a Dysgu yn y gorffennol, ac ar hyn o bryd mae'n cynrychioli Prifysgolion Cymru ar fwrdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Mae'n gadeirydd Pwyllgor Cynghori Strategol ASA Cymru.



Yr Athro Anwen Jones

Dirprwy Is-Ganghellor: Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol

Yn ogystal â bod yn Ddirprwy Is-Ganghellor, gan yr Athro Anwen Jones mae'r cyfrifoldeb sefydliadol am ddarpariaeth academiaidd, ysgolheictod, ac ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal ag elfennau rhywedd yr agenda Cydraddoldeb ac Amrywioldeb. Mae'n Athro ar Astudiaethau Theatr, ac yn Olygydd ar yr e-gyfnodolyn ysgolheigaidd rhyngddisgyblaethol Cymraeg, *Gwerddon*, a gyhoeddir gyda chefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac mae'n un o ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac un o Gyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg.

Yr Athro Qiang Shen

Dirprwy Is-Ganghellor: Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol

Enillodd yr Athro Qiang Shen ei Ddoethuriaeth ym maes Cyfrifiadura a Pheirianeg Drydanol ym Mhrifysgol Heriot-Watt a gradd DSc mewn Deallusrwydd Cyfrifiadurol o Brifysgol Aberystwyth. Fe'i hetholwyd yn Gymrawd i Gymdeithas Ddysgedig Cymru yn 2012. Mae'n gyn-Bennaeth yr Adran Gyfrifiadureg ac yn Gyfarwyddwr ar Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg.



Yr Athro Neil Glasser

Dirprwy Is-Ganghellor: Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd

Ar ben ei swydd fel Dirprwy Is-Ganghellor, mae gan yr Athro Glasser gyfrifoldeb am Gydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant yn ogystal â materion yn ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn y Brifysgol. Mae'n gyn Ysgolhaig Neilltuol Fulbright yn y Ganolfan Data Eira ac lâ Cenedlaethol yn Boulder, Colorado, ac mae'n aelod o Goleg Adolygiadau Cyd-academyddion yr NERC ac yn olygydd y *Journal of Glaciology*.



Mr Stephen Forster

Cyfarwyddwr Cyllid a'r Gwasanaethau Corfforaethol

Ymunodd Stephen Forster â'r Brifysgol yn 2018. Ar hyn o bryd mae ei swydd yn cynnwys yr oruchwyliaeth strategol a'r gyfrifoldeb am Gyllid a Chaffael, Cynllunio a Rheoli Risg, Ystadau, Adnoddau a Llety, a Gwasanaethau Masnachol. Bu'n gweithio gynt i gwmni PricewaterhouseCoopers LLP (PwC) lle bu'n gweithio mewn Cyllid, Rheoli Risg ac Yswiriant, Rheoli Contractau Cyflenwyr ac Ymgynghori ar Reoli Mewnol. Mae'n gymrawd o'r Gymdeithas Siartredig Cyfrifon Ardystiedig (FCCA).

Bydd Stephen yn gadael y Brifysgol ar 31ain Rhagfyr 2022. Bydd Mark Godsell, y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid ar hyn o bryd, yn ysgwyddo holl gyfrifoldebau Cyllid dros dro o'r dyddiad hwnnw.



Dr Rhodri Llwyd Morgan

Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol

Cyn ymuno â'r Brifysgol, bu'r Dr Rhodri Llwyd Morgan yn gweithio i BBC Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Sir Ceredigion. Ef yw Cadeirydd Bwrdd y Mudiad Meithrin, sy'n darparu gofal ac addysg i'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'n aelod o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg, Llywodraeth Cymru. Ef hefyd a gadeiriodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cymunedau Cymraeg, a gyhoeddodd ei raglen i 'gynyddu nifer y cymunedau Cymraeg'.



Adroddiadau blynyddol pwyllgorau'r Cyngor

Y PWYLLGOR ARCHWILIO, RISG A SICRWYDD

Dyma aelodau'r Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021-2022:

Enw	Categori	Presenoldeb
Mark Tweed (Cadeirydd)	Aelod Annibynnol	4/4
Kate Eden	Aelod Annibynnol	2/4
Sharron Lusher	Aelod Annibynnol	3/4
Charu Maini	Aelod Annibynnol	3/4
Rachel Barwise	Aelod o blith y Myfyrwyr	2/4

Yn unol â'r hyn a ganiateir gan baragraff 122 o God Rheoli Ariannol y Cyngor Cyllido, gwasanaethodd Kate Eden yn Aelod Annibynnol ar y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, a'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad. Cytunodd y Cyngor i hyn ar 10 Gorffennaf 2020 ar y sail bod yr angen cynyddol i ganolbwyntio ar hyfywedd ariannol yn y sector yn golygu ei bod hi'n hanfodol cael cynrychiolaeth ar draws y pwyllgorau fel y gallai'r aelod glywed yn uniongyrchol gan yr archwilwyr yn Archwilio, Risg a Sicrwydd, a chyfleu'r wybodaeth fel y bo'n briodol i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad. Pan ddaeth cyfnod Fiona Sharp ar y Cyngor ac fel Cadeirydd Adnoddau a Pherfformiad i ben ar 30 Ebrill 2022, penodwyd Kate Eden yn ffurfiol yn Gadeirydd Adnoddau a Pherfformiad ar 12 Mai 2022, ac felly nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Mehefin 2022.

Roedd cynrychiolwyr o Archwilwyr Allanol a Mewnol y Brifysgol yn bresennol yn ystod y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn 2020-21, yn ogystal â'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Ysgrifennydd y Brifysgol, a'r Is-Ganghellor.

Swyddogaeth y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yw cynghori a chynorthwyo'r corff llywodraethu ynglŷn â phob agwedd ar faterion sicrwydd a rheolaeth y Brifysgol. Mae'n atebol i'r Cyngor, ac mae ei brif ddyletswyddau yn cynnwys:

- Profi effeithlonrwydd trefniadau'r sefydliad o ran rheoli risg, diwylliant, rheolaeth a llywodraethu, a'r dulliau rheoli a'r gweithdrefnau mewnol i hybu gweithio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, a chynghori'r Cyngor ar yr holl faterion hyn;
- Goruchwylio'r trefniadau'r archwilio allanol

a mewnol, gan gynnwys cynghori'r corff llywodraethu ynglŷn â phenodi darparwyr archwiliadau, a goruchwylio natur a chwmpas yr archwiliadau Allanol a Mewnol ac effeithiolrwydd y prosesau archwilio; a

- Goruchwylio'r agweddau archwiliadol ar ddatganiadau ariannol y sefydliad, gan gynnwys barn yr Archwilwyr Allanol, y datganiad o gyfrifoldebau'r aelodau, y datganiad o reolaeth fewnol, ac unrhyw fater perthnasol a godir yn llythyr rheoli'r Archwilwyr Allanol.

Yn ystod 2021-2022, canolbwyntiodd y Pwyllgor i raddau helaeth ar graffu ar faterion allweddol a chynghori'r Cyngor ar y materion hynny fel y bo'n briodol. Lle'r oedd yn briodol, gwnaed penderfyniadau hefyd gan y Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl. Roedd y busnes a ystyriwyd yn ystod 2021-22 yn cynnwys:

- canlyniad yr Arolwg Allanol ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021, a'r camau a gymerwyd gan Weithrediaeth y Brifysgol i ymateb i unrhyw argymhellion a godwyd gan yr Archwilwyr Allanol;
- ailbenodi'r Archwilwyr Allanol yn ffurfiol o 1 Awst 2022;
- penodi Archwilwyr Mewnol yn ffurfiol;
- Adroddiad Blynyddol a Barn yr Archwilwyr Mewnol;
- y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2021-22 a 2021-22 a'r adroddiadau Archwilio Mewnol cysylltiedig. Yn ystod 2021-22, cafwyd adroddiadau Archwilio Mewnol ar: Symud Ymlaen a Chyflogadwyedd Myfyrwyr; Data a Systemau Addysg Uwch; Seiberddiogelwch; Llywodraethu

- Corfforaethol; Rheoli Risg; a'r ymateb blynyddol yn sgil argymhellion a godwyd yn y blynyddoedd blaenorol;
- y cynnydd a wnaed gan Weithrediaeth y Brifysgol wrth weithredu argymhellion a godwyd fel rhan o adroddiadau Archwilio Mewnol dros y blynyddoedd diwethaf;
- trefniadau rheoli risg yn y sefydliad, gan gynnwys adolygiad ar y Polisi Rheoli Risg, a'r Datganiad Archwaeth Risg a Matrics;
- Adroddiad ar y cynnydd ar y 'Plymio Dyfnder' Risg; a'r
- adroddiad blynyddol ar werth am arian o fewn y sefydliad.

Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU A CHYDYMFFURFIO

Dyma aelodau'r Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2021-2022:

Enw	Categori	Presenoldeb
Meri Huws (Cadeirydd)	Aelod Annibynnol	3/3
Mared Edwards	Aelod o blith y Myfyrwyr	2/3
Melanie Hamer	Aelod Annibynnol	3/3
Dr Louise Marshall	Aelod o'r Senedd	3/3
David Moyle	Aelod o'r Staff Anacademaidd	2/3
Rhuanedd Richards	Aelod Annibynnol	2/3
Jane Usherwood	Aelod Annibynnol	2/3
Claire Vaughan	Aelod Annibynnol	3/3
Yr Athro Elizabeth Treasure	Is-Ganghellor	3/3

Roedd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, ac Ysgrifennydd y Brifysgol hefyd yn bresennol ym mhob cyfarfod a gynhaliwyd yn 2021-22. Roedd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd lle'r oedd angen ei gyfraniad ar faterion perthnasol.

Craffu yw swyddogaeth y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio ac mae'n cynghori'r Cyngor ar faterion sy'n cynnwys llywodraethu sefydliadol; llywodraethu gwybodaeth; adnoddau dynol a datblygu staff; cydraddoldeb ac amrywioldeb; iechyd a diogelwch; y Gymraeg; a chydymffurfio â deddfwriaeth, a gofynion cyffredinol y llywodraeth, y Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a rheoleiddwyr eraill.

Yn ystod 2021-2022, canolbwyntiodd y Pwyllgor i raddau helaeth ar graffu ar faterion allweddol a chynghori'r Cyngor ar y materion hynny fel y bo'n briodol, gan gynnwys:

- cyflogaeth staff y Brifysgol a'r telerau a'r amodau cysylltiedig;
- datblygu a gweithredu Cynllun Datblygu Sefydliadol newydd, mentrau i ddatblygu'r diwylliant sefydliadol, a chynigion i gynnal arolwg staff yn ystod y flwyddyn academiaidd;

- Datganiad Taliadau Blynyddol y sefydliad, i'w gyhoeddi'n unol â gofynion Llywodraeth Cymru;
- cydymffurfio â'r Ddyletswydd 'Prevent', gan gynnwys adroddiad blynyddol y sefydliad ynglŷn â chydymffurfio â'r Ddyletswydd honno a diwygiadau i'r Cod Ymarfer ar Ryddid Mynegiant;
- diwygiadau i bolisiau allweddol sy'n gysylltiedig â chydymffurfio, a oedd yn cynnwys, yn ystod y flwyddyn, y polisiau Gwrth-Lwgrwobrwy, Gwrth-Dwyll a Chamymddwyn;
- datblygu a gweithredu cynlluniau i wella cydraddoldeb ac amrywioldeb yn y sefydliad yng nghyswllt y staff a'r myfyrwyr fel ei gilydd; yn ogystal â'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb y mae angen i'r Cyngor gytuno arno a'i gyhoeddi;
- Fel y cytunwyd gan y Cyngor, mae Cynllun Gweithredu wedi'i roi ar waith i ymdrin â'r argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad ar Lywodraethu'r Prifysgolion yng Nghymru a luniwyd gan Gillilan Camm yn 2019, yn ogystal â'r camau y cytunwyd arnynt yn rhan o'r Siarter genedlaethol. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y rhan fwyaf o'r camau gweithredu ar y gweill neu wedi eu cwblhau neu eu gweithredu. Un o'r argymhellion allweddol sy'n aros i gael ei weithredu yw datblygu strategaeth ar Amrywioldeb a Chynhwysiant Llywodraethwyr.

Mae canlyniadau'r gwaith hwnnw yn aros am gymeradwyaeth derfynol Cadeiryddion Prifysgolion Cymru a Grŵp Ysgrifenyddion Cymru;

- nodi'r cynnydd a wnaed ar y cynllun gweithredu sefydliadol mewn ymateb i adolygiad allanol 2019 ar effeithiolrwydd llywodraethu yn y Brifysgol; a'r

- Cytundeb Perthynas sydd ar waith rhwng y Brifysgol ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth; a phrofi cydymffurfiaeth â Rhan II o Ddeddf Addysg 1994.

Y PWYLLGOR ENWEBIADAU

Dyma aelodau'r Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021-2022:

Enw	Categori	Presenoldeb
Dr Emyr Roberts (Cadeirydd)	Cadeirydd y Cyngor	2/2
Sabina O'Donoghue	Aelod o blith y Myfyrwyr	2/2
Dr Rebecca Edwards	Aelod o'r Staff Anacademaidd	1/2
Yr Athro Simon Green	Aelod Annibynnol	2/2
Meri Huws	Aelod Annibynnol	2/2
Yr Athro Elizabeth Treasure	Is-Ganghellor	2/2

Roedd Ysgrifennydd y Brifysgol hefyd yn bresennol yn ystod pob cyfarfod a gynhaliwyd yn 2021-22. Cyfetholwyd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd hefyd i wasanaethu yn ystod y ddau gyfarfod.

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn ystyried argymhellion i'r Cyngor ynghylch penodiadau allweddol, ac yn cytuno ar yr argymhellion hynny, gan gynnwys penodi ac ailbenodi'r Cadeirydd a'r Aelodau Annibynnol i'r corff llywodraethu a'i is-bwyllgorau. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried ac yn cytuno ar argymhellion cysylltiedig â chyfnod swydd yr Is-Ganghellor, ac unrhyw ailbenodi am gyfnodau pellach.

Yn ystod 2021-22, rhoddwyd cyfrifoldeb i'r Pwyllgor dros arwain prosesau penodi allweddol ar ran y Cyngor, a thros gynghori'r Cyngor yn unol â hynny. Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Pwyllgor ddwywaith i oruchwylio'r drefn recriwtio allanol ar gyfer dau aelod annibynnol newydd i wasanaethu ar y Cyngor a'i is-bwyllgorau.

Yn unol â'r ymarfer gorau, wrth ystyried ceisiadau ac wrth gyfweid â darpar Aelodau Annibynnol newydd i'w penodi i'r Cyngor, chwiliodd y Pwyllgor Enwebiadau am dystiolaeth bod yr unigolion dan sylw:

- yn dangos anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth;
- yn gallu herio'n effeithiol ac adeiladol;
- yn gallu 'sefyll ar wahân' o ddylanwadau amhriodol ac yn gallu bod yn rhydd rhag cael eu 'cipio' gan reolwyr;
- yn rhydd rhag unrhyw fandad neu gyfyngiadau a fyddai'n eu hatal rhag cymryd y camau cywir; a
- heb fod yn berthyn i unrhyw weithwyr yn y Brifysgol a heb gyswllt ag unrhyw sefydliad sy'n cael budd ariannol gan y Brifysgol.

Y PWYLLGOR TALIADAU

Dyma aelodau'r Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021-2022:

Enw	Categori	Presenoldeb
Meri Huws (Cadeirydd)	Dirprwy Gadeirydd y Cyngor	1/1
Sabina O'Donoghue	Aelod o blith y Myfyrwyr	1/1
Dr Emyr Roberts	Cadeirydd y Cyngor	1/1
Claire Vaughan	Aelod Annibynnol	1/1
Yr Athro Syr Robin Williams	Aelod Annibynnol	1/1
Yr Athro Reyer Zwiggelaar	Aelod o'r Senedd	0/1

Roedd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, Ysgrifennydd y Brifysgol, a'r Is-Ganghellor hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor a gynhaliwyd yn 2021-22. Ni chymerodd yr Is-Ganghellor na'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol ran mewn unrhyw drafodaethau ynglŷn â'u cyflogau eu hunain, ac nid yw cyflog Ysgrifennydd y Brifysgol yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Taliadau.

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn ystyried a phenderfynu ar faterion sy'n ymwneud â thalu uwch staff y Brifysgol, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor. Mae'r Pwyllgor yn annibynnol a chymwys ac mae'n cael comisiynu arbenigedd annibynnol allanol os oes angen.

Yn 2021-2022 cytunodd y Pwyllgor Taliadau ar nifer o fonysau heb eu cynnwys fel rhan o'r cyflogau, yn gydnabyddiaeth o'r targedau a gyflawnwyd a'r gwaith ychwanegol a wnaed, yn enwedig yn ystod cyfnod COVID-19 (mae manylion pellach i'w gweld mewn rhan arall o'r adroddiad).

Cyflwynir adroddiad llawnach ar weithgareddau'r Pwyllgor Taliadau yn 2021-22 mewn manau eraill yn yr Adroddiad Blynyddol, yn unol â gofynion y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (CUC) yng Nghod Taliadau Staff Uwch Addysg Uwch (Mehefin 2018).

Y PWYLLGOR ADNODDAU A PHERFFORMIAD

Dyma aelodau'r Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021-2022:

Enw	Categori	Presenoldeb
Fiona Sharp (Cadeirydd o 1 Awst 2021 tan 30 Ebrill 2022)	Aelod Annibynnol	2/4
Sabina O'Donoghue	Aelod o blith y Myfyrwyr	2/4
Kate Eden (Cadeirydd o 12 Mai 2022)	Aelod Annibynnol	4/4
Dr Rebecca Edwards	Aelod o'r Staff Anacademaidd	3/4
Owen Evans	Aelod Annibynnol (hyd at 12 Mai 2022)	2/4
Dr Emyr Roberts	Cadeirydd y Cyngor	4/4
Yr Athro Elizabeth Treasure	Is-Ganghellor	4/4
Yr Athro Syr Robin Williams	Aelod Annibynnol	4/4
Dr William Williams	Aelod Annibynnol	4/4
Yr Athro Reyer Zwiggelaar	Aelod o'r Senedd	3/4

Roedd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, ac Ysgrifennydd y Brifysgol hefyd yn bresennol yn ystod yr holl gyfarfodydd a gynhaliwyd yn 2021-22.

Craffu yw swyddogaeth y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformio, ac mae'n cynghori'r Cyngor ar faterion sy'n cynnwys rheolaeth a chynaliadwyedd ariannol y sefydliad; denu a chofrestru myfyrwyr, gan gynnwys gweithgarwch rhyngwladol; cynhyrchu incwm; ymchwil, trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi; yr ystadau a'r amgylchedd.

Yn ystod 2021-2022, canolbwyntiodd y Pwyllgor i raddau helaeth ar graffu ar faterion allweddol a chynghori'r Cyngor ar y materion hynny fel y bo'n briodol, gan gynnwys;

- yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021, a'r datganiad cynaliadwyedd blynyddol cysylltiedig i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
- datblygu cyllideb y sefydliad am 2022-23, a'r rhagolygon ariannol am y blynyddoedd hyd at 2025-26;

- cyflawni prosiectau mawr o fewn yr amserlenni a'r cyllidebau y cytunwyd arnynt, gan ganolbwyntio'n benodol ar brosiect adnewyddu'r Hen Goleg;
- cyflwr presennol ystadau'r Brifysgol, datblygu Strategaeth Ystadau newydd, a chynigion i waredu asedau tir ac adeiladau y bernir nad oes eu hangen ar y sefydliad;
- perfformiad y sefydliad o'i gymharu â'i Strategaeth Rheoli Carbon, cynigion i ddiwygio'r Strategaeth honno, a chynlluniau i wella cynaliadwyedd amgylcheddol; a
- pherfformiad Cynllun Pensiwn a Sicrwydd Prifysgol Aberystwyth, y strategaeth fuddsoddi gysylltiedig, a chyfamodau'r Brifysgol fel cyflogwr.

Y SENEDD

Dyma aelodau'r Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2021-2022:

Enw	Categori	Presenoldeb
Yr Athro Elizabeth Treasure (Cadeirydd)	Is-Ganghellor	5/5
Dr Cathryn Charnell-White	Cynrychiolydd Adrannol	2/5
Yr Athro Hazel Davey	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Prysor Davies	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Yr Athro Sarah Davies	Cynrychiolydd Adrannol	3/5
Yr Athro Iain Donnison	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Sabina O'Donoghue	Aelod o blith y Myfyrwyr	3/5
Mared Edwards	Aelod o blith y Myfyrwyr	5/5
Rebecca Edwards	Aelod o'r Staff Anacademaidd	3/5
Dr Gwion Evans	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Dr Patrick Finney	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Yr Athro Neil Glasser	Dirprwy Is-Ganghellor	5/5
Dr Sarah Higgins	Cynrychiolydd Adrannol	4/5
Dr Aloysius Igboekwu	Cynrychiolydd Adrannol	4/5
Yr Athro Thomas Jansen	Cynrychiolydd Adrannol	3/5
Penri James	Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	5/5
Yr Athro Anwen Jones	Dirprwy Is-Ganghellor	5/5
Chris Loftus	Cynrychiolydd Adrannol (hyd at 29 Hydref 2021)	1/1
Yr Athro Colin McInnes	Dirprwy Is-Ganghellor	4/5
Dr Alex Mangold	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Elizabeth Manners	Aelod o blith y Myfyrwyr	4/5
Dr Louise Marshall	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Yr Athro Robert Meyrick	Cynrychiolydd Adrannol	4/5
John Morgan	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
David Moyle	Aelod o'r Staff Anacademaidd	4/5
Dr. Heather Norris	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Yr Athro Eleri Pryse	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Yr Athro Phillipp Schofield	Cynrychiolydd Adrannol	4/5
Yr Athro Qiang Shen	Dirprwy Is-Ganghellor	5/5
Yr Athro Tim Woods	Dirprwy Is-Ganghellor	5/5
Dr Sarah Wydall	Cynrychiolydd Adrannol	1/5
Yr Athro Reyer Zwiggelaar	Pennaeth Ysgol y Graddedigion	1/5

Gwahoddwyd y Cofrestrydd Academaidd, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor, ac Ysgrifennydd y Brifysgol i'r holl gyfarfodydd a gynhaliwyd yn 2021-22, yn ogystal â phenaethiaid yr holl adrannau academaidd nad oeddent wedi'u hethol i gynrychioli eu hadrannau ar y Senedd.

Y Senedd yw awdurdod academaidd y Brifysgol, ac mae'n rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn ag ansawdd academaidd y dysgu a'r ymchwil, yn rheoli a chymeradwyo'r portffolio academaidd, ac yn rheoli gwaith rheoleiddio buddiannau academaidd y sefydliad.

Yn ystod 2021-22, cynhaliodd y Senedd adolygiad

ar Siarter y Myfyrwyr, ac ar amryw o reoliadau a gweithdrefnau academaidd, gan gymeradwyo newidiadau iddynt. Gwnaeth y Senedd hefyd dderbyn a chymeradwyo Dadansoddiad Hunangloriannu'r Adolygiad Gwella Ansawdd (QER), sef dogfen allweddol a gyflwynwyd mewn ymateb i adolygiad allanol ar ansawdd ym mis Ebrill 2022. Cymeradwyodd y Senedd gyflwyniad y myfyrwyr i'r Adolygiad Gwella Ansawdd hefyd.

Bu'r Senedd hefyd yn craffu ar benderfyniadau perthnasol i'w cymryd gan y corff llywodraethu a chynghori'r Cyngor arnynt, gan gynnwys y Datganiadau Sicrhau Ansawdd blynyddol, i'w cyflwyno i'r Cyngor Cyllido.

GWEITHREDIAETH Y BRIFYSGOL

Dyma aelodau Gweithrediaeth y Brifysgol i'r flwyddyn academaidd 2021-22:

Enw	Categori	Presenoldeb
Yr Athro Elizabeth Treasure (Cadeirydd)	Is-Ganghellor	22/22
Stephen Forster	Cyfarwyddwr Cyllid a'r Gwasanaethau Corfforaethol	22/22
Yr Athro Neil Glasser	Dirprwy Is-Ganghellor	21/22
Yr Athro Anwen Jones	Dirprwy Is-Ganghellor	18/22
Yr Athro Colin McInnes	Dirprwy Is-Ganghellor	14/22
Dr Rhodri Llwyd Morgan	Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol	19/22
Yr Athro Qiang Shen	Dirprwy Is-Ganghellor	18/22
Yr Athro Tim Woods	Dirprwy Is-Ganghellor	22/22

Roedd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor, ac Ysgrifennydd y Brifysgol hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd Gweithrediaeth y Brifysgol a gynhaliwyd yn ystod 2021-22.

Ac yntau'n uwch dîm rheoli'r sefydliad, mae Grŵp Gweithredol y Brifysgol yn cynghori'r Is-Ganghellor yn bennaf; mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb cyffredinol dros reoli'r Brifysgol i'r Is-Ganghellor, yn rhinwedd ei swydd fel y prif swyddog academaidd, gweinyddol a chyfrifo.

Bu Gweithrediaeth y Brifysgol felly yn ystyried unrhyw fater y barnwyd ei fod yn briodol i'r canlynol:

- cynghori'r Is-Ganghellor ar faterion y mae ganddi gyfrifoldeb cyffredinol drostynt, lle dymuna'r Is-Ganghellor ymgynghori ag aelodau Gweithrediaeth y Brifysgol cyn gwneud penderfyniad;

- cynghori aelodau eraill o Weithrediaeth y Brifysgol ar faterion y mae ganddynt gyfrifoldeb dirprwyedig penodol drostynt, lle bo'r aelodau craidd hynny'n dymuno ymgynghori â chydweithwyr cyn gwneud penderfyniad; ac
- ystyried a chynghori'r Is-Ganghellor ar faterion a ddirprwywyd i Grŵp Gweithredol y Brifysgol sy'n ymwneud â Siarter a Statudau, Ordinhadau, Rheoliadau, Polisiâu a Gweithdrefnau'r Brifysgol.

Lle bo'n briodol, cyflwynodd y Weithrediaeth argymhellion i'r Cyngor a'i is-bwyllgorau i'w cymeradwyo - ceir braslun o'r materion hyn uchod yn rhan o'r crynodeb o'r materion busnes a ystyrir gan bob pwyllgor.

Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor o ran yr adroddiadblynyddol a'r datganiadau ariannol

Y Cyngor sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion y Telerau a'r Amodau Cyllid a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2021/22 a gyhoeddwyd gan CCAUC, y Cod Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, a'r gyfraith a'r reoliadau perthnasol.

Mae'n ofynnol paratoi datganiadau ariannol i grŵp y Brifysgol a'r rhiant-gorff yn unol â safonau cyfrifeg y DU a'r gyfraith berthnasol (Ymarfer Cyfrifeg a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU), gan gynnwys FRS 102 sef y Safon Adrodd Ariannol sydd ar waith yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon a gofynion Deddf Elusennau 2011. Ymhellach mae'n ofynnol yn ôl y Telerau a'r Amodau Cyllid fod angen paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Datganiad Ymarfer a Argymhellir 2019 - Cyfrifeg i Addysg Bellach ac Uwch, yn unol â gofynion y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2020/21 a gyhoeddwyd gan CCAUC.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion Grŵp y Brifysgol a'r rhiant-gorff, ac o'u hincwm a'u gwariant, eu henillion a'u cholledion, a'r newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol Grŵp y Brifysgol a'r rhiant-gorff, mae'n ofynnol ar y cyfarwyddwyr i:

- ddewis polisïau cyfrifeg addas a'u gweithredu'n gyson;
- gwneud asesiadau ac amcangyfrifon rhesymol a phwyllog;
- datgan a yw safonau cyfrifeg perthnasol y DU a'r Datganiad o Arferion Cymeradwy wedi'u dilyn, a datgelu unrhyw wahaniaethau o sylwedd yn y drefn, a'u hegluro yn y datganiadau ariannol;
- asesu a yw Grŵp y Brifysgol a'r rhiant-gorff yn gallu parhau ar sail busnes parhaus, gan

ddatgelu, fel y bo'n briodol, unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r gallu hwnnw; a

- defnyddio'r dull o gyfrifo ar sail busnes parhaus oni bai ei bod hi'n fwriad ganddynt ddirwyn Grŵp y Brifysgol neu'r rhiant-gorff i ben neu atal eu gweithredoedd, neu os nad oes ganddynt ddewis amgen realistig heblaw gwneud hynny.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg digonol sy'n ddigon manwl i ddangos ac esbonio trafodion rhiant-gorff y Brifysgol, ac sy'n datgelu â chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol rhiant-gorff y Brifysgol. Mae'n gyfrifol am unrhyw reolaeth fewnol sydd yn ei farn ef yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb gamddatganiad o sylwedd, boed hynny'n deillio o dwyll neu o amryfusedd. Mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am gymryd unrhyw gamau sydd yn rhesymol o fewn ei allu i ddiogelu asedau'r Grŵp ac i atal a darganfod unrhyw dwyll neu arferion afreolaidd eraill.

Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am sicrhau:

- bod y cronfeydd o ba bynnag ffynhonnell a weinyddwyd gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'i ddefnyddio yn briodol at y dibenion hynny a'u rheoli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- bod incwm, lle y bo'n briodol, wedi'i gymhwyso yn unol â pharagraff 145 o God Rheoli Ariannol CCAUC;
- bod grantiau Cynghorau Cyllido wedi cael eu cymhwyso yn unol â'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrthynt ac fe'u defnyddiwyd at y dibenion y cawsant eu derbyn ar eu cyfer, gan gynnwys y Telerau a'r Amodau Cyllid;
- bod rheoliadau ariannol a rheoli addas mewn grym i ddiogelu cyllid cyhoeddus yn ogystal â chyllid a ddaw o ffynonellau eraill; a
- bod adnoddau a gwariant y brifysgol yn cael eu rheoli'n ddarbodus, yn effeithlon, ac yn effeithiol.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am gynnal y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a gyhoeddir ar wefan y Brifysgol, ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â pharatoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i'r ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

YMDDIRIEDOLWYR Y BRIFYSGOL

Dyma Ymddiriedolwyr y Brifysgol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022, a hyd at gyfarfod y Cyngor lle y cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn yn ffurfiol:

Aelodau Annibynnol

Ex-officio

Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (5/5)

Ms Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor (5/5)

Penodwyd

Ms Kate Eden (5/5)

Mr Owen Evans [hyd at 12 Mai 2022] (1/2)

Yr Athro Simon Green (4/5)

Ms Sharron Lusher (3/5)

Ms Rhuanedd Richards (5/5)

Ms Fiona Sharp [hyd at 30 Ebrill 2022] (1/3)

Mr Arwel Thomas [o 01 Awst 2022]

Mr Mark Tweed (4/5)

Yr Athro Syr Robin Williams [hyd at 31 Gorffennaf 2022] (5/5)

Dr William Williams (3/5)

Ms Nicola Wood [o 1 Awst 2022]

Aelodau Staff / Myfyriwr

Ex-officio

Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor (5/5)

Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (5/5)

Aelodau o'r Senedd

Dr Louise Marshall (4/5)

Yr Athro Reyer Zwiggelaar (5/5)

Aelod o'r Staff Anacademaidd

Ms Kylie Evans [o 1 Chwefror 2022-31 Awst 2022] (3/3)

Ms Kath Williams [hyd at 31 Ionawr 2022] (2/2)

Aelodau yn Cynrychioli'r Myfyrwyr

Ms Mared Edwards, Llywydd UMCA [hyd at 30 Mehefin 2022] (3/5)

Mr Dafï Jones, Llywydd UMCA [o 1 Gorffennaf 2022] (1/1)

Ms Sabina O'Donoghue, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth [hyd at 30 Mehefin 2022] (3/5)

Ms Aisleen Sturrock, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth [o 1 Gorffennaf 2022] (0/1)

Rhoddir gwybodaeth am bresenoldeb aelodau'r Cyngor a fu'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022. Fe'i cyflwynir ar ffurf y nifer o gyfarfodydd y Cyngor yr oeddynt yn bresennol ynddynt o'r cyfanswm o gyfarfodydd yr oedd disgwyl i'r aelod fod yn bresennol ynddynt.

Ymgynghorwyr proffesiynol

Archwilwyr allanol ac ymgynghorwyr ar dreth gorfforaethol

KPMG LLP
3 Assembly Square
Britannia Quay
Caerdydd
CF10 4AX

Archwilwyr mewnol

Deloitte LLP
The Pinnacle
150 Midsummer Boulevard
Milton Keynes
Swydd Buckingham
MK9 1FD

Bancwyr

Banc Barclays
26 Ffordd y Môr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2AE

Cyfreithwyr

Shakespeare Martineau
1 Colmore Square
Birmingham
B4 6AA

Prif Swyddfa

Prifysgol Aberystwyth
Y Ganolfan Ddelweddu
Penglais
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BF

Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i Gyngor Prifysgol Aberystwyth

ADRODDIAD AR YR ARCHWILIAD O'R DATGANIAD ARIANNOL

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Aberystwyth ("y Brifysgol") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfun a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr, y Fantolen Gyfun a Mantolen y Brifysgol, y Datganiad o Newidiadau Cyfun a Datganiad Newidiadau'r Brifysgol yn yr Arian Wrth Gefn, y Datganiad Llif Arian Cyfun, y Datganiad o'r Prif Bolisiau Cyfrifeg a'r nodiadau perthnasol.

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y Grŵp a'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2022 ac o incwm a gwariant y Grŵp a'r Brifysgol, a'u henillion a'u cholledion, a'r newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn ac o lif arian y Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben y pryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â safonau cyfrifeg y DU, gan gynnwys FRS 102 sef y Safon Adrodd Ariannol sydd ar waith yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, ac â Datganiad 2019 ar Arferion Cymeradwy - Cyfrifeg mewn Addysg Bellach ac Uwch; ac
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Sail y farn

Fe'n penodwyd yn archwilydd yn ôl Siarteri ac Ystatudau'r sefydliad ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) ac rydym yn cyflwyno ein hadroddiad yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno.

Cynaliasom ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Rydym wedi bodloni ein cyfrifoldebau moesegol yn ôl y gofynion moesegol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym yn annibynnol ar y Grŵp yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth a gawsom i'r archwiliad yn sail ddigonol a phriodol ar gyfer ein barn.

Busnes parhaus

Mae'r Cyngor wedi paratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio'r dull o gyfrifo ar sail busnes parhaus gan nad yw'n fwriad ganddo ddirwyn y Grŵp na'r Brifysgol i ben nac atal eu gweithredoedd, ac yntau wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Brifysgol yn golygu bod hyn yn realistig. Mae hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw elfennau sylweddol o ansicrwydd a allai fod wedi bwrw amheuaeth sylweddol ar y gallu i barhau ar sail busnes parhaus am flwyddyn o leiaf ar ôl dyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("cyfnod busnes parhaus").

Wrth inni bwysu a mesur casgliadau'r Cyngor, ystyriasom y risgiau ymhlyg ym model busnes y Grŵp, a buom yn dadansoddi sut y gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol neu ar eu gallu i barhau â'u gweithrediadau dros gyfnod y busnes parhaus.

Dyma ein casgliadau ar sail y gwaith hwnnw:

- rydym o'r farn bod y sail busnes parhaus a ddefnyddir gan y Cyngor yn y cyfrifon, wrth baratoi'r datganiadau ariannol, yn briodol;
- ni ddaethom o hyd i unrhyw ansicrwydd o sylwedd o ran unrhyw ddigwyddiadau neu amgylchiadau a allai fod, yn unigol neu gyda'i gilydd, wedi bwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp neu'r Brifysgol i barhau ar sail busnes parhaus am y cyfnod busnes parhaus, ac rydym yn cytuno ag asesiad y Cyngor nad oes ansicrwydd o'r fath.

Serch hynny, gan na allwn ragweld digwyddiadau nac amgylchiadau'r dyfodol a chan y gallai digwyddiadau yn y dyfodol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â dyfarniadau a oedd yn rhesymol ar yr adeg pan y'u gwnaed, nid yw'r casgliadau uchod yn rhoi gwarant y bydd y Grŵp neu'r Brifysgol yn parhau i weithredu.

Twyll a thorri cyfreithiau a rheoliadau – y gallu i ddarganfod achosion o’r fath

Canfod ac ymateb i risgiau o gamddatgan o sylwedd oherwydd twyll

Er mwyn dod o hyd i risgiau camddatgan o sylwedd sy’n deillio o dwyll (“risgiau twyll”) gwnaethom asesu digwyddiadau neu amgylchiadau a allai ddangos bod cymhelliad neu bwysau i gyflawni twyll neu ddarparu cyfle i gyflawni twyll. Roedd y camau a gymerasom i asesu’r risg yn cynnwys:

- Gofyn i’r Cyngor, y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a’r archwiliad mewnol ynghylchpolisiau a gweithdrefnau’r Grŵp, ar y lefel uchel, i ddod o hyd i dwyll ac i’w atal, gan gynnwys y swyddogaeth archwilio mewnol, a threfn y Grŵp ar gyfer “chwythu’r chwiban”, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth a fo ganddynt am dwyll gwirioneddol, neu amheuaeth neu gyhuddiadau am dwyll.
- Darllen cofnodion y Cyngor, y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, a’r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddi er mwyn dod o hyd i unrhyw gysylltiadau anarferol neu annisgwyl.

Gwnaethom gyfleu’r risgiau twyll a nodwyd i’r tîm archwilio i gyd, gan aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll yn ystod yr archwiliad.

Yn unol â gofynion y safonau archwilio, a chan roi ystyriaeth i unrhyw bwysau posib i fodloni cyfamodau benthyciadau, rydym yn cymryd camau i ymdrin â’r risg y bydd y rheolwyr yn diystyru’r rheolau, a’r risg y cofnodir refeniw yn dwyllodrus, yn benodol y risg na fydd incwm o incwm ymchwil yn cael eu cofnodi yn unol â thelerau ac amodau perthnasol y grant dan sylw a’r risg y gallai rheolwyr y Grŵp fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifo amhriodol.

Ni ddaethom o hyd i unrhyw risgiau twyll ychwanegol.

Wrth bennu’r gweithdrefnau archwilio rhoesom ystyriaeth i ganlyniadau’r asesiad a’r profion a wnaethom ar effeithiolrwydd gweithredol y gweithdrefnau rheoli risg twyll ar gyfer y Grŵp cyfan.

Roedd y camau a gymerasom yn cynnwys:

- Nodi cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill er mwyn gwneud profion ar sail y meini prawf risg, gan gymharu’r cofnodion a nodwyd â’r ddogfennaeth ategol. Roedd y rhain yn cynnwys y dyddlyfrau a gofnodwyd ar gyfrifon refeniw neu arian parod gyda’r cofnodion atebol a gofnodwyd yn feintiau anarferol, a’r cofnodion hynny’n rhai ac iddynt dwyll neu ailddatgan yn eu naratif.
- Gwirio bod incwm ymchwil wedi’i gofnodi’n briodol ar sail y cytundeb grant sylfaenol a’r gwariant ymchwil cyfatebol.

Nodi risgiau camddatgan o sylwedd oherwydd diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, ac ymateb i’r risgiau hynny.

Nodasom feysydd yn y cyfreithiau a’r rheoliadau y gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddant yn cael effaith o sylwedd ar y datganiadau ariannol drwy ein profiad cyffredinol ym myd masnach ac yn y sector, a thrwy drafod â’r Cyngor a rheolwyr eraill (yn unol â gofynion y safonau archwilio) gan drafod â’r Cyngor a rheolwyr eraill y polisiau a’r gweithdrefnau sy’n ymwneud â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

Gan fod y Grŵp yn cael ei reoleiddio, roedd ein hasesiad o’r risgiau yn golygu dysgu am yr amgylchedd rheoli gan gynnwys gweithdrefnau’r corff ar gyfer cydymffurfio â gofynion rheoleiddio.

Gwnaethom gyfleu i’r tîm cyfan y cyfreithiau a’r rheoliadau a nodwyd, gan aros yn effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfio drwy gydol yr archwiliad.

Mae effeithiau posib y cyfreithiau a’r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio’n sylweddol.

Yn gyntaf, mae’r Grŵp yn ddarostyngedig i gyfreithiau a rheoliadau sy’n effeithio’n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys y ddeddfwriaeth ar adroddiadau ariannol, y ddeddfwriaeth dreth, y ddeddfwriaeth ar bensynau, y ddeddfwriaeth ar elusennau a’r datgeliadau penodol sy’n ofynnol gan y ddeddfwriaeth a’r rheoliadau ar addysg uwch, gan gynnwys y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac fe wnaethom asesu i ba raddau y cydymffurfiwyd â’r cyfreithiau a’r rheoliadau hyn, yn rhan o’n gweithdrefnau ar yr eitemau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol.

Yn ail, mae’r Grŵp yn ddarostyngedig i lawer o gyfreithiau a rheoliadau eraill lle y gallai peidio â chydymffurfio gael effaith o sylwedd ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft drwy osod

dirwyon neu ddwyn achos cyfreithiol neu drwy golli trwydded y Grŵp i weithredu fel prifysgol addysg uwch. Gwnaethom nodi'r meysydd isod fel y rhai mwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: cydymffurfio â gofynion rheoleiddio addysg uwch Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yn cydnabod natur reoleiddiedig gweithgareddau'r Grŵp. Mae'r safonau archwilio yn cyfyngu ar y gweithdrefnau archwilio sy'n ofynnol er mwyn nodi diffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn, sef eu cyfyngu i holi'r Cyngor a'r rheolwyr eraill, ac i archwilio'r ohebiaeth reoleiddio a chyfreithiol, os oes rhai. Felly os oes achlysur lle y torrwyd y rheoliadau gweithredol ond nad yw wedi'i ddatgelu i ni, neu os nad yw'n dod i'r amlwg o'r ohebiaeth berthnasol, ni fydd yr archwiliad yn darganfod yr achos hwnnw.

Cyd-destun gallu'r archwiliad i ddarganfod twyll neu achlysuron lle y torrwyd y gyfraith neu reoliadau

Oherwydd y cyfyngiadau sy'n gynhenid i archwiliad, mae risg anochel na fyddwn ni wedi darganfod rhai camddatganiadau o sylwedd yn y datganiadau ariannol, er i ni gynllunio a chynnal ein harchwiliad mewn modd priodol yn unol â'r safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf y bo unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn gwyro oddi wrth y digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, lleiaf tebygol yn y byd yw hi y byddai'r gweithdrefnau - sydd yn eu hanfod yn gyfyngedig - yn eu canfod.

Ar ben hynny, fel pob archwiliad, mae risg uwch na fydd twyll yn cael ei ganfod gan y gallai achosion o dwyll olygu cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, camliwio, neu ddiystyru'r camau rheoli mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi'u cynllunio i ddarganfod camddatganiadau o sylwedd. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio nac am atal twyll ac ni ellir disgwyl i ni ddarganfod diffygion cydymffurfio â phob cyfraith a rheoliad.

Gwybodaeth arall

Y Cyngor (y mae ei aelodau'n Ymddiriedolwyr y Brifysgol at ddibenion y gyfraith elusennau) sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall, sy'n cynnwys yr holl wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd ar y datganiadau hynny. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall honno ac felly nid ydym yn mynegi barn archwiliadol nac, ac eithrio yn y modd a ddatgenir yn ddiamwys isod, unrhyw fath o gasgliad ar sicrwydd y wybodaeth honno.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried ar sail ein gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol, a yw'r wybodaeth yno wedi'i chamddatgan yn ei sylwedd neu'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwiliadol. Mae'n ofynnol i ni roi gwybod i chi os:

- ar sail y gwaith hwnnw yn unig, y daethom o hyd i gamddatganiadau o sylwedd yn y wybodaeth arall; neu
- yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adolygiad Strategol, ac Adroddiad y Llywodraethwyr a'r Datganiad ar Lywodraethu Corfforaethol yn anghyson â'r datganiadau ariannol ar unrhyw fater o sylwedd.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd o ran y materion hynny.

Materion y mae'n ofynnol arnom roi adroddiad arnynt drwy eithriad

Yn ôl Deddf Elusennau 2011, mae'n ofynnol i ni roi gwybod i chi os, yn ein barn ni:

- nad yw'r Brifysgol wedi cadw cofnodion digonol o gyfrifon; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â chofnodion y cyfrifon; neu
- na chawsom yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen i'n harchwiliad.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd o ran y materion hynny.

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Fel yr esbonnir yn llawnach yn ei ddatganiad a roddir ar dudalen 55, y Cyngor sy'n gyfrifol am: paratoi'r datganiadau ariannol sy'n rhoi golwg wir a theg; y rheolaeth fewnol sydd yn ei farn ef yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi'r datganiadau ariannol heb gamddatganiad o sylwedd, boed hynny'n deillio o dwyll neu o amryfusedd; pwysu a mesur gallu'r Grŵp a riant-gorff y Brifysgol i barhau ar sail busnes parhaus, gan ddatgelu, fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes parhaus; a defnyddio'r dull o gyfrifo ar sail busnes parhaus oni bai ei bod hi'n fwriad ganddo ddirwyn y Grŵp neu riant-gorff y Brifysgol i ben neu atal eu gweithredoedd; neu os nad oes ganddo ddewis amgen realistig heblaw gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn cynnwys camddatganiadau materol, boed hynny'n deillio o dwyll neu drwy amryfusedd, ac i gyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilydd. Lefel uchel o sicrwydd yw 'sicrwydd rhesymol', ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o sylwedd pan fo un i'w gael. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu amryfusedd ac fe'u gwelir yn gamddatganiadau o sylwedd os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol y byddent yn dylanwadu ar benderfyniadau ariannol a wneir gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol.

Ceir disgrifiad llawnach o'n cyfrifoldebau ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

ADRODDIAD AR OFYNION CYFREITHIOL A RHEOLIADOL ERAILL


Mae'n ofynnol inni roi adroddiad ar y materion isod yn unol â'r hyn a bennir yng Nghod Ymarfer Archwilio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ('CCAUC') a gyhoeddwyd yn ôl Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac yn y Cod Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2021/22 a gyhoeddwyd gan CCAUC ("y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon").

Yn ein barn ni, ym mhob agwedd o sylwedd:

- mae'r cronfeydd o ba bynnag ffynhonnell a weinyddwyd gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'u defnyddio yn briodol at y dibenion hynny a'u rheoli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- mae incwm, lle y bo'n briodol, wedi'i ddefnyddio'n unol â pharagraff 145 o God Rheoli Ariannol CCAUC;
- mae grantiau Cyngorau Cyllido wedi'u defnyddio'n unol â'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrthynt ac fe'u defnyddiwyd at y dibenion y cawsant eu derbyn ar eu cyfer, gan gynnwys y Telerau a'r Amodau Cyllid;
- mae gofynion Cyfarwyddyd Cyfrifon CCAUC wedi eu bodloni.

DIBEN EIN GWAITH ARCHWILIO AC I BWY MAE GENNYM GYFRIFOLDEBAU

Adroddiad i'r Cyngor yn unig yw hwn yn unol ag Adran 4 o Siarter ac Ystatudau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) a'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Mae ein gwaith archwilio wedi ei wneud er mwyn datgan i'r Cyngor y materion hynny y mae'n ofynnol arnom eu datgan iddo mewn adroddiad archwilio, ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac arddel cyfrifoldeb i neb ond y Brifysgol a'i Chyngor am ein gwaith archwilio, yr adroddiad hwn, a'r casgliadau yr ydym wedi eu gwneud.



Rees Batley

ar gyfer ac ar ran KPMG LLP, Archwilydd Statudol

Mae'r Cyfrifwyr Siartredig KPMG LLP yn gymwys i weithredu yn archwilydd yn nhermau adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006

66 Queen Square
Bryste
BS1 4BE

Dyddiad: 30 Tachwedd 2022

Datganiadau Ariannol ar gyfer Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022

DATGANIAD O'R PRIF BOLISI'AU CYFRIFEG

1. SAIL Y PARATOI

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP): Cyfrifon ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019; y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddwyd gan CCAUC; a'r Safonau Adrodd Ariannol (FRS102).

Sefydliad er y budd cyhoeddus yw'r Brifysgol ac felly mae wedi cymhwyso gofyniad y budd cyhoeddus yn FRS102. Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â chonfensiwn y gost wreiddiol, ac eithrio'r eiddo buddsoddi a rhwymedigaethau'r pensiynau buddiannau diffiniedig sy'n cael eu dal ar eu gwerth teg.

Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno Datganiad o Lif Arian Parod y grŵp dim ond yn unol â'r hyn a ganiateir gan yr eithriad ar ddatgan sydd i'w gael yn FRS102.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes parhaus.

Busnes Parhaus

Gwnaeth Grŵp Cyfunol Prifysgol Aberystwyth £28.0 miliwn o golled (2020-21 £4.2 miliwn o warged) sydd wedi arwain at £0.8 miliwn o fewnlif net o arian parod (2020-21 £5.0 miliwn o all-lif). Mae gan y Grŵp hefyd £6.1 miliwn o rwymedigaethau cyfredol net (rhwymedigaethau cyfredol net 2020-21 £9.7 miliwn) ac £89.0 miliwn o asedau net (2020-21 £100 miliwn), y mae £58.1 miliwn (2020-21 £68.9 miliwn) ohonynt yn gronfeydd digyfyngiad. O fewn yr asedau cyfredol net y mae arian parod ac arian cyfatebol, sef £8.1 miliwn (£7.3 miliwn yn 2020-21) sydd ar gael i'w ddefnyddio gan y Grŵp i dalu am ei rwymedigaethau parhaol ac i gefnogi Rhaglen Gyfalaf y Grŵp.

Mae'r rhagolygon ariannol, gan gynnwys y rhagamcanion o'r llif arian parod a'r dadansoddiad o sensitifrwydd, wedi'u paratoi i'r Grŵp yn cwmpasu cyfnod yr asesiad ar sail busnes parhaus, sef 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn. Yn ôl y rhagolygon hyn bydd gan y Grŵp mewnlif net gyson o arian parod yn ystod cyfnod yr asesiad ar sail busnes parhaus.

Mae'r Grŵp yn cadw'r gallu i ohirio cynlluniau buddsoddi cyfalaf, lle nad yw wedi ymrwymo iddynt, er mwyn cadw gweddill digonol o arian parod ac arian wrth gefn i dalu am rwymedigaethau fel y byddant yn ddyledus. I gynorthwyo â'r llif arian parod, mae gan Brifysgol Aberystwyth adnodd credyd cylchdroi, gwerth £10 miliwn, ynghyd ag adnodd credyd cylchdroi ychwanegol gwerth £5 miliwn drwy'r cynllun CLBILS. Mae'r adnodd cyntaf ar waith tan fis Mai 2024, a'r ail un tan fis Tachwedd 2023, drwy gytundeb â benthycwyr y Brifysgol. Mae'r Brifysgol wedi rhagweld y bydd yn cyflawni ei rhwymedigaethau cyfamod drwy gydol y cyfnod hyd at Ionawr 2024. O ganlyniad, mae Cyngor y Brifysgol yn hyderus y bydd gan y Grŵp ddigon o gronfeydd i barhau â chyflawni eu rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus, am o leiaf 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ac felly y mae wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes parhaus.

2. SAIL CYFUNO'R CYFRIFON

Mae'r datganiadau ariannol cyfun hyn yn cynnwys y Brifysgol, Campws Arloesi a Menter Aberystwyth (CAMA) (is-gwmni), Aber Trading Cyf (is-gwmni), ac Ymgynghori Aber Bangor Cyf (is-gwmni) am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2022. Mae canlyniadau'r is-gwmni yn ystod y cyfnod wedi'u cynnwys yn y datganiad cyfun o incwm a gwariant. Mae trafodion o fewn y grŵp yn cael eu dileu wrth gyfuno.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfun yn cynnwys incwm a gwariant Undeb y Myfyrwyr gan nad yw'r Brifysgol yn dwyn rheolaeth na dylanwad llywodraethol ar ei phenderfyniadau polisi. Defnyddir y dull ecwiti ar gyfer cyfrifon cwmnïau cysylltiedig a mentrau ar y cyd.

3. COFNODI INCWM

Mae incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau yn cael ei gofnodi ar y Datganiad Cyfun a Datganiad y Brifysgol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo'r nwyddau neu'r gwasanaethau wedi'u darparu i'r cwsmer allanol neu pan fo telerau'r contract wedi'u cyflawni.

Mae incwm o ffoedd yn cael ei ddatgan gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt ac yn cael ei roi ar y Datganiad Cyfun a Datganiad y Brifysgol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros y cyfnod pan fo'r myfyrwyr yn astudio. Os yw maint y ffi ddysgu wedi'i leihau, drwy ddisgownt am dalu'n brydlon neu'n ddisgownt a warentir i bob myfyriwr, mae'r incwm derbyniadwy yn cael ei ddangos wedi tynnu'r disgownt. Mae bwrsariaethau ac ysgoloriaethau nad ydynt yn gyffredinol yn cael eu cyfrif gros o fewn gwariant a heb eu tynnu o incwm.

Mae'r cronfeydd sy'n cael eu derbyn a'u dosbarthu gan y Brifysgol fel asiant sy'n talu ar ran corff cyllido yn cael eu heithrio o incwm a gwariant y Brifysgol os nad yw'r Brifysgol yn agored ond i'r mymryn lleiaf

Cyllid Grantiau

Mae grantiau refeniw'r Llywodraeth, gan gynnwys grantiau bloc a grantiau ymchwil y cyngorau cyllido yn cael eu cofnodi mewn incwm dros y cyfnodau pan fydd y Brifysgol yn cofnodi'r costau cysylltiedig y rhoddwyd y grant amdanynt. Os yw rhan o grant y llywodraeth wedi'i gohirio, fe'i cofnodir fel incwm gohiriedig o fewn y credydwy'r a'i dyrannu rhwng y credydwy'r sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn a'r credydwy'r sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn fel y bo'n briodol.

Mae grantiau (gan gynnwys grantiau ymchwil) a ddaw o ffynonellau anllywodraethol yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i'r incwm hwnnw, a phan fo'r amodau sy'n ymwneud â pherfformiad wedi'u bodloni. Mae'r incwm a gafwyd cyn y bodlonir yr amodau sy'n ymwneud â pherfformiad yn cael ei gofnodi fel incwm gohiriedig ar y fantolen, ac yn cael ei ryddhau i incwm wrth i'r amodau gael eu bodloni.

Grantiau cyfalaf

Cofnodir grantiau cyfalaf y llywodraeth yn yr incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased. Mae grantiau cyfalaf eraill yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i'r cronfeydd, yn amodol ar yr angen i fodloni unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

Rhoddion a gwaddolion

Mae rhoddion a gwaddolion ac arnynt gyfyngiadau a osodwyd gan y rhoddwr yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i'r cronfeydd. Cedwir incwm o waddolion cyfyngedig o fewn cronfa'r gwaddolion nes y bydd yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r cyfyngiadau penodol, ac ar yr adeg honno fe ryddheir yr incwm i'r arian cyffredinol wrth gefn drwy drosglwyddiad arian wrth gefn. Mae incwm o waddolion digyfyngiad yn cael ei gofnodi yn y cyfnod pan y'i derbynnir.

Cedwir rhoddion cyfyngedig o fewn y cronfeydd cyfyngedig nes y byddant yn cael eu defnyddio yn unol â'r cyfyngiadau, ac ar yr adeg honno fe ryddheir yr incwm i'r arian cyffredinol wrth gefn drwy drosglwyddiad arian wrth gefn. Mae rhoddion heb gyfyngiadau arnynt yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i'r cronfeydd.

Cofnodir incwm o fuddsoddiadau ac arbriso gwaddolion yn yr incwm i'r flwyddyn pan fydd yn codi, naill ai fel incwm cyfyngedig neu ddigyfyngiad. Mae'r dosbarthiad yn dibynnu ar y telerau a'r cyfyngiadau a osodir ar y gronfa waddol unigol.

Pedwar prif fath o roddion a gwaddolion a gofnodir yn y cronfeydd wrth gefn:

1. Rhoddion cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi bod rhaid defnyddio'r rhodd at ryw fwriad penodol.
2. Gwaddolion parhaol digyfyngiad - mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n parhaol i gynhyrchu llif incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
3. Gwaddolion treuliadwy cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi amcan penodol ac eithrio prynu neu adeiladu asedau cyffyrddadwy sefydlog, ac mae gan y Brifysgol yr hawl i ddefnyddio'r cyfalaf.
4. Gwaddolion parhaol digyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n parhaol i gynhyrchu llif incwm i'w defnyddio at ryw fwriad penodol.

4. CYFRIFO BUDDIANNAU YMDDEOL

Dyma'r pedwar prif gynllun pensiwn yn y Brifysgol:

- Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), sef cynllun Aml-gyflogwr â Buddiannau Diffiniedig;
- Cynllun Pensiwn Prifysgol Aberystwyth (CPPA), sef Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig;
- Cynllun Pensiwn ac Aswariant Prifysgol Aberystwyth (CPAPA), sef Cynllun Buddiannau Diffiniedig sydd wedi'i gau rhag cyfraniadau gan weithwyr yn y dyfodol; a
- Chronfa Pensiwn Dyfed (CPD), sef Cynllun Buddiannau Diffiniedig sydd wedi'i gau rhag cyfraniadau gan weithwyr yn y dyfodol.

Cynllun Aml-gyflogwr â Buddiannau Diffiniedig

Mae cynlluniau Aml-gyflogwr â Buddiannau Diffiniedig yn cael eu prisio bob yn dair blynedd gan actiwarïaid annibynnol a chanddynt gymwysterau proffesiynol. Os nad yw'r Brifysgol yn gallu nodi ei chyfran hi o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol y cynllun ar sail gyson a rhesymol oherwydd natur gydfuddiannol y cynllun, cyfrifir am y cynllun fel cynllun buddiannau ymddeol â chyfraniadau diffiniedig. Cofnodir rhwymedigaeth o fewn y darpariaethau am unrhyw ymrwymiad contractiol i ariannu unrhyw ddiffygion o'r gorffennol o fewn y cynllun.

Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig

Mae'r Brifysgol yn talu cyfraniadau penodedig i endid ar wahân ac ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol, na thrwy ddehongliad, arni i dalu mwy. Mae rhwymedigaethau am gyfraniadau i gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig yn cael eu cofnodi fel gwariant yn y datganiad o incwm yn y cyfnodau pan fo'r staff yn cyflawni eu dyletswyddau.

Cynllun Buddiannau Diffiniedig

Mewn cynlluniau buddiannau diffiniedig mae gan y Brifysgol rwymedigaeth i ddarparu'r buddiannau y cytunwyd arnynt i aelodau presennol o staff ac i gyn-weithwyr. Y Brifysgol sy'n ysgwyddo'r risg actiwarïaid (sef bod y buddiannau yn costio'n fwy neu'n llai na'r disgwyl) a'r risg fuddsoddol (sef bod yr adenillion ar yr asedau a neilltuir i ariannu'r buddiannau yn wahanol i'r disgwyl).

Mae'r Brifysgol yn cofnodi rhwymedigaeth am ei hymrwymadau yn ôl cynlluniau buddiannau diffiniedig, net o asedau'r cynlluniau. Mae'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net hon yn cael ei mesur drwy amcangyfrif y cyfanswm o fuddiannau y mae'r staff wedi'u hennill am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol, wedi'i ostwng i bennu'r gwerth presennol, wedi tynnu gwerth teg asedau'r cynllun (yn ôl prisiau cynnig). Gwneir y gwaith cyfrifo gan actwari cymwys gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu credyd unedau. Os ased net yw canlyniad y gwaith cyfrifo hwnnw, cyfyngir ar gofnod yr ased hwnnw i'r graddau bod y Brifysgol yn gallu adfer y gweddill naill ai drwy leihau cyfraniadau yn y dyfodol, neu drwy ad-daliadau o'r cynllun. Mae cynlluniau buddiannau diffiniedig yn cael eu prisio bob yn dair blynedd gan actiwarïaid annibynnol sydd â chymwysterau proffesiynol.

5. BUDDIANNAU CYFLOGAETH

Mae buddiannau cyflogaeth yn y tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau y telir amdanynt, yn cael eu cofnodi fel gwariant yn y flwyddyn pan fydd yr aelodau o staff dan sylw yn cyflawni eu gwasanaeth i'r Brifysgol. Cronnir unrhyw fuddiannau nas defnyddiwyd ac mae gwerth y rhwymedigaeth yn cael ei gofnodi fel y swm ychwanegol y mae'r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i'r hawliau nas defnyddiwyd.

6. PRYDLESAU CYLLID

Diffinnir prydlesau fel prydlesau cyllid lle mae'r Brifysgol yn arddel sylwedd yr holl risgiau a'r buddiannau sy'n cyd-fynd â pherchnogaeth yr ased a brydlesir. Mae asedau ar brydles a gafwyd drwy brydlesau cyllid a'r rhwymedigaethau prydles cyfatebol yn cael eu cofnodi ar y dechrau am swm sy'n cyfateb naill ai i'w gwerth teg neu werth presennol y taliadau prydles isafsymol, p'un bynnag fo'r isaf, ar ddechrau'r brydles.

Mae'r taliadau prydles isafsymol yn cael eu rhannu rhwng y costau cyllid a lleihad y rhwymedigaeth sy'n

weddill.

Mae cost y cyllid yn cael ei dyrannu i bob cyfnod yn ystod tymor y brydles er mwyn creu cyfradd llog gyson ar weddill y rhwymedigaeth.

7. PRYDLESAU GWEITHREDU

Cofnodir costau sy'n gysylltiedig â phrydlesau gweithredu ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Rhennir unrhyw breimymau neu gymhelliannau prydlesau dros dymor isafsymol y brydles.

Mae incwm a gafwyd ynghylch prydlesau gweithredu a roddir yn cael eu cofnodi ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Rhennir unrhyw breimymau neu gymhelliannau prydlesau dros dymor isafsymol y brydles.

8. ARIAN TRAMOR

Y Bunt (Sterling) yw arian cyfredol gweithredol Grŵp Prifysgol Aberystwyth

Trosir trafodion a gynhaliwyd mewn gwahanol fathau o arian tramor i'r bunt yn ôl y gyfradd gyfnewid arian tramor sy'n weithredol ar ddyddiad y trafodyn. Mae asedau ariannol a rhwymedigaethau a gofnodir mewn gwahanol fathau o arian tramor ar ddyddiad y fantolen yn cael eu trosi i'r arian cyfredol yn ôl y gyfradd gyfnewid arian tramor sy'n weithredol ar y dyddiad hwnnw. Mae gwahaniaethau cyfraddau newid arian tramor sy'n codi wrth drosi i'r arian cyfredol yn cael eu cofnodi yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr.

Mae asedau a rhwymedigaethau gweithrediadau tramor yn cael eu trosi i'r bunt yn ôl y cyfraddau cyfnewid arian tramor sy'n weithredol ar ddyddiad y fantolen. Mae refeniwiau a threuliau gweithrediadau tramor yn cael eu trosi ar gyfradd gyfartaleddol i'r flwyddyn lle mae'r gyfradd honno'n debyg i'r cyfraddau cyfnewid arian tramor a fu ar waith ar ddyddiadau'r trafodion. Mae gwahaniaethau cyfraddau newid sy'n codi wrth drosi gweithrediadau tramor fel hyn yn cael eu cofnodi o dan llog a chostau cyllid eraill.

9. ASED AU SEFYDLOG

Mae asedau sefydlog wedi'u datgan yn ôl y gost dybiedig wedi tynnu'r colledion dibrisio cronedig a'r colledion colli gwerth cronedig. Mae rhai eitemau o asedau sefydlog a ailbrisiwyd i werth teg ar ddyddiad y trosglwyddiad i SORP Addysg Uwch 2015, neu cyn y dyddiad hwnnw, wedi'u mesur ar sail y gost dybiedig, sef y gwerth ailbrisiu a bennwyd ar ddyddiad yr ailbrisiad hwnnw.

Os bydd oes ddefnyddiol wahanol gan wahanol rannau o ased sefydlog, cyfrifir amdanynt fel eitemau o asedau sefydlog ar wahân. Mae dulliau dibrisio, oesau defnyddiol a gwerthoedd gweddillion yn cael eu hadolygu ar ddyddiad paratoi pob Mantolen.

Ar bob dyddiad adrodd fe gynhelir adolygiad ar gyfer dangosyddion posib o golli gwerth. Os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n dangos ei bod hi'n bosib na ellir adennill swm cario'r eiddo, y cyfarpar a'r offer, fe gyfrifir yr effaith a bydd y gwerthoedd a gollir yn cael eu cofnodi ar yr ased ac yn y Datganiad Cyfun a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr.

Tir ac adeiladau

Ailbrisiwyd eiddo rhydd-ddaliad, ac eithrio Neuaddau Llety ac adeiladau eraill sy'n gysylltiedig â masnachu, ar sail gwerth adnewyddu ar ôl dibrisiant ar 31 Gorffennaf 2014. Mae'r asedau hyn yn parhau yn ôl prisiad 2014. Mae ychwanegiadau eraill yn cael eu dal yn ôl y gost.

Mae adeiladau rhydd-ddaliad yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros gyfnod eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig, yn unol â'u rhannau cyfansoddol, sef:

Tymor Hir e.e. sylfeini ac adeiladwaith	40 i 60 o flynyddoedd
Tymor Canolig e.e. gwasanaethau	10 i 30 o flynyddoedd
Tymor Byr e.e. gosodiadau mewnol	5 i 10 o flynyddoedd

Mae costau sy'n codi mewn cyswllt â thir ac adeiladau, ar ôl eu prynu neu eu hadeiladu yn y lle cyntaf, yn cael

eu cyfalafu i'r graddau eu bod yn cynyddu'r budd disgwylidig i'r Brifysgol yn y dyfodol. Ni ddibrisir asedau tra byddant yn cael eu hadeiladu.

Nid yw tir ar rydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio gan yr ystyrir bod iddo oes ddefnyddiol am gyfnod amhenodol. Mae tir ar brydles yn cael ei ddibrisio dros gyfnod y brydles.

Offer a Pheiriannau

Y mae gwariant ar offer sy'n costio llai na £10,000 fesul eitem unigol yn cael ei ddileu yn y flwyddyn pan y'u prynwyd. Mae'r offer eraill yn cael eu cyfalafu.

Cofnodwyd offer a gyfalafwyd yn ôl ei gost a'i ddibrisio, drwy'r dull llinell syth, dros gyfnod disgwylidig ei ddefnyddioldeb, sef pum mlynedd, heblaw am offer a gafwyd ar gyfer prosiectau ymchwil penodol sy'n cael ei ddibrisio dros gyfnod y prosiect (sef tair blynedd fel arfer).

Asedau treftadaeth

Paentiadau, gweithiau celfyddydol a darnau o waith seramig ym meddiant y Brifysgol yw asedau treftadaeth. Maent yn cael eu dal a'u cynnal yn bennaf oherwydd eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant. Mae'r eitemau hynny y pennwyd eu gwerth dros £10,000 wedi'u cyfalafu a'u cofnodi yn ôl y gost neu eu gwerth caffael, lle y bo modd cael amcan rhesymol o'r gost neu'r gwerth. Nid yw asedau treftadaeth yn cael eu dibrisio gan fod eu bywyd economaidd hir a'u gwerth gweddilliol uchel yn golygu na fyddai sylwedd i unrhyw ddibrisio o'r fath.

Mae unrhyw gostau sy'n codi o waith adfer neu gadwriaethol i'r asedau hyn yn cael eu cynnwys yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fo'r costau hynny'n codi.

10. EIDDO BUDDSODDI

Ystyr eiddo buddsoddi yw tir ac adeiladau a ddelir er mwyn cael incwm o'u llogi neu er mwyn arbriso cyfalaf, yn hytrach na'r eiddo a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau.

Mesurir eiddo buddsoddi yn ôl y gost ar y cychwyn, ac wedyn yn ôl ei werth teg, ac fe'i hystyrir, gydag unrhyw newidiadau yn cael eu cofnodi yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr.

11. BUDDSODDIADAU ERAILL

Mae buddsoddiadau a restrir yn cael eu priso yn ôl eu gwerth teg ar y farchnad ac mae enillion a cholledion yn cael eu cofnodi yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Mae buddsoddiadau asedau anghyfredol yn cael eu cofnodi ar y Fantolen yn ôl eu cost wedi'u hamorteiddio, wedi tynnu unrhyw addasiadau am golli gwerth.

Mae buddsoddiadau mewn endidau a gyd-reolir, cwmnïau cysylltiedig ac is-gwmnïau yn cael eu cofnodi yn ôl y gost wedi tynnu addasiadau am golli gwerth yng nghyfrifon y Brifysgol.

Delir buddsoddiadau asedau cyfredol yn ôl eu gwerth teg, ac mae unrhyw newidiadau yn cael eu cofnodi yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr.

12. STOC

Prisiwyd stoc yn ôl y gost neu'r gwerth gwireddadwy net, p'un bynnag fo'r isaf.

13. ARIAN PAROD AC ARIAN CYFATEBOL

Mae Arian Parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuron sydd i'w had-dalu ar gais, a gorgodiadau. Cyfrifir bod adneuron i'w had-dalu ar gais os ydynt ar gael i bob pwrpas o fewn 24 awr heb gosb ariannol.

Mae arian cyfatebol yn fuddsoddiadau byrdymor a hylifol iawn y gellir yn hawdd eu trosi'n symiau hysbys o arian parod, heb risg sylweddol o newid yn eu gwerth.

14. DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETHAU AMODOL AC ASED AU AMODOL

Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol pan:

- (i) fo gan y Brifysgol ymrwymiad (cyfreithiol neu ddeongliadol) yn y presennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;
- (ii) fo'n debygol y bydd angen gwario buddiannau economaidd er mwyn bodloni'r ymrwymiad hwnnw; a phan
- (iii) fo modd gwneud amcangyfrif dibynadwy am swm yr ymrwymiad.

Mae'r maint a gofnodir yn ddarpariaeth yn cael ei bennu drwy dynnu'r llif disgwylidig o arian parod yn y dyfodol, ar gyfradd, cyn tynnu treth, sy'n adlewyrchu'r risgiau sy'n berthnasol i'r rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaethau amodol yn codi o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n gosod ymrwymiad posib ar y Brifysgol ac ni fydd modd ei gadarnhau nes y bo digwyddiadau posib yn y dyfodol, y tu allan i reolaeth y Brifysgol, yn digwydd ai peidio. Mae rhwymedigaethau amodol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle y byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai ei bod hi'n annhebyg y bydd angen i adnoddau fynd allan, neu ei bod hi'n amhosib mesur maint yr ymrwymiad yn ddibynadwy.

Mae ased amodol yn codi lle mae digwyddiad yn golygu ei bod hi'n debygol y bydd y Brifysgol yn cael ased ond ni fydd modd ei gadarnhau nes y bo digwyddiadau posib yn y dyfodol, y tu allan i reolaeth y Brifysgol, yn digwydd ai peidio.

Nid yw asedau a rhwymedigaethau amodol yn cael eu cofnodi ar y Fantolen, ond fe'u datgenir yn y nodiadau.

15. TRETH

Mae'r Brifysgol yn elusen eithriedig o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf Elusennau 2011. Felly mae'n elusen yn unol â'r ystyr ym Mharagraff 1 o atodlen 6 o Ddeddf Cyllid 2010 ac felly mae gan y Brifysgol botensial i gael ei heithrio rhag talu treth ar incwm neu enillion cyfalaf a geir o fewn y categorïau sy'n cael eu cwmpasu gan adrannau 478-488 o Ddeddf Treth Gorfforaethol 2010 (CTA 2010) neu adran 256 o Ddeddf Trethu Enillion Taladwy 1992 i'r graddau bod yr incwm neu'r enillion dan sylw wedi eu defnyddio at ddibenion cwbl elusennol.

Mae is-gwmnïau'r Brifysgol yn talu Treth Gorfforaethol yn union fel unrhyw gorff masnachol arall.

Byddai treth ohiriedig yn cael ei darparu'n llawn ar wahaniaethau amseru sy'n golygu bod rhwymedigaeth ar ddyddiad y fantolen i dalu mwy o dreth, neu hawl i dalu llai o dreth, ar ddyddiad yn y dyfodol.

Mae prif gylchoedd gweithredu'r Brifysgol yn cael eu hesgusodi rhag Treth ar Werth (TAW), ond mae rhai cyflenwadau a gwasanaethau ategol yn talu TAW ar wahanol gyfraddau. Mae Gwariant yn cynnwys Treth ar Werth anadferadwy a godwyd gan gyflenwyr i'r Brifysgol.

16. ARIAN WRTH GEFN

Mae arian wrth gefn wedi'i bennu naill ai'n gyfyngedig neu'n ddigyfyngiad. Mae gwaddolion cyfyngedig wrth gefn yn cynnwys gweddillion a ddelir, drwy eu gwaddoli i'r Brifysgol, mewn cronfeydd sydd wedi'u cyfyngu yn barhaol ac y mae'n rhaid i'r Brifysgol eu dal am byth.

Mae arian cyfyngedig arall wrth gefn yn cynnwys gweddillion lle y mae'r rhoddwr wedi pennu amcan penodol iddynt ac felly dim ond at ddibenion cyfyngedig y mae'r Brifysgol yn cael defnyddio'r cronfeydd hynny.

17. OFFERYNNAU ARIANNOL SYLFAENOL

Masnach a dyledwyr / credydwyr eraill

Mae dyledwyr a chredydwyr nad oes ganddynt gyfradd log ddatganedig neu sy'n daladwy o fewn un flwyddyn yn cael eu cofnodi yn ôl pris y trafodyn. Cofnodir unrhyw golledion sy'n deillio o golli gwerth yn y datganiad o incwm cynhwysfawr o fewn y costau gweithredu eraill.

Rhwymedigaethau ariannol hirdymor

Mae rhwymedigaethau ariannol hirdymor yn cael eu dosbarthu yn ôl sylwedd goblygiadau contractiol yr offeryn ariannol, yn hytrach na ffurf gyfreithiol yr offeryn ariannol. Mae'r holl fenthyciadau a ddelir gan y Grŵp yn cael eu dosbarthu fel offerynnau ariannol sylfaenol yn unol â gofynion FRS 102, ac yn cael eu dal yn ôl eu cost wedi'u hamorteidio. Nid yw benthyciadau a buddsoddiadau sy'n daladwy neu'n ddyledus o fewn un flwyddyn yn cael eu disgowntio.

Cafwyd y llety myfyrwyr, Fferm Penglais, drwy ddefnyddio cyllid oddi wrth Legal & General (L&G) a Balfour Beatty. Mae'r adeilad wedi'i gofnodi yn ôl y gost. Mae'r cyllid a ddarparwyd gan L&G a Balfour Beatty wedi'i gofnodi o dan gredydwyr hirdymor ar sail y gyfradd log ymhlyg yn y trefniadau.

18. AMCANGYFRIFON AC ASESIADAU ALLWEDDOL

Er mwyn paratoi datganiadau ariannol y Sefydliad mae angen gwneud asesiadau, amcangyfrifon, a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar sut mae'r polisiau cyfrifo yn cael eu cymhwyso ac ar y meintiau o asedau a rhwymedigaethau, incwm, a threuliau a gofnodir yn yr adroddiad. Mae'r asesiadau, yr amcangyfrifon, a'r rhagdybiaethau cysylltiedig hyn wedi'u seilio ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau am ddigwyddiadau'r dyfodol y credir eu bod yn rhesymol dan yr amgylchiadau. Yn eu hanfod, prin y bydd yr amcangyfrifon cyfrifo sy'n deillio o hynny yr un peth â'r canlyniadau gwirioneddol.

(i) Goblygiadau buddiannau ymddeol

Amcangyfrif - AUPAS

Mae'r Brifysgol yn gweithredu ei chynllun ei hun, sef Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (CPAPA); sef cynllun buddiannau diffiniedig. Cynhelir prisiad actiwaraid ar y cynllun yn unol â phenderfyniad yr ymddiriedolwyr ar gyfnodau heb fod yn hwy na thair blynedd. Asesir costau pensiwn o dan FRS 102 yn unol â chynngor actiwariaid annibynnol ar sail y prisiadau a'r rhagdybiaethau actiwaraid diweddaraf a bennir gan yr actiwariaid. Mae'r rhagdybiaethau wedi'u seilio ar wybodaeth a roddwyd i'r actiwariaid gan y Brifysgol, a ategir gan drafodaethau rhwng yr actiwari a'r rheolwyr lle bo hynny'n berthnasol. Mae'r rhagdybiaethau wedi'u cofnodi yn Nodyn 29.

Amcangyfrif - USS

Gan fod y Brifysgol yn rhwym gan gcontract i wneud taliadau adfer diffygion i USS, cofnodir hyn fel rhwymedigaeth yn y fantolen. Mae'r ddarpariaeth ar hyn o bryd wedi'i seilio ar gynllun adfer diffygion USS y cytunwyd arno ar ôl prisiad actiwaraid 2020, sy'n diffinio'r taliad sydd ei angen am y diffyg fel canran o gyflogau yn y dyfodol. Bydd y cyfraniadau yn cael eu hailasesu mewn pob prisiad tairblyneddol ar y cynllun. Mae'r ddarpariaeth wedi'i seilio ar amcangyfrif y rheolwyr o gynnydd cyflogau yn y dyfodol, newidiadau yn nifer y staff a'r gyfradd ddisgowntio ar y pryd. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn Nodyn 29.

Asesiad - USS

Mae FRS 102 yn gwahaniaethu rhwng cynllun grŵp a chynllun aml-gyflogwr. Mae cynllun grŵp yn gasgliad o endidau o dan reolaeth gyffredin, fel rheol ag un cyflogwr nodd. Mae cynllun aml-gyflogwr yn gynllun ar gyfer endidau nad ydynt o dan reolaeth gyffredin ac sydd (fel rheol) yn gynllun ar draws y diwydiant, fel Cynllun Pensiwn y Prifysgolion.

Mae cyfrifo am gynllun aml-gyflogwr, lle mae'r cyflogwr wedi ymrwmo i gytundeb â'r cynllun sy'n penderfynu sut y bydd y cyflogwr yn ariannu diffyg, yn golygu cofnodi rhwymedigaeth am y cyfraniadau sy'n daladwy sy'n codi o'r cytundeb (i'r graddau eu bod yn ymwneud â'r diffyg) a'r gost sy'n deillio o hynny mewn elw neu golled yn unol ag adran 28 o FRS 102. Mae'r cyfarwyddwyr wedi'u bodloni bod Cynllun Pensiwn y Prifysgolion yn cyd-fynd â'r diffiniad o gynllun aml-gyflogwr ac felly mae'r sefydliad wedi cofnodi gwerth teg disgowntedig y cyfraniadau contractiol o dan y cynllun adfer sydd ar waith ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn.

DATGANIAD CYFUN A DATGANIAD Y BRIFYSGOL O INCWM CYNHWYSFAWR i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022

	Nodiadau	2022		2021	
		Cyfun	Prifysgol	Cyfun	Prifysgol
		£'000	£'000	£'000	£'000
INCWM					
Ffioedd dysgu a chontractau addysg	1	54,236	54,236	53,989	53,989
Grantiau cyrff cyllido	2	19,106	19,106	22,054	22,054
Grantiau a chontractau ymchwil	3	17,449	17,449	20,217	20,217
Incwm arall	4	31,315	27,642	21,707	19,652
Incwm o fuddsoddiadau	5	337	337	233	233
Rhoddion a gwaddolion	6	1,080	1,080	642	642
Cyfanswm yr incwm		123,523	119,850	118,842	116,787
GWARIANT					
Costau staff	7/9	70,448	69,913	66,761	66,308
Costau staff - cynnydd/(gostyngiad) yng nghynllun pensiwn yr USS	7	27,752	27,752	(574)	(574)
Costau ailstrwythuro sylfaenol	7	133	133	184	184
Gwariant gweithredu arall	9	34,791	33,299	38,544	37,949
Dibrisiant	10/11	13,389	11,795	11,946	10,891
Llog a chostau cyllid eraill	8/9	4,212	4,212	4,003	4,003
Cyfanswm y gwariant		150,725	147,104	120,864	118,761
Diffyg cyn enillion/colledion eraill a chyfran o ddiffyg gweithredol o fentrau ar y cyd a mentrau cysylltiedig.		(27,202)	(27,254)	(2,022)	(1,974)
Enillion ar ôl gwerthu asedau sefydlog		110	110	243	243
(Colledion)/enillion o fuddsoddiadau		(919)	(919)	6,020	6,020
(Diffyg)/Gweddill cyn treth		(28,011)	(28,063)	4,241	4,289
Treth		(11)	-	-	-
(Diffyg)/gweddill ar ôl treth		(28,022)	(28,063)	4,241	4,289
Enillion/(colledion) actiwaraid ar y cynlluniau pensiwn	29	17,059	17,059	(2,298)	(2,298)
Cyfanswm (y golled gynhwysfawr)/yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn		(10,963)	(11,004)	1,943	1,991
Cynrychiolir gan:					
(Gwariant) cynhwysfawr o waddolion am y flwyddyn	21	(675)	(675)	(4,611)	(4,611)
Incwm/(gwariant) cynhwysfawr cyfyngedig am y flwyddyn	22	432	432	(7)	(7)
(Gwariant)/incwm cynhwysfawr digyfyngiad am y flwyddyn		(10,720)	(10,761)	6,561	6,609
		(10,963)	(11,004)	1,943	1,991
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn a briodolir i					
Cyfran anreolaethol		(13)	-	-	-
Prifysgol		(10,950)	(11,004)	1,943	1,991
		(10,963)	(11,004)	1,943	1,991
Gweddill/(Diffyg) ar ôl treth y gellir ei briodoli i					
Cyfran anreolaethol		(13)	-	-	-
Prifysgol		(28,009)	(28,063)	4,241	4,289
		(28,022)	(28,063)	4,241	4,289

MANTOLEN GYFUN A MANTOLEN Y BRIFYSGOL

ar 31 Gorffennaf 2022

	Nodiadau	2022		2021	
		Cyfun	Prifysgol	Cyfun	Prifysgol
		£'000	£'000	£'000	£'000
ASEDAU ANGHYFREDOL					
Asedau sefydlog	10	250,176	222,339	252,144	222,857
Asedau treftadaeth	11	1,898	1,898	1,898	1,898
Eiddo buddsoddi	12	5,155	5,155	5,223	5,223
Buddsoddiadau	14	31,971	31,971	37,765	37,765
		289,200	261,363	297,030	267,743
ASEDAU CYFREDOL					
Stoc	15	2,189	2,189	1,684	1,684
Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	16	19,803	19,409	13,387	13,870
Buddsoddiadau	17	2,389	2,389	2,495	2,495
Arian parod a chyfwerth ag arian parod		8,111	7,853	7,290	6,548
		32,492	31,839	24,856	24,597
Tynnu: Credydwy: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn	18	38,577	37,901	34,582	33,214
(Rhwymedigaethau) cyfredol net		(6,085)	(6,062)	(9,726)	(8,617)
Cyfanswm asedau wedi tynnu rhwymedigaethau cyfredol		283,115	255,301	287,304	259,126
Credydwy: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn	19	131,596	103,760	133,149	104,923
DARPARIAETHAU					
Darpariaethau pensiynau	20	61,657	61,657	52,392	52,392
Darpariaethau eraill	20	889	889	1,813	1,813
Cyfanswm asedau net		88,973	88,995	99,950	99,998
ARIAN CYFYNGEDIG WRTH GEFN					
Arian wrth gefn o incwm a gwariant - arian wrth gefn o waddoliadau	21	30,271	30,271	30,946	30,946
Arian wrth gefn o incwm a gwariant - arian cyfyngedig wrth gefn	22	580	580	148	148
ARIAN DIGYFYNGIAD WRTH GEFN					
Arian wrth gefn o incwm a gwariant - digyfyngiad		58,135	58,144	68,856	68,904
Cyfran anreolaethol		(13)	-	-	-
Cyfanswm arian wrth gefn		88,973	88,995	99,950	99,998

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor y Brifysgol ar 28 Tachwedd 2022 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



Dr Emyr Roberts,
Cadeirydd y Cyngor



Yr Athro Elizabeth Treasure,
Is-Ganghellor

DATGANIAD CYFUN A DATGANIAD Y BRIFYSGOL O NEWIDIADAU YN YR ARIAN WRTH GEFN i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022

CYFUN	Cyfrif incwm a gwariant			Cyfanswm yn Cynnwys Cyfran Anreolaethol	Cyfran anreolaethol	Cyfanswm
	Gwaddolion £'000	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	£'000	£'000	£'000
Gweddill ar 1 Awst 2021	30,946	148	68,856	99,950	-	99,950
Gwarged/(diffyg) o'r datganiad o incwm cynhwysfawr	(675)	432	(10,720)	(10,963)	(13)	(10,976)
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	(675)	432	(10,720)	(10,963)	(13)	(10,976)
Gweddill ar 31 Gorffennaf 2022	30,271	580	58,136	88,987	(13)	88,974

Y BRIFYSGOL	Cyfrif incwm a gwariant			Cyfanswm yn Cynnwys Cyfran Anreolaethol	Cyfran anreolaethol	Cyfanswm
	Gwaddolion £'000	Cyfyngedig £'000	Digyfyngiad £'000	£'000	£'000	£'000
Gweddill ar 1 Awst 2021	30,946	148	68,904	99,998	-	99,998
Gwarged/(diffyg) o'r datganiad o incwm cynhwysfawr	(675)	432	(10,720)	(11,003)	-	(11,003)
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	(675)	432	(10,720)	(11,003)	-	(11,003)
Gweddill ar 31 Gorffennaf 2022	30,271	580	58,144	89,995	-	88,995

Crëwyd yr arian wrth gefn wrth ailbriso pan drosglwyddwyd i FRS102 ac fe gofnodwyd yr eiddo yn ôl eu cost dybiedig. Gan nad yw'n bolisi gan y Grŵp ailbriso ei asedau sefydlog, mae wedi tybio ei bod hi'n fwy priodol eu dangos o fewn ei gronfa wrth gefn o Incwm a Gwariant.

DATGANIAD CYFUN O'R LLIF ARIAN PAROD i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022

	Nodiadau	2022	2021
		£'000	£'000
Llif arian parod o weithgareddau gweithredol			
(Diffyg)/Gweddill am y flwyddyn		(28,022)	4,241
Addasiad am eitemau heb gynnwys arian parod			
Dibrisiant	11	13,390	11,946
Colli gwerth asedau sefydlog		0	897
Colledion/(Enillion) o fuddsoddiadau gwaddolion	21	496	(3,950)
Colledion/(Enillion) o fuddsoddiadau eraill		423	(2,070)
(Cynnydd) mewn stoc	15	(505)	(81)
(Cynnydd) / gostyngiad mewn dyledwyr	16	(6,416)	1,643
Cynnydd mewn credydwyr	18/19	3,631	1,492
Costau llog pensiynau	29	845	649
Cyfraniad at bensiynau yn fwy na chost y gwasanaeth cyfredol	29	(2,284)	(2,030)
Newid yn nhybiaethau cynllun lleihau diffyg yr USS	29	27,752	(574)
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn darpariaethau eraill	20	(924)	(1,516)
Cyfran o'r (gweddill)/diffyg gweithredol o fentrau ar y cyd	18	0	41
Addasiadau am weithgareddau buddsoddi neu gyllido			
Incwm o fuddsoddiadau	5	(337)	(233)
Llog taladwy	9	3,397	3,296
Incwm o waddolion	21	(504)	(330)
Elw ar ôl gwerthu asedau sefydlog		(110)	(243)
Incwm o grantiau cyfalaf o fewn grantiau ymchwil	3/5	(5,852)	(3,874)
Mewnlf arian parod net o weithgareddau gweithredol		4,980	9,304
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Enillion ar ôl gwerthu asedau sefydlog		178	868
Derbyniadau o grantiau cyfalaf		2,529	12,768
Incwm o fuddsoddiadau	5	337	233
Taliadau a wnaed i brynu asedau sefydlog		(11,423)	(20,941)
Buddsoddiadau asedau anghyfredol newydd		4,981	(810)
		(3,398)	(7,882)
Llif arian parod o weithgareddau cyllido			
Llog a dalwyd		(3,399)	(3,287)
Benthyciadau heb sicrwydd		2,134	(3,500)
Arian parod a dderbyniwyd o waddolion	21	504	330
		(761)	(6,457)
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian parod ac arian cyfatebol yn y flwyddyn		821	(5,035)
Arian parod ac arian cyfatebol ar ddechrau'r flwyddyn	23	7,290	12,325
Arian parod ac arian cyfatebol ar ddiwedd y flwyddyn	23	8,111	7,290

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022

Nodiadau	2022		2021	
	Cyfun £'000	Prifysgol £'000	Cyfun £'000	Prifysgol £'000
1 FFFIOEDD DYSGU A CHONTRACTAU ADDYSG				
Myfyrwyr amser-llawn cartref / yr UE	44,027	44,027	46,643	46,643
Myfyrwyr rhyngwladol amser-llawn	9,108	9,108	6,310	6,310
Myfyrwyr rhan-amser	930	930	752	752
Grantiau Cynnal Hyfforddiant Ymchwil	171	171	284	284
	54,236	54,236	53,989	53,989
2 GRANTIAU CYRFF CYLLIDO				
Grant adnewyddol				
Cyngor Cyllido Addysg Uwch	15,843	15,843	18,497	18,497
Rhyddhau grantiau cyfalaf CCAUC a ohiriwyd	1,078	1,078	1,172	1,172
Grantiau penodol				
Cronfa Datblygu Strategol	-	-	405	405
Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru	2,185	2,185	1,980	1,980
	19,106	19,106	22,054	22,054
3 GRANTIAU A CHONTRACTAU YMCHWIL				
Cynghorau ymchwil	5,483	5,483	6,074	6,074
Elusennau ymchwil	1,159	1,159	1,546	1,546
Llywodraethau (y DU a thramor)	9,356	9,356	11,293	11,293
Diwydiant a masnach	1,281	1,281	1,296	1,296
Arall	170	170	8	8
	17,449	17,449	20,217	20,217
4 INCWM ARALL				
Llety, arlwy a chynadleddau	11,037	11,037	8,176	8,176
Grantiau refeniw eraill	2,334	348	1,457	459
Gwasanaethau eraill a ddarparwyd	2,925	2,925	2,948	2,941
Canolfan y Celfyddydau	3,038	3,038	1,991	1,991
Ffermydd	1,783	1,783	1,474	1,474
Rhyddhawyd o grantiau cyfalaf gohiriedig	3,669	2,080	2,702	1,647
Incwm arall	6,529	6,431	2,959	2,964
	31,315	27,642	21,707	19,652
5 INCWM O FUDDSODDIADAU				
Incwm buddsoddi o waddolion	21	13	33	33
Incwm buddsoddi o gronfeydd cyfyngedig wrth gefn	21	187	182	182
Incwm arall o fuddsoddiadau		137	18	18
		337	233	233

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

Nodiadau	2022		2021		
	Cyfun	Prifysgol	Cyfun	Prifysgol	
	£'000	£'000	£'000	£'000	
6 RHODDION A GWADDOLION					
Gwaddolion newydd	21	504	504	260	260
Rhoddion â chyfyngiadau arnynt	22	482	482	271	271
Rhoddion digyfyngiad		94	94	111	111
		1,080	1,080	642	642

7 COSTAU STAFF					
Cyflogau		56,468	56,054	52,277	51,802
Costau nawdd cymdeithasol		5,046	5,009	4,638	4,612
Costau pensiwn yr USS		7,769	7,686	7,549	7,549
Costau pensiynau eraill		1,164	1,164	2,319	2,319
		70,448	69,913	66,783	66,308
Costau staff - Cynnydd / (gostyngiad) ym mhensiwn yr USS		27,752	27,752	(574)	(10,947)
		98,199	97,665	66,209	65,734
Costau staff - ailstrwythuro		133	133	184	184

Roedd costau staff 2021 yn is na'r costau arferol oherwydd nad oedd y Brifysgol yn cyflogi cymaint o staff achlysurol ym maes Arlwyio nac yng Nghanolfan y Celfyddydau oherwydd y pandemig COVID-19. Mae hyn yn golygu na ellir cymharu'r newidiadau rhwng y Blynnyddoedd Ariannol yn yr un modd.

Taliadau i'r Is-Ganghellor				
Cyflog			236	232
Buddiannau trethadwy ar ffurfiau eraill			22	23
			258	255
Cyfraniadau pensiwn i'r USS			13	5
			271	260

Mae'r swm a ddangosir fel "Buddiannau trethadwy ar ffurf llety cymorthdaledig" yn y tabl uchod yn ymwneud â'r llety a ddarperir gan Brifysgol Aberystwyth ym Mhlas Penglais. Nid yw darpariaeth y llety ei hun wedi newid.

Ar 21 Medi 2018, cafodd Fframwaith Cydnabyddiaeth Staff Uwch i'r Brifysgol ei gymeradwyo gan y Cyngor. Mae'r fframwaith yn disgrifio sut mae'r sefydliad yn ymdrin â thaliadau'r staff uwch, gan gynnwys yr Is-Ganghellor. Gellir gweld copi yn: <https://www.aber.ac.uk/cy/corporate-information/remuneration/>.

Mae'r Cyngor wedi dirprwyo i'r Pwyllgor Taliadau yr awdurdod i gytuno ar faterion sy'n ymwneud â thâl yr Is-Ganghellor. Nid oes cynllun taliadau bonws ar waith, ac nid oes buddiannau eraill yn cael eu darparu ac eithrio'r llety ac aelodaeth o gynllun pensiwn yr USS, fel y gwelir yn y tabl uchod.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod yn gweithredu mewn amgylchiadau cystadleuol ac mae'n awyddus i ddenu a chadw'r staff gorau posib. Serch hynny, wrth wneud unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â thâl y staff uwch, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Taliadau ystyried i ba raddau y gellir fforddio unrhyw benderfyniadau o'r fath, gan gyfeirio at y data meincnodi i Brifysgolion tebyg. O ran taliadau'r Is-Ganghellor, mae'r data meincnodi wedi'i seilio ar Arolwg Blynnyddol Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a Cholegau (UCEA) o Taliadau Staff Uwch ac ar Arolwg Blynnyddol Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion ar Gyflogau Is-Ganghellorion. Ystyrir bod y cyflog sy'n cael ei dalu'n cyd-fynd â swyddi tebyg mewn sefydliadau eraill sydd o faint a statws tebyg.

Mae pob aelod o'r staff uwch yn y Brifysgol - gan gynnwys yr Is-Ganghellor - yn derbyn yn awtomatig unrhyw ddyfarniadau tâl 'costau byw' sy'n cael eu darparu gan y Brifysgol i'w staff ar y golofn dâl sengl y cytunwyd arni'n genedlaethol.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

7 COSTAU STAFF (parhad)

Mae'n ofynnol hefyd i'r Is-Ganghellor gymryd rhan ym mhroses arfarnu Cynllun Cyfraniad Effeithiol y sefydliad. Cynhelir yr arfarniad blynyddol hwn gan Gadeirydd y Cyngor, ac mae'r broses yn rhoi ystyriaeth i ba mor dda mae'r sefydliad yn ei gryswth yn gwneud yn ôl y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunwyd arnynt gan y Cyngor er mwyn monitro cyflawniad Cynllun Strategol y sefydliad. Cyflwynir canlyniadau'r arfarnu hwn wedyn i'r Pwyllgor Taliadau ac fe'u defnyddir yn sylfaen i unrhyw argymhellion i'r Pwyllgor Taliadau ynghylch unrhyw newidiadau i'r taliadau i'r Is-Ganghellor.

Ceir mwy o wybodaeth am y Datganiad Polisi Tâl Blynyddol ar dudalen 32, ac am y Taliadau i'r Staff Uwch a'r Pwyllgor Taliadau ar dudalen 51.

Mae cyflog sylfaenol yr Is-Ganghellor, wedi'i roi ar ffurf lluosrif cyflog y cyflogeion eraill i gyd, yn 6.87 gwaith (2020-21 6.77 gwaith) yn fwy na chanolrif cyflog y staff, lle y cyfrifir canolrif y cyflog ar sail y cyflogau amser-llawn a delir gan y Brifysgol i'r staff.

Mae cyfanswm cyflog yr Is-Ganghellor, wedi'i roi ar ffurf lluosrif cyflog y cyflogeion eraill i gyd, yn 7.90 gwaith (2020-21 7.55 gwaith) yn fwy na chanolrif cyflog y staff, lle y cyfrifir canolrif y cyflog ar sail y cyflogau amser-llawn a delir gan y Brifysgol i'r staff.

Dangosir taliadau'r Is-Ganghellor ar yr un sail â'r staff eraill sydd ar daliadau uwch.

Mae'r taliadau i'r **staff eraill ar gyflogau uwch**, ac eithrio'r cyfraniadau i Yswiriant Gwladol a phensiynau a wneir gan y cyflogwr (yn amodol ar gyfarwyddiadau perthnasol ar gyfrifon), wedi'u dangos isod. Dangosir yr holl daliadau cyn tynnu unrhyw symiau 'aberthu cyflog':

	Nifer y staff: 2022	Nifer y staff: 2021
£100,001-£105,000	6	5
£105,001-£110,000	1	2
£110,001-£115,000	1	-
£115,001-£120,000	-	1
£120,001-£125,000	2	1
£125,001-£130,000	-	-
£130,001-£135,000	-	-
£135,001-£140,000	-	1
£140,001-£145,001	1	-
	11	10
Cyfanswm Costau'r Staff ar Daliadau Uwch (dangosir uchod)	1,221	1,095

Mae'r costau uchod yn cynnwys costau pensiwn yr Is-Ganghellor na'r cyflogwr

CYFARALEDD NIFEROEDD Y STAFF YN ÔL Y PRIF GATEGORÏAU	2022	2021
Academaidd	399	391
Ymchwil	125	126
Rheoli ac arbenigol	354	344
Technegol	132	135
Arall	416	398
